

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC, nos Fawrth, 2 Mai 2017 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr John Pugh [Cadeirydd], David Baker, Wini Davies, Jayne Mayers, Keith Mouldsdaie a Steve Whipp, ynghyd â'r Clerc, Eirwen Godden.

HEFYD YN BRESENNOL – Y Cynghorydd Hugh H Evans, OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, ynghyd â 12 aelod o'r cyhoedd.

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorwyr Tim Faire a Medwen Roberts.

306 DATGAN BUDDIANAU – Y Cynghorwyr John Pugh a Keith Mouldsdaie o ran materion yn ymwneud â Phwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor. Mae'r ddau gynghorydd yn ymddiriedolwyr.

307 COFNODION

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC ar 1 Mawrth 2017.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

308 MATERION YN CODI

308.1 Cofnod 289.1 Cais Cynllunio 20/2016/1137 Datblygiad arfaethedig 63 o dai yn Llanfair DC Adroddwyd y cynhaliwyd cyfarfod ar 10 Ebrill 2017 rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned a'r datblygwr. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi cyfarfod gyda'r Swyddog Cynllunio, Adran Addysg ac Eiddo, ar 13 Ebrill pan fynegwyd pryderon y Cyngor Cymuned ynghylch mynediad i'r cyhoedd a'r gwagle amwynder agored. Roedd y Cyngor Sir yn cytuno y byddai'r mynediad i gerddwyr trwy'r pentref yn mynd trwy'r gwagle sy'n bodoli rhwng y byngalo isaf a'r tŷ yn ne'r safle. Hefyd teimlwyd nad oedd y gwagle agored a ddynodwyd yn wreiddiol yn hygyrch i'r pentref cyfan. Un dewis fyddai rhannu'r gwagle agored presennol i ganiatáu i'r tanciau casglu dŵr aros yng ngogledd y safle a darparu gwagle agored arall wrth y fynedfa i gerddwyr. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol symud Bloc A tua'r gogledd.

Cyflwynodd y Cadeirydd fraslun yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned yn dangos cynllun gosod newydd. Dywedodd rhai o'r cyhoedd a oedd yn bresennol y byddai'r llwybr troed arfaethedig yn effeithio ar rai o'r trigolion yn byw ger y llwybr. Roedd yr holl faterion a godwyd wedi'u trosglwyddo i'r Awdurdod Cynllunio ac mae'r swyddogion yn parhau i darfod y materion, ond mae Pure wedi rhoi dyddiad penodol i'r Awdurdod gan nodi ei fod yn bwriadu mynd i apêl os na chedwir at y dyddiad. Dywedodd Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych y bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned gael safbwynt ar y cais; bydd swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn penderfynu sut i gynghori'r Pwyllgor Cynllunio; petai Pure yn mynd i apêl bydd angen i'r rhesymau yn erbyn cymeradwyo'r cais fod yn gadarn a chryf iawn. Mae angen cydbwysedd a chyfaddawdu neu fel arall bydd y gymuned ar ei cholled. Ychwanegodd, petai'r mater yn mynd i apêl, gallai'r datblygwr fod â hawl i iawndal.

PENDERFYNWYD – Gweithredu i bwysu ar yr Awdurdod Cynllunio am y manylion ymgynghori diweddaraf gynted ag y bo modd.

308.2 Cofnod 299.1 Materion Pentref Llanfair DC – Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch biniau sbwriel cyffredinol ar gyfer Bron y Clwyd, y groesffordd tuag at Bwllglas, pentref Graigfechan a Phentrecelyn. Ni ddarperir biniau am ddim mwyach ond gall y Cyngor Sir brynu a gosod biniau newydd ar gost o tua £500 yr un, ond byddai'n rhaid i'r Cyngor Cymuned dalu'r gost. Hefyd mae ffi o £25 y mis am wagu pob bin. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yng nghyllideb y Cyngor Cymuned ar gyfer hyn ym mlwyddyn ariannol 2017/18. Petai'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen gyda darparu'r biniau byddai'n rhaid cynnwys hyn yng nghyllideb y praesept ar gyfer 2018/19.

PENDERFYNWYD – Gofyn i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir eto ynghylch hyn a gwahodd Simon Billington, Rheolwr Gweithrediadau Prifffyrdd a Strydlun [De] Cyngor Sir Ddinbych i gyfarfod yn y dyfodol.

308.3 Cofnod 301.3 Cofeb Rhyfel Llanfair DC – Roedd pwysau llwyth gwaith yn golygu nad oedd cais yr ail gam wedi'i gwblhau i'w gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel. Cynigiwyd ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen i gyflawni'r gwaith. Bydd rhaid i'r aelodau benderfynu ar yr hyn sydd ei angen, megis rheiliau neu folardiau a chadwyni. Mae angen cwblhau gwaith ymchwil cyn y gellir ychwanegu rhagor o enwau ar y gofeb.

308.4 Cofnod 300.3 Cais Cynllunio 20/2016/1224 Newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio estyniad i gwrtil preswyl Erw Fair, Llanfair DC Adroddwyd bod y cais wedi'i wrthod a bydd y Cyngor Sir yn cyflwyno hysbysiad gorfodi i symud y garafan oddi ar y tir maes o law.

309 GOHEBIAETH

309.1 Lleoliad hygyrch ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Cymuned – Neges e-bost dyddiedig 28 Ebrill 2017 gan un o'r cyhoedd ynghylch hygyrchedd. Esboniwyd bod Neuadd Eleanor wedi'i logi y rhan fwyaf o nosweithiau o nos Lun i nos Iau. Mae cynlluniau i wneud gwelliannau i'r neuadd ond mae'r rhain yn amodol ar sicrhau cyllid. Cyflwynwyd awgrymiadau yn amrywio o newid yr amser i 5 o'r gloch, dyweder, cynnal rhan gyntaf y cyfarfod yn y brif neuadd ac yna symud i'r ystafell y tu ôl i'r llwyfan ar gyfer yr ail ran. Fodd bynnag, gallai cyfarfod ynghynt na 7 o'r gloch ei gwneud yn anodd i bobl sy'n gweithio ddod i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD – Cynnal cyfarfodydd y Cyngor mewn lleoliadau hygyrch eraill yn y gymuned ar sail rota [er enghraifft, Pentrecelyn, Llanfair, Canolfan Genus, Llysfasi]. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau'n lleol, gan ddechrau gyda dod o hyd i leoliad amgen addas yn Llanfair ar gyfer y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 17 Mai.

309.2 Cyngor Sir Ddinbych – anfonwyd manylion am y dogfennau isod at yr Aelodau cyn y cyfarfod:

[a] Ymgynghoriad: Polisi Cludiant Dysgwyr Sir Ddinbych [13 Mawrth i 30 Ebrill] – Dogfennau perthnasol ar gael yn www.sirddinbych.gov.uk/ymgyngoriadau

[b] Neges e-bost oddi wrth Amy Selby, Swyddog Prosiectau Cymunedol, ynghylch Beichiogrwydd Diogelach Cymru – <http://bit.ly/bumpbabyandbeyond>
<http://Bit.ly/SaferPregnancy#saferpregnancywales>

[c] Neges e-bost oddi wrth Tom Booty ynghylch y Strategaeth Rheoli Asedau newydd yn lle'r Strategaeth Rheolaeth Gorfforaethol – <https://www.denbighshire.gov.uk/en/yourcouncil/strategies-plans-and-policies/asset-management/asset-management-strategy.aspx>

[ch] Deddf Teithio Llesol – Map Rhwydwaith Integredig – Mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori ar ddarpariaeth llwybrau cerdded a beicio yn y sir yn y dyfodol – rhaid ymateb erbyn 28 Mai.
<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/parking-roads-and-travel/cycling-and-walking/active-travel/active-travel-act-integrated-network-map-inm.aspx>

PENDERFYNWYD – Derbyn y dogfennau a bod Aelodau'r Cyngor a'r gymuned ehangach yn ymateb yn uniongyrchol.

309.3 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych – Gwahoddiad i gyfres o ddigwyddiadau ar 8, 13 a 20 Mehefin – Canolfan Optic, Parc Busnes Llanelwy – themâu llesiant – Yr Amgylchedd, Cymdeithasol, Economaidd a Diwylliant a Chydnerthedd Cymunedol – www.eventbrite.co.uk/e/digwyddiadau-dewch-ach-syniad-bring-your-idea-events

PENDERFYNWYD - Gan fod hwn yn gyfle pwysig i ddylanwadu ar y broses o integreiddio cynlluniau cymunedol gyda chynlluniau eraill sy'n cael eu cynnig, ynghyd â gofynion Deddf

Cenedlaethau'r Dyfodol, cymeradwywyd bod Mr Steve Whipp yn mynychu ar ran y Cyngor Cymuned.

310 CYNLLUNIO

310.1 Adborth o'r Digwyddiad Ymgynghori â'r Gymuned cyn cyflwyno cais a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2017 yn Llandudno – Roedd y Cyngorydd Keith Mouldsdale wedi mynd i'r digwyddiad ond roedd yn teimlo, er mai bwriad y broses ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio yw cyflymu hysbysu ceisiadau cynllunio, nid yw wedi cynorthwyo yn Llanfair DC o ran y cynnig arfaethedig i adeiladu tai newydd. Mae'r broses wedi bod yn mynd ymlaen am 12 mis, ond cydnabuwyd bod y datblygwr wedi gwneud mwy na'r hyn sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn y dyfodol dylid hysbysu'r gymuned gyfan, nid hysbysiad yn unig a hysbysu'r cymdogion agosaf yn unig, o ddechrau unrhyw broses ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio.

310.2 Ceisiadau Cynllunio – Roedd manylion am y ceisiadau a ganlyn wedi'u hanfon at Gyngorwyr i'w galluogi i lunio ymateb cytunedig erbyn y dyddiadau cau a nodwyd:

Cais 20/2016/1095 Bryn Rhedyn, Bryneglwys, Corwen - Roedd ymateb y Cyngor a anfonwyd ar 29 Mawrth 2017 yn codi cwestiynau am ddilysrwydd y polisïau a ddyfynwyd a dryswch ynghylch cynnwys y datganiad dylunio a mynediad yn y cais. Serch hynny, roedd yr aelodau'n cefnogi'r cais i arbed hen adeilad yng nghefn gwlad, ond bod rhaid i'r cais fod yn gywir.

Ysgrifennodd Mr Paul Griffin, Swyddog Cynllunio, ar 25 Ebrill 2017 i ddweud ei fod wedi'i gyngori bod yr adeilad wedi'i ddymchwel cyn penderfynu ar y cais, nid oedd yr ymgeisydd wedi elw o'r dymchwel damweiniol a bod rhaid i'r Cyngor Sir ystyried a yw colli'r strwythur yn y modd yma yn cynrychioli gadael y safle ai peidio. Roedd yr ymgeisydd wedi prynu'r annedd ar y ddealltwriaeth bod defnydd preswyl cyfreithlon a chaniatâd cynllunio i adnewyddu annedd. Ei fwriad oedd byw mewn carafan ar y safle tra'n cyflawni'r gwaith gan arwain at farn bod preswyl cyfreithiol tan y dymchwel damweiniol. I gloi, ymddengys nad oedd yr adeilad a ddymchwelwyd yn strwythur cadarn ac nad oedd yn effeithlon o ran defnydd ynni a dŵr.

PENDERFYNWYD – Bod yr aelodau'n parhau i gefnogi'r cais am annedd newydd yn lle'r hen un mewn egwyddor, yn amodol ar y cais yn cydymffurfio â gofynion dylunio a mynediad cyfredol, y Cadeirydd yn sgwrsio gyda'r Swyddogion Cynllunio ac adeiladu'r annedd arfaethedig.

Cais 20/2016/1242 Tir wrth ymyl Parawys, Graigfechan – Daeth yr aelodau i'r casgliad bod sylwadau gwreiddiol y Cyngor Cymuned yn parhau'n berthnasol [cofnod 280.2] ynghyd â'r sylwadau ychwanegol a ganlyn ar y cynlluniau diwygiedig:

- mabwysiadu'r sylwadau a wnaed gan yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol [llwybr newydd, atgyfnerthu'r gwrych gyda phlannu newydd nid paneli pren]
- cadarnhau bod diwedd y *cul de sac* yn llain bridwerth i'r darn arall o dir a bod y lled yn ddigonol ar gyfer yr ystad derfynol
- bod y cynlluniau'n annigonol ar gyfer asesu uchder y tai yn erbyn lefel y tir
- dylid ystyried Asesiad Anghenion Tai Cyngor Sir Ddinbych yng nghyswllt y mathau arfaethedig o dai, hynny yw, y gymysgedd o fathau o dai a thai fforddiadwy sy'n adlewyrchu'r angen yn yr ardal. Hefyd y dylai'r Cynllunwyr edrych ar y safle cyfan i asesu'r broses tai fforddiadwy.

PENDERFYNWYD – Y dylai'r Clerc gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio ynghylch yr ymholiadau a godwyd yn ymateb y Cyngor Cymuned.

Cais 20/2017/0234 Maes Carafanau, Llanbenwch, Llanfair DC – Croesawodd yr aelodau'r cyfle i ymweld â'r safle ar 9 Chwefror 2017 ac anfonwyd sylwadau manwl at yr asiant yn dilyn hynny [cofnod 300.1]. Anfonwyd ymateb i'r cais llawn ar 5 Ebrill 2017. Nododd yr Aelodau yr ymdriniwyd â mwyafrif eu hawgrymiadau/pryderon o ran mynediad a threfniadau'r safle; ardal mynd â chŵn am dro [ond y dylid ystyried cysylltu â llwybrau sy'n bodoli eisoes] ac y darparwyd manylion am y goleuadau a'r cynllun goleuo. Mae'r ystyriaethau eraill i'w hystyried yn cynnwys – arolwg arall i ddarparu'r cynllun gosod optimwm, ni ddangosir y cyswllt trydan i'r carafanau ar gyfer pob llain; sicrhau bod y trefniadau gwaredu gwastraff toiledau cemegol yn cael eu cadw ar wahân i'r tanc carthion; dim cerddoriaeth onibai ei fod wedi'i drwyddedu; ac uchafswm hyd arhodiad yn ogystal â chyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn pan na fydd carafanau teithiol yno.

311 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

311.1 Traffig ar yr A525 ym mhentref Llanfair – Adroddwyd bod lefel y traffig yn broblem gynyddol a chyfeiriwyd at gopi o gyfrifiad traffig yr ardal, bod y safle wedi'i asesu gan yr

heddlu at ddibenion Gan Bwyll a bydd y criw gwyllo cyflymder lleol yn trefnu ymweliad/gwiriadau. Nodwyd bod Mr Marc Musgrave, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych, wedi cynnig rhoi llinellau gwynion ar y ffordd o gyfeiriad Wrecsam. Cyflwynwyd awgrym i wella'r goleuadau a symud bolard ynghanol y pentref i ledaenu'r palmant i'w wneud yn fwy diogel i gerddwyr – mae'r camau hyn wedi'u gweithredu.

PENDERFYNWYD – Gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych i holi a oedd data cyfrifiad traffig manylach ar gael.

311.2 Rhwyrstr ar Lwybr Cyhoeddus – Hysbysodd y Cynghorydd Wini Davies ei bod wedi'i hysbysu gan un o'r cyhoedd bod ffens drydan yn creu rhwyrstr ar lwybr cyhoeddus ar dir sy'n eiddo i Goleg Llysfasi wrth Blas Pentrecelyn.

PENDERFYNWYD – Gofyn i'r Clerc gysylltu â Choleg Llysfasi i fynegi pryderon y Cyngor.

311.3 Pont Eyarth – Adroddodd aelod o'r cyhoedd bod Pont Eyarth wedi'i difrodi, gan lori nwyddau trwm o bosibl. Holwyd pryd fyddai'r cyfyngiad pwysau'n dod i rym.

PENDERFYNWYD – Gofyn i'r Clerc gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i holi am y cyfyngiad pwysau.

311.4 Arwyddion Cyfyngu Cyflymder – Adroddwyd bod yr arwydd 30 milltir yr awr ym Mhentrecelyn i'w symud ymhellach i lawr y ffordd.

312 MATERION CYMUNEDOL – Ymdriniwyd â'r holl faterion dan benawdau eraill.

RHAN 2 – Eitemau Cyfrinachol – Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd

313 MATERION ARIANNOL

313.1 Adolygu'r Rheolau Sefydlog – Adroddwyd, er y dylai'r Cyngor gyfarfod bob yn ail fis, bu'n rhaid trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ystod y 12 mis diwethaf [10 cyfarfod yn hytrach na'r chwech arferol] i ymdrin â nifer gynyddol o eitemau i ymgynghori/benderfynu arnynt. Nodwyd fod hyn yn cael effaith ar lwyth gwaith y Cynghorwyr a'r Clerc.

PENDERFYNWYD – [a] Y consensws cyffredinol oedd newid i gyfarfod bob mis ar nos Lun cyntaf y mis am 7 o'r gloch y nos a [b] bod y penderfyniad yn cael ei ohirio heb drafodaeth tan y cyfarfod nesaf.

313.2 Diweddariad ar y broses Archwiliad Mewnol ac Allanol – Rhannwyd copi o lythyr dyddiedig 20 Ebrill 2017 gan Swyddfa Archwilio Cymru yn y cyfarfod, a nodwyd y cynnwys. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi'r canfyddiadau cyffredinol o holl archwiliadau cynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Roedd yr adroddiadau hyn yn tynnu sylw at wendidau systemig yn nhrefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol cynghorau cymuned. <http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/rheoli-ariannol-llywodraethu-mewn-cynghorau-cymuned-2015-16>

Yn dilyn ymgynghori a chyhoedduswyd eang yn ystod y tair i bedair blynedd ddiwethaf, newidiodd yr Archwilydd Cyffredinol y dull archwilio cynghorau cymuned yn 2015-16 i gynorthwyo gydag ymdrin â'r gwendidau. Mae'r dull hwn yn berthnasol i'r holl gynghorau, beth bynnag eu hincwm a'u gwariant. Ymhellach, bydd themâu llywodraethu'r Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol yn dilyn cynllun pedair blynedd i gynnwys, ymhlith pethau eraill, effeithiolrwydd archwilio mewnol, defnyddio cronfeydd wrth gefn, cydymffurfio â rheolau sefydlog, defnyddio trefniadau Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer gwneud taliadau, cyflogi staff a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Adroddodd y Clerc bod cyfrifon 2016/17 a dogfennau eraill wedi'u cludo at yr archwilydd mewnol ar 27 Ebrill ac y byddent yn barod i'w casglu eto ar 11 Mai. Fel rhan o'r broses hon mae'n ofynnol i'r Cyngor Cymuned ddarparu cyfle i etholwyr archwilio'r cyfrifon a dogfennau eraill cyn yr archwiliad allanol, a rhaid hysbysebu hyn cyn y cyfnod y bo'r dogfennau ar gael. Rhaid arddangos yr hysbysiad rhwng 15 Mai a 28 Mai 2017. Yna rhaid i'r cyfrifon fod ar gael am 20 diwrnod gwaith rhwng 30 Mai a 26 Mehefin. Rhaid i'r ffurflen flynyddol a'r dogfennau atodol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn gael eu cyflwyno i'r archwilydd allanol erbyn 27 Mehefin.

313.3 Crynodeb Incwm a Gwariant am y cyfnod

[a] 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017 [b] Crynodeb o'r Cyfrifon am y flwyddyn

Cyflwynodd y Clerc ddatganiad ariannol ar gyfer y cyfrifon Cymuned a Busnes ar gyfer y cyfnod hwn. Cyngorwyd yr Aelodau mai'r balans yn y Cyfrif Cymuned ar 31 Mawrth 2017 oedd £620.96 a £1,022.49 yn y Cyfrif Busnes.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cyfrifon 2016/2017 a rhoi crynodeb ar wefan y Cyngor Sir ynghyd â chofnodion y cyfarfod maes o law.

313.4 Talu Cyfrifon/Anfonebau

PENDERFYNWYD – Gwneud taliad fel a ganlyn:

Ffi adnewyddu'r Cofrestriad Diogelu Data - £35.00

313.5 Ceisiadau am Gymorth Ariannol - Ysgol Pentrecelyn – tuag at gostau nofio, diffibrilydd a theithio i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai i gystadlu fel grŵp dawnsio gwerin. Adroddwyd bod ysgolion lleol yn y broses o drefnu cyfarfod clwstwr i drafod codi arian tuag at gost diffibrilyddion.

PENDERFYNWYD – Gohirio penderfyniad tan ar ôl etholiadau'r Cyngor, ac ymdrin ag arian ar gyfer diffibrilyddion mewn ysgolion fel eitem ar wahân i geisiadau cyffredinol am gyllid.

314 COFRESTR ASEDAU A RHEOLI RISGIAU

Dosbarthwyd copïau o'r Gofrestr Asedau a'r Adroddiad Rheoli Risgiau i'r Aelodau er mwyn ei ddiweddarau. Bydd manylion yn cyfeirio at y darn o wal y fynwent y mae'r Cyngor yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw yn cael ei ychwanegu, fel a ganlyn: 'Y darn o'r wal o'r dafarn i waelod neuadd y pentref; y wal o'r dafarn, yn cynnwys y rheiliau, i Church Mews; y wal wrth ymyl Church Mews tuag at tai cyngor Bro Gynan a darn byr ar hyd gerddi'r tai cyngor tuag at neuadd y pentref.' Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gost torri glaswellt o amgylch yr Eglwys hefyd. Cytunwyd i roi'r ddau declyn cyfrifo cyflymder cerbydau a brynwyd gyda chyllid grant yn ystod y flwyddyn i Grŵp Gwylio Cyflymder Llanfair a Graigfechan [Steve Whipp ac M Ingham].

315 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – DYDD MERCHER 17 MAI 2017 AM 7PM

[Lleoliad i'w gadarnhau].

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC, nos Fawrth, 2 Mai 2017 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cyngorwyr John Pugh [Cadeirydd], David Baker, Wini Davies, Jayne Mayers, Keith Mouldsdaile a Steve Whipp, ynghyd â'r Clerc, Eirwen Godden.

HEFYD YN BRESENNOL – Y Cyngorwyr Hugh H Evans, OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, ynghyd â 12 aelod o'r cyhoedd.

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU – Y Cyngorwyr Tim Faire a Medwen Roberts.

306 DATGAN BUDDIANNAU – Y Cynghorwyr John Pugh a Keith Mouldsdale o ran materion yn ymwneud â Phwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor. Mae'r ddau gynghorydd yn ymddiriedolwyr.

307 COFNODION

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC ar 1 Mawrth 2017.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

308 MATERION YN CODI

308.1 Cofnod 289.1 Cais Cynllunio 20/2016/1137 Datblygiad arfaethedig 63 o dai yn Llanfair DC Adroddwyd y cynhaliwyd cyfarfod ar 10 Ebrill 2017 rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned a'r datblygwr. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi cyfarfod gyda'r Swyddog Cynllunio, Adran Addysg ac Eiddo, ar 13 Ebrill pan fynegwyd pryderon y Cyngor Cymuned ynghylch mynediad i'r cyhoedd a'r gwagle amwynder agored. Roedd y Cyngor Sir yn cytuno y byddai'r mynediad i gerddwyr trwy'r pentref yn mynd trwy'r gwagle sy'n bodoli rhwng y byngalo isaf a'r tŷ yn ne'r safle. Hefyd teimlwyd nad oedd y gwagle agored a ddynodwyd yn wreiddiol yn hygyrch i'r pentref cyfan. Un dewis fyddai rhannu'r gwagle agored presennol i ganiatáu i'r tanciau casglu dŵr aros yng ngogledd y safle a darparu gwagle agored arall wrth y fynedfa i gerddwyr. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol symud Bloc A tua'r gogledd.

Cyflwynodd y Cadeirydd fraslun yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned yn dangos cynllun gosod newydd. Dywedodd rhai o'r cyhoedd a oedd yn bresennol y byddai'r llwybr troed arfaethedig yn effeithio ar rai o'r trigolion yn byw ger y llwybr. Roedd yr holl faterion a godwyd wedi'u trosglwyddo i'r Awdurdod Cynllunio ac mae'r swyddogion yn parhau i darfod y materion, ond mae Pure wedi rhoi dyddiad penodol i'r Awdurdod gan nodi ei fod yn bwriadu mynd i apêl os na chedwir at y dyddiad. Dywedodd Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych y bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned gael safbwynt ar y cais; bydd swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn penderfynu sut i gynghori'r Pwyllgor Cynllunio; petai Pure yn mynd i apêl bydd angen i'r rhesymau yn erbyn cymeradwyo'r cais fod yn gadarn a chryf iawn. Mae angen cydbwysedd a chyfaddawdu neu fel arall bydd y gymuned ar ei cholled. Ychwanegodd, petai'r mater yn mynd i apêl, gallai'r datblygwr fod â hawl i iawndal.

PENDERFYNWYD – Gweithredu i bwysu ar yr Awdurdod Cynllunio am y manylion ymgynghori diweddaraf gynted ag y bo modd.

308.5 Cofnod 299.1 Materion Pentref Llanfair DC – Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch biniau sbwriel cyffredinol ar gyfer Bron y Clwyd, y groesffordd tuag at Bwllglas, pentref Graigfechan a Phentrecelyn. Ni ddarperir biniau am ddim mwyach ond gall y Cyngor Sir brynu a gosod biniau newydd ar gost o tua £500 yr un, ond byddai'n rhaid i'r Cyngor Cymuned dalu'r gost. Hefyd mae ffi o £25 y mis am wagu pob bin. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yng nghyllideb y Cyngor Cymuned ar gyfer hyn ym mlwyddyn ariannol 2017/18. Petai'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen gyda darparu'r biniau byddai'n rhaid cynnwys hyn yng nghyllideb y praesept ar gyfer 2018/19.

PENDERFYNWYD – Gofyn i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir eto ynghylch hyn a gwahodd Simon Billington, Rheolwr Gweithrediadau Priffyrdd a Strydlun [De] Cyngor Sir Ddinbych i gyfarfod yn y dyfodol.

308.6 Cofnod 301.3 Cofeb Rhyfel Llanfair DC – Roedd pwysau llwyth gwaith yn golygu nad oedd cais yr ail gam wedi'i gwblhau i'w gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel. Cynigiwyd ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen i gyflawni'r gwaith. Bydd rhaid i'r aelodau benderfynu ar yr hyn sydd ei angen, megis rheiliau neu folardiau a chadwyni. Mae angen cwblhau gwaith ymchwil cyn y gellir ychwanegu rhagor o enwau ar y gofeb.

308.7 Cofnod 300.3 Cais Cynllunio 20/2016/1224 Newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio estyniad i gwrtil preswyl Erw Fair, Llanfair DC Adroddwyd bod y cais wedi'i wrthod a bydd y Cyngor Sir yn cyflwyno hysbysiad gorfodi i symud y garafan oddi ar y tir maes o law.

309 GOHEBIAETH

309.1 Lleoliad hygyrch ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Cymuned – Neges e-bost dyddiedig 28 Ebrill 2017 gan un o'r cyhoedd ynghylch hygyrchedd. Esboniwyd bod Neuadd Eleanor wedi'i logi y rhan fwyaf o nosweithiau o nos Lun i nos Iau. Mae cynlluniau i wneud gwelliannau i'r neuadd ond mae'r rhain yn amodol ar sicrhau cyllid. Cyflwynwyd awgrymiadau yn amrywio o newid yr amser i 5 o'r gloch, dyweder, cynnal rhan gyntaf y cyfarfod yn y brif neuadd ac yna symud i'r ystafell y tu ôl i'r llwyfan ar gyfer yr ail ran. Fodd bynnag, gallai cyfarfod ynghynt na 7 o'r gloch ei gwneud yn anodd i bobl sy'n gweithio ddod i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD – Cynnal cyfarfodydd y Cyngor mewn lleoliadau hygyrch eraill yn y gymuned ar sail rota [er enghraifft, Pentrecelyn, Llanfair, Canolfan Genus, Llysfasi]. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau'n lleol, gan ddechrau gyda dod o hyd i leoliad amgen addas yn Llanfair ar gyfer y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 17 Mai.

309.2 Cyngor Sir Ddinbych – anfonwyd manylion am y dogfennau isod at yr Aelodau cyn y cyfarfod:

[a] Ymgynghoriad: Polisi Cludiant Dysgwyr Sir Ddinbych [13 Mawrth i 30 Ebrill] – Dogfennau perthnasol ar gael yn www.sirdinbych.gov.uk/ymgyngoriadau

[b] Neges e-bost oddi wrth Amy Selby, Swyddog Prosiectau Cymunedol, ynghylch Beichiogrwydd Diogelach Cymru – <http://bit.ly.bumpbabyandbeyond>
<http://Bit.ly/SaferPregnancy#saferpregnancywales>

[c] Neges e-bost oddi wrth Tom Booty ynghylch y Strategaeth Rheoli Asedau newydd yn lle'r Strategaeth Rheolaeth Gorfforaethol – <https://www.denbighshire.gov.uk/en/yourcouncil/strategies-plans-and-policies/asset-management/asset-management-strategy.aspx>

[ch] Deddf Teithio Llesol – Map Rhwydwaith Integredig – Mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori ar ddarpariaeth llwybrau cerdded a beicio yn y sir yn y dyfodol – rhaid ymateb erbyn 28 Mai.
<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/parking-roads-and-travel/cycling-and-walking/active-travel/active-travel-act-integrated-network-map-inm.aspx>

PENDERFYNWYD – Derbyn y dogfennau a bod Aelodau'r Cyngor a'r gymuned ehangach yn ymateb yn uniongyrchol.

309.3 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych – Gwahoddiad i gyfres o ddigwyddiadau ar 8, 13 a 20 Mehefin – Canolfan Optic, Parc Busnes Llanellwy – themâu llesiant – Yr Amgylchedd, Cymdeithasol, Economaidd a Diwylliant a Chydnerthedd Cymunedol – www.eventbrite.co.uk/e/digwyddiadau-dewch-ach-syniad-bring-your-idea-events

PENDERFYNWYD - Gan fod hwn yn gyfle pwysig i ddylanwadu ar y broses o integreiddio cynlluniau cymunedol gyda chynlluniau eraill sy'n cael eu cynnig, ynghyd â gofynion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, cymeradwywyd bod Mr Steve Whipp yn mynychu ar ran y Cyngor Cymuned.

310 CYNLLUNIO

310.1 Adborth o'r Digwyddiad Ymgynghori â'r Gymuned cyn cyflwyno cais a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2017 yn Llandudno – Roedd y Cynghorydd Keith Mouldsdale wedi mynd i'r digwyddiad ond roedd yn teimlo, er mai bwriad y broses ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio yw cyflymu hynt ceisiadau cynllunio, nid yw wedi cynorthwyo yn Llanfair DC o ran y cynnig arfaethedig i adeiladu tai newydd. Mae'r broses wedi bod yn mynd ymlaen am 12 mis, ond cydnabuwyd bod y datblygwr wedi gwneud mwy na'r hyn sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn y dyfodol dylid hysbysu'r gymuned gyfan, nid hysbysiad yn unig a hysbysu'r cymdogion agosaf yn unig, o ddechrau unrhyw broses ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio.

310.2 Ceisiadau Cynllunio – Roedd manylion am y ceisiadau a ganlyn wedi'u hanfon at Gyngorwyr i'w galluogi i lunio ymateb cytunedig erbyn y dyddiadau cau a nodwyd:

Cais 20/2016/1095 Bryn Rhedyn, Bryneglwys, Corwen - Roedd ymateb y Cyngor a anfonwyd ar 29 Mawrth 2017 yn codi cwestiynau am ddilysrwydd y polisïau a ddyfynwyd a dryswch ynghylch cynnwys y datganiad dylunio a mynediad yn y cais. Serch hynny, roedd yr aelodau'n cefnogi'r cais i arbed hen adeilad yng nghefn gwlad, ond bod rhaid i'r cais fod yn gywir.

Ysgrifennodd Mr Paul Griffin, Swyddog Cynllunio, ar 25 Ebrill 2017 i ddweud ei fod wedi'i gynghori bod yr adeilad wedi'i ddymchwel cyn penderfynu ar y cais, nid oedd yr ymgeisydd wedi elw o'r dymchwel damweiniol a bod rhaid i'r Cyngor Sir ystyried a yw colli'r strwythur yn y modd yma yn cynrychioli gadael y safle ai peidio. Roedd yr ymgeisydd wedi prynu'r annedd ar y ddealltwriaeth bod defnydd preswyl cyfreithlon a chaniatâd cynllunio i adnewyddu annedd. Ei fwriad oedd byw mewn carafan ar y safle tra'n cyflawni'r gwaith gan arwain at farn bod preswyl cyfreithiol tan y dymchwel damweiniol. I gloi, ymddengys nad oedd yr adeilad a ddymchwelwyd yn strwythur cadarn ac nad oedd yn effeithlon o ran defnydd ynni a dŵr.

PENDERFYNWYD – Bod yr aelodau'n parhau i gefnogi'r cais am annedd newydd yn lle'r hen un mewn egwyddor, yn amodol ar y cais yn cydymffurfio â gofynion dylunio a mynediad cyfredol, y Cadeirydd yn sgwrsio gyda'r Swyddogion Cynllunio ac adeiladu'r annedd arfaethedig.

Cais 20/2016/1242 Tir wrth ymyl Paradwys, Graigfechan – Daeth yr aelodau i'r casgliad bod sylwadau gwreiddiol y Cyngor Cymuned yn parhau'n berthnasol [cofnod 280.2] ynghyd â'r sylwadau ychwanegol a ganlyn ar y cynlluniau diwygiedig:

- mabwysiadu'r sylwadau a wnaed gan yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol [llwybr newydd, atgyfnerthu'r gwrych gyda phlannu newydd nid paneli pren]

- cadarnhau bod diwedd y *cul de sac* yn llain bridwerth i'r darn arall o dir a bod y lled yn ddigonol ar gyfer yr ystad derfynol

- bod y cynlluniau'n annigonol ar gyfer asesu uchder y tai yn erbyn lefel y tir

- dylid ystyried Asesiad Anghenion Tai Cyngor Sir Ddinbych yng nghyswllt y mathau arfaethedig o dai, hynny yw, y gymysgedd o fathau o dai a thai fforddiadwy sy'n adlewyrchu'r angen yn yr ardal. Hefyd y dylai'r Cynllunwyr edrych ar y safle cyfan i asesu'r broses tai fforddiadwy.

PENDERFYNWYD – Y dylai'r Clerc gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio ynghylch yr ymholiadau a godwyd yn ymateb y Cyngor Cymuned.

Cais 20/2017/0234 Maes Carafanau, Llanbenwch, Llanfair DC – Croesawodd yr aelodau'r cyfle i ymweld â'r safle ar 9 Chwefror 2017 ac anfonwyd sylwadau manwl at yr asiant yn dilyn hynny [cofnod 300.1]. Anfonwyd ymateb i'r cais llawn ar 5 Ebrill 2017. Nododd yr Aelodau yr ymdriniwyd â mwyafrif eu hawgrymiadau/pryderon o ran mynediad a threfniadau'r safle; ardal mynd â chŵn am dro [ond y dylid ystyried cysylltu â llwybrau sy'n bodoli eisoes] ac y darparwyd manylion am y goleuadau a'r cynllun goleuo. Mae'r ystyriaethau eraill i'w hystyried yn cynnwys – arolwg arall i ddarparu'r cynllun gosod optimwm, ni ddangosir y cyswllt trydan i'r carafanau ar gyfer pob llain; sicrhau bod y trefniadau gwaredu gwastraff toiledau cemegol yn cael eu cadw ar wahân i'r tanc carthion; dim cerddoriaeth onibai ei fod wedi'i drwyddedu; ac uchafswm hyd arhodiad yn ogystal â chyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn pan na fydd carafanau teithiol yno.

311 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

311.1 Traffig ar yr A525 ym mhentref Llanfair – Adroddwyd bod lefel y traffig yn broblem gynyddol a chyfeiriwyd at gopi o gyfrifiad traffig yr ardal, bod y safle wedi'i asesu gan yr heddlu at ddibenion Gan Bwyll a bydd y criw gwyllo cyflymder lleol yn trefnu ymweliad/gwiriadau. Nodwyd bod Mr Marc Musgrave, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych, wedi cynnig rhoi llinellau gwynion ar y ffordd o gyfeiriad Wrecsam. Cyflwynwyd awgrym i wella'r goleuadau a symud bolard ynghanol y pentref i ledaenu'r palmant i'w wneud yn fwy diogel i gerddwyr – mae'r camau hyn wedi'u gweithredu.

PENDERFYNWYD – Gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych i holi a oedd data cyfrifiad traffig manylach ar gael.

311.2 Rhwystr ar Lwybr Cyhoeddus – Hysbysodd y Cyngorydd Wini Davies ei bod wedi'i hysbysu gan un o'r cyhoedd bod ffens drydan yn creu rhwystr ar lwybr cyhoeddus ar dir sy'n eiddo i Goleg Llysfasi wrth Blas Pentrecelyn.

PENDERFYNWYD – Gofyn i'r Clerc gysylltu â Choleg Llysfasi i fynegi pryderon y Cyngor.

311.3 Pont Eyarth – Adroddodd aelod o'r cyhoedd bod Pont Eyarth wedi'i difrodi, gan lori nwyddau trwm o bosibl. Holwyd pryd fyddai'r cyfyngiad pwysau'n dod i rym.

PENDERFYNWYD – Gofyn i'r Clerc gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i holi am y cyfyngiad pwysau.

311.4 Arwyddion Cyfyngu Cyflymder – Adroddwyd bod yr arwydd 30 milltir yr awr ym Mhentrecelyn i'w symud ymhellach i lawr y ffordd.

312 MATERION CYMUNEDOL – Ymdriniwyd â'r holl faterion dan benawdau eraill.

RHAN 2 – Eitemau Cyfrinachol – Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd

313 MATERION ARIANNOL

313.1 Adolygu'r Rheolau Sefydlog – Adroddwyd, er y dylai'r Cyngor gyfarfod bob yn ail fis, bu'n rhaid trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ystod y 12 mis diwethaf [10 cyfarfod yn hytrach na'r chwech arferol] i ymdrin â nifer gynyddol o eitemau i ymgynghori/benderfynu arnynt. Nodwyd fod hyn yn cael effaith ar lwyth gwaith y Cyngorwyr a'r Clerc.

PENDERFYNWYD – [a] Y consensws cyffredinol oedd newid i gyfarfod bob mis ar nos Lun cyntaf y mis am 7 o'r gloch y nos a [b] bod y penderfyniad yn cael ei ohirio heb drafodaeth tan y cyfarfod nesaf.

313.2 Diweddariad ar y broses Archwiliad Mewnol ac Allanol – Rhannwyd copi o lythyr dyddiedig 20 Ebrill 2017 gan Swyddfa Archwilio Cymru yn y cyfarfod, a nodwyd y cynnwys. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi'r canfyddiadau cyffredinol o holl archwiliadau cynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Roedd yr adroddiadau hyn yn tynnu sylw at wendidau systemig yn nhrefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol cynghorau cymuned. <http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/rheoli-ariannol-llywodraethu-mewn-cynghorau-cymuned-2015-16>

Yn dilyn ymgynghori a chyhoedduswyd eang yn ystod y tair i bedair blynedd ddiwethaf, newidiodd yr Archwilydd Cyffredinol y dull archwilio cynghorau cymuned yn 2015-16 i gynorthwyo gydag ymdrin â'r gwendidau. Mae'r dull hwn yn berthnasol i'r holl gynghorau, beth bynnag eu hincwm a'u gwariant. Ymhellach, bydd themâu llywodraethu'r Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol yn dilyn cynllun pedair blynedd i gynnwys, ymhlith pethau eraill, effeithiolrwydd archwilio mewnol, defnyddio cronfeydd wrth gefn, cydymffurfio â rheolau sefydlog, defnyddio trefniadau Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer gwneud taliadau, cyflogi staff a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Adroddodd y Clerc bod cyfrifon 2016/17 a dogfennau eraill wedi'u cludo at yr archwilydd mewnol ar 27 Ebrill ac y byddent yn barod i'w casglu eto ar 11 Mai. Fel rhan o'r broses hon mae'n ofynnol i'r Cyngor Cymuned ddarparu cyfle i etholwyr archwilio'r cyfrifon a dogfennau eraill cyn yr archwiliad allanol, a rhaid hysbysebu hyn cyn y cyfnod y bo'r dogfennau ar gael. Rhaid arddangos yr hysbysiad rhwng 15 Mai a 28 Mai 2017. Yna rhaid i'r cyfrifon fod ar gael am 20 diwrnod gwaith rhwng 30 Mai a 26 Mehefin. Rhaid i'r ffurflen flynyddol a'r dogfennau atodol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn gael eu cyflwyno i'r archwilydd allanol erbyn 27 Mehefin.

313.3 Crynodeb Incwm a Gwariant am y cyfnod

[a] 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017 [b] Crynodeb o'r Cyfrifon am y flwyddyn

Cyflwynodd y Clerc ddatganiad ariannol ar gyfer y cyfrifon Cymuned a Busnes ar gyfer y cyfnod hwn. Cyngorwyd yr Aelodau mai'r balans yn y Cyfrif Cymuned ar 31 Mawrth 2017 oedd £620.96 a £1,022.49 yn y Cyfrif Busnes.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cyfrifon 2016/2017 a rhoi crynodeb ar wefan y Cyngor Sir ynghyd â chofnodion y cyfarfod maes o law.

313.4 Talu Cyfrifon/Anfonebau

PENDERFYNWYD – Gwneud taliad fel a ganlyn:
Ffi adnewyddu'r Cofrestriad Diogelu Data - £35.00

313.5 Ceisiadau am Gymorth Ariannol - Ysgol Pentrecelyn – tuag at gostau nofio, diffibrilydd a theithio i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai i gystadlu fel grŵp dawnsio gwerin. Adroddwyd bod ysgolion lleol yn y broses o drefnu cyfarfod clwstwr i drafod codi arian tuag at gost diffibrilyddion.

PENDERFYNWYD – Gohirio penderfyniad tan ar ôl etholiadau'r Cyngor, ac ymdrin ag arian ar gyfer diffibrilyddion mewn ysgolion fel eitem ar wahân i geisiadau cyffredinol am gyllid.

314 COFRESTR ASEDAU A RHEOLI RISGIAU

Dosbarthwyd copïau o'r Gofrestr Asedau a'r Adroddiad Rheoli Risgiau i'r Aelodau er mwyn ei ddiweddarau. Bydd manylion yn cyfeirio at y darn o wal y fynwent y mae'r Cyngor yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw yn cael ei ychwanegu, fel a ganlyn: 'Y darn o'r wal o'r dafarn i waelod neuadd y pentref; y wal o'r dafarn, yn cynnwys y rheiliau, i Church Mews; y wal wrth ymyl Church Mews tuag at tai cyngor Bro Gynan a darn byr ar hyd gerddi'r tai cyngor tuag at neuadd y pentref.' Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gost torri glaswellt o amgylch yr Eglwys hefyd. Cytunwyd i roi'r ddau declyn cyfrifo cyflymder cerbydau a brynwyd gyda chyllid grant yn ystod y flwyddyn i Grŵp Gwyllo Cyflymder Llanfair a Graigfechan [Steve Whipp ac M Ingham].

315 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – DYDD MERCHER 17 MAI 2017 AM 7PM
[Lleoliad i'w gadarnhau].

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Llanfair DC nos Fercher, 17 Mai 2017, am 7.00 pm.

PRESENNOL – Cyngorwyr John Pugh [Cadeirydd], David Baker, Bob Barton, Wini Davies, Moira Edwards, Tim Faire, Jayne Mayers, Keith Mouldsdaile a Medwen Roberts. Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – Cyngorydd Sir Hugh H Evans, OBE, ynghyd â 12 aelod o'r cyhoedd.

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU – Dim.

CYFLWYNIADAU – Gwnaeth yr holl Gyngorwyr a'r Clerc gyflwyno eu hunain.

316 DATGANIAD DERBYN SWYDD

Cadarnhawyd bod yr holl Gyngorwyr wedi llofnodi'r ffurflen Datganiad Derbyn Swydd. Llongyfarchwyd yr aelodau ar gael eu hethol/ailethol. Llongyfarchwyd y Cyngorydd Sir Hugh Evans ar gael ei ailethol hefyd.

317 SYLWADAU'R CADEIRYDD AR FIN YMDDEOL

Croesawodd y Cynghorydd John Pugh bawb i'r cyfarfod. Bu'n flwyddyn brysur i'r Cyngor Cymuned. Roedd y datblygiad arfaethedig yn Llanfair wedi ysgogi llawer o ddi-ddordeb ac wedi denu pobl i gyfarfodydd y Cyngor, roedd eu pryderon wedi'u trosglwyddo i'r cynllunwyr, gwerthfawrogwyd eu mewnbwn a byddai materion eraill i'w trafod yn galw am adborth gan y gymuned. Mae angen gwaith adferol ar y Gofeb Rhyfel yn Llanfair. Gofynnwyd am brisiau ond mae angen cwblhau cais am grant cyn cyflwyno hyn i'r Cyngor ei gymeradwyo. Mae Grŵp Gwylio Cyflymder Llanfair a Graigfechan wedi bod yn brysur hefyd. Mae'r gwirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant llawn a phenderfynodd y Cyngor Cymuned yn ddiweddar roi'r ddau wn mesur cyflymder a brynwyd i'r grŵp.

318 ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD AR GYFER 2017/18

[a] Cynigiwyd ac eiliwyd y Cynghorydd John Pugh i'w ethol fel Cadeirydd. Cytunwyd ar hyn.

[b] Cynigiwyd ac eiliwyd Jayne Mayers i'w hethol fel Is-gadeirydd. Cytunwyd ar hyn. Llofnodwyd y ffurflenni Datganiad Derbyn Swydd.

319 DATGAN BUDDIANNAU –

[a] Y Cynghorwyr John Pugh a Keith Mouldsdale o ran materion yn gysylltiedig â Phwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor yn eu rôl fel ymddiriedolwyr.

[b] Y Cynghorydd David Baker ynghylch y cynnig Tŷ Festri gan ei fod yn aelod o Gyngor Eglwys Llanfair.

[c] Y Cynghorydd Moira Edwards ynghylch y datblygiad tai arfaethedig yn Llanfair gan ei bod yn byw mewn eiddo drws nesaf i safle'r cais am ganiatâd cynllunio gan gwmni Pure.

320 CYFETHOL Mae sedd wag yn parhau ar y Cyngor yn dilyn yr etholiad diwrthwynebiad yn ddiweddar. Bydd y Clerc yn hysbysebu'r sedd wag yn unol â'r gofynion cyfreithiol.

321 COFNODION

[a] Cofnodion y Cyfarfod Blynnyddol/Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2016 a gadarnhawyd ar 3 Awst 2016.

[b] Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 2 Mai 2017.

PENDERFYNWYD – Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf eto a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2017 a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

322 MATERION YN CODI

311.1 Traffig ar yr A525 ym mhentref Llanfair – Gwnaeth y Cynghorydd Moira Edwards sylwadau am broblem barhaus goryrru a swm y traffig trwy'r pentref a thuag at Fron y Clwyd, y fynedfa i Barc y Llan ac i lawr yr allt tuag at Bwllglas. Aeth y trigolion Moira Edwards a Nick Webb, sy'n byw yn Barnfold a Crossways [ar y gornel gyferbyn â'r gofeb rhyfel] ar ymweliad safle gyda'r Adran Priffyrdd yn ddiweddar ynghylch y traffig sy'n mynd hebio eu cartrefi. Mae nifer o fannau 'gwasgu' trwy'r pentref lle mae'n anodd i gerbydau basio ei gilydd i wahanol gyfeiriad. Mae'n sefyllfa beryglus i gerddwyr a gyrwyr, yn enwedig os ydynt yn gyrru'n gyflym. Bu bron i un o'r

trigolion gael ei daro gan gar yn pasio'r giât i'w dŷ yn ystod yr ymweliad safle. Gwnaed cais am arwyddion 'Araf' ar y gornel wrth y gofeb rhyfel ac i fyny trwy'r pentref tuag at Bwllglas. Awgrymodd Marc Musgrave, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, y gallai llinell wen wrth ddod heibio'r gofeb rhyfel ac i fyny'r ffordd hon helpu trigolion y mae eu giatiau yn union ar fin y ffordd hon. Hefyd awgrymodd y byddai 'araf' wedi eu baentio ar y ffordd yn fwy buddiol/amlwg nag arwyddion ar byst. Mae'r Adran Priffyrdd yn ystyried y mater a bydd yn cadw mewn cysylltiad.

Gofynnodd Moira Edwards am ddata o'r arolwg cyflymder sy'n cael ei fonitro ar yr A525 ar hyn o bryd [wrth ymyl y giatiau i neuadd y pentref] gan Gyngor Sir Ddinbych hefyd. Mae angen dadansoddi'r data a roddwyd ymhellach. Bydd y Cyngor Cymuned yn mynd ar ôl hyn. Awgrymwyd bod y gwirfoddolwyr Gwylio Cyflymder/Gan Bwyll yn sicrhau presenoldeb yn y pentref am gyfnod i fonitro'r goryrru. Mae Steve Whipp yn mynd i edrych ar hyn.

311.3 Pont Eyarth – Adroddodd y Clerc bod James [Jim] Hall, Uwch Beiriannydd, Cyngor Sir Ddinbych, wedi hysbysu'r Cyngor Cymuned bod gorchymyn cyfreithiol wedi'i gyflwyno ar 10 Mai 2017 am gyfyngiad pwysau 18 tunnell. Cymeradwywyd gwariant cyfalaf ychwanegol i gryfhau/adnewyddu hyd at 60 o strwythurau priffyrdd yn y sir dros gyfnod deng mlynedd, gyda Phont Eyarth yn un o'r cynlluniau mwyaf hanfodol bwysig a drud. Disgwylir i brosiect Pont Eyarth ddechrau eleni, a bydd cynllun yn cael ei ddatblygu ac yna cynhelir gwelliannau i ddraenio'r briffordd o gwmpas y bont, yn cynnwys gwaith ar y waliau adain a rhannau isaf y bwa yr haf nesaf. Bydd rhagor o welliannau yn dibynnu ar ba mor gyflym mae'r bont yn sychu, a gallai gymryd hyd at bedair blynedd. Unwaith y bo'r bont yn sych mae cynigion i ailadeiladu o leiaf un o'r waliau sbandrel a pharapet, ailbwyntio'r bont gyfan a thrwsio'r gwaith cerrig yn barhaol. Y bwriad, ar ôl cwblhau'r gwaith, yw cael gwared ar y cyfyngiad pwysau yn dilyn asesiad strwythurol, os yn bosibl.

313.1 Adolygu'r Rheolau Sefydlog – Dyddiadau ac Amseroedd Cyfarfodydd Cyffredin y Cyngor am y flwyddyn ddilynol

PENDERFYNWYD – Newid i gyfarfod bob mis ar ddydd Llun cyntaf y mis am 7 pm. [Saith pleidlais o blaid, pleidleisiodd y Cynghorwyr Bob Barton a Tim Faire yn erbyn y cynnig]. Bydd y diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog yn darllen fel a ganlyn:

1.2 Cynhelir y Cyfarfod Blyneddol statudol [a] mewn blwyddyn etholiad ar y pedwerydd diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad neu cyn pen 14 diwrnod wedyn a [b] mewn blwyddyn nad yw'n flwyddyn etholiad, ar y dydd Llun cyntaf ym mis Mai.

1.3 Cynhelir isafswm o bump cyfarfod ychwanegol ar y dydd Llun cyntaf yn y mis.

7.1.16 Atal unrhyw Reol Sefydlog [Gweler Rheol Sefydlog 26.2 isod].

23.2 Os derbynnir cais rhwng cyfarfodydd, bydd y Clerc yn cyfeirio pob cais cynllunio at Gadeirydd y Cyngor ynghyd â dau aelod arall am eu sylwadau. Yn absenoldeb y Cadeirydd cyfeirir y cais at yr Is-gadeirydd a dau aelod. Cyflwynir penderfyniad y tri aelod gerbron cyfarfod nesaf y Cyngor, i gadarnhau'r sylwadau/gweithredoedd gan yr aelodau a'r Clerc.

323 GOHEBIAETH

323.1 Cyngor Dinas Llanellwly – Gwahoddiad i ddatliadau Pumed Pen-blwydd Statws Dinas, 1 – 4 Mehefin 2017 – Manylion i'w dosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth.

323.2 Polisi Masnachu ar y Stryd Cyngor Sir Ddinbych – Neges e-bost dyddiedig 15 Mai 2017 yn datgan bod y Pwyllgor Trwyddedu wedi cymeradwyo cynnal ymgynghoriad ehangach – manylion <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/your-council/consultations/statement-of-street-trading-policy.aspx> Gall unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau anfon sylwadau neu awgrymiadau'n uniongyrchol i licensing@denbighshire.gov.uk erbyn 30 Mehefin 2017.

PENDERFYNWYD – Derbyn a nodi'r neges e-bost.

323.3 Swyddfa Codi Arian Marie Curie Gogledd Cymru – yn gofyn i'r Cyngor hyrwyddo'r cyfnod 'Blooming Great Tea Party', rhwng 23 a 25 Mehefin yn y gymuned. Mae pecyn codi arian am ddim ar gael [yn cynnwys baneri, gwahoddiadau, poster, cwestiynau cwis a ryseitiau] – www.mariecurie.org.uk/teaparty

PENDERFYNWYD - Derbyn a nodi'r wybodaeth.

324 CYNLLUNIO

324.1 Cais Cynllunio 20/2016/1137 Datblygiad arfaethedig 63 o dai yn Llanfair D C - Adroddwyd – bod cynlluniau diwygiedig wedi'u cyflwyno yn dangos y bwriedir cynnwys llwybr troed i gerddwyr rhwng y datblygiad newydd a Bron y Clwyd, a bod y gwagle agored wedi'i rhannu'n ddwy ardal – un ar gyfer tanciau dŵr a'r llall fel maes chwarae. Bwriedir gwaredu rhai o'r coed coffa er mwyn cael mynediad.

Mynegodd trigolion a oedd yn bresennol yn y cyfarfod bryderon am gwestiynau sy'n parhau heb eu hateb. Mae rhai agweddau'n gwbl annerbyniol ac maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu hanbwyddu. Hysbyswyd yr aelodau y trefnwyd cyfarfod rhwng trigolion a chynllunwyr yn neuadd y pentref nos lau, 18 Mai 2017. Mynegwyd pryder nad oedd yr holl drigolion yn ymwybodol bod cyfarfod wedi'i drefnu. Gofynnodd y trigolion i'r aelodau beidio â phleidleisio ar y cynlluniau diwygiedig tan ar ôl y cyfarfod. Cytunwyd y dylid symud y coed coffa i leoliad arall ar y safle. Cyfeiriwyd at astudiaeth ynghylch llesiant a'r effaith ar ansawdd bywyd trigolion hŷn yn y byngalos sy'n bodoli eisoes. Bydd y llwybr troed arfaethedig yn destun penderfyniad ar wahân gan y Cyngor Sir. Awgrymwyd na ddylai pobl gael byw yn y tai newydd nes bod mater y llwybr troed wedi'i benderfynu. Gwnaed sylw hefyd bod angen datganiad dylunio a mynediad diwygiedig o ran y draeniad, tanciau dŵr a materion priffyrdd i fod yn unol â'r cynllun diwygiedig diweddaraf.

PENDERFYNWYD – Gwneud cais am

[a] estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion gan fod yr aelodau'n ystyried na ellir darparu ymateb llawn tra bod proses ailymgyngori â'r gymuned yn parhau

[b] rhestr o'r holl gwestiynau neu faterion y mae angen ymdrin â nhw ym marn trigolion yn dilyn y cyfarfod ar nos lau, 18 Mai.

324.2 Cais Cynllunio 20/2017/0377 Gwaith arfaethedig ar un goeden ywen wedi'i lleoli yn yr Ardal Gadwraeth – Eglwys Sant Cynfarch a'r Santes Fair, Llanfair DC - PENDERFYNWYD – cefnogi'r cais.

324.3 Cynnig ar gyfer Ystafell De yn Nhŷ'r Festri, Llanfair D C - Adroddwyd – bod Pwyllgor yr Eglwys yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio ar gyfer newid defnydd ac yn gofyn am sylwadau'r Cyngor Cymuned cyn gwneud hynny. Mae'r cynnig yn cynnwys ystafell de/siop flodau i'w rheoli gan landlord y dafarn, gyda pharcio yn Neuadd Eleanor. Fodd bynnag, mae trigolion lleol wedi mynegi pryder am faint o fannau parcio sydd ar gael, yn enwedig yn ystod adegau prysur fel amseroedd ysgol a phan fo defnyddwyr yn y neuadd. Ymddengys bod y mynediad i'r llwybr i diroedd yr Eglwys wedi'i rwystro o dro i dro a bod cerbydau'n parcio yno am gyfnod hir yn dod yn broblem.

PENDERFYNWYD – [a] cefnogi'r cynnig mewn egwyddor [b] gwahodd cynrychiolwyr Pwyllgor yr Eglwys i gyfarfod Cyngor Cymuned i siarad am y cynnig.

325 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

325.1 Coed ym Maes Hyfryd, Graigfechan – Adroddodd y Clerc bod Heather Battison-Howard, Swyddog Datblygu Gwagloedd Gwyrdd Cyngor Sir Ddinbych, wedi gadael neges yn dweud, yn dilyn cwyn gan un o'r cyhoedd, byddai gwaith adferol yn cael ei gynnal i dorri coed wedi gordyfu ger y gysgodfan bws yng Nghraigfechan.

325.2 Dewisiadau arafu traffig – Graigfechan - Adroddwyd – bydd pyst ar gyfer y rhybuddion 30mya ymlaen llaw [pen Llanfair DC y pentref] a'r arwyddion a weithredir gan gyflymder cerbydau yn cael eu gosod yn ystod dydd Mawrth/dydd Mercher yr wythnos yn dechrau 15 Mai. Byddai'r arwyddion yn dilyn yn fuan wedyn. Holwyd ynghylch gosod arwyddion ychwanegol a weithredir gan gyflymder cerbydau yn enwedig wrth agosau at Graigfechan ar y ffordd oddi ar yr A525 wrth y groesffordd ger yr Old Smithy lle mae nifer o ddiwyddiadau o fewn trwch blewyn wedi digwydd.

PENDERFYNWYD – Codi'r mater o arwyddion ychwanegol gyda Marc Musgrave, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

326 MATERION CYMUNEDOL

PENDERFYNWYD – Rhoi Materion Cymunedol ar ddechrau'r agenda ym mhob cyfarfod Cyngor yn y dyfodol.

326.1 Strydoedd Glân - PENDERFYNWYD – Y dylai'r Clerc gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch casglu sbwriel a dail ym mhentref Llanfair.

326.2 Goryrru / Carafan yn achosi rhwystr

Roedd Cynghorydd wedi derbyn cwynion am gerbydau'n goryrru yn ardal Parc y Llan a charafan wedi'i pharcio ar ymyl y ffordd sy'n achosi problem gwelededd.

PENDERFYNWYD – Hysbysu'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol.

326.3 Elusendai Elizabeth Owen - Adroddwyd – bod coed ysgaw ger drws ochr yr eiddo gwag yn Rhif 6 sy'n ymddangos fel petaent yn beryglus.

PENDERFYNWYD - Hysbysu Grŵp Cynefin.

326.4 Diffibrilyddion – Cadarnhawyd bod Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn yn ystyried y posibilrwydd o gael grant ar gyfer darparu diffibrilydd yn y naill ysgol. Mae ysgolion lleol yn cyfarfod yn yr ardal ar hyn o bryd i ystyried dulliau o godi arian ar y

cyd i dalu'r costau. Cynhaliwyd trafodaeth am ddiffibrilyddion ar gael i'r gymuned ehangach yn ei chyfanrwydd. Awgrymwyd ychwanegu diffibrilyddion yn y cynllun cymunedol.

326.5 Y Gofeb Rhyfel - PENDERFYNWYD – Gosod gwybodaeth am ail blac coffa'r rhyfel yn Llanfair a'r coed coffa ar wefan y Cyngor.

326.6 Cynllun Cymunedol - Adroddwyd – Bod Steve Whipp wedi cynhyrchu papur trafodaeth drafft [dosbarthwyd copi yn y cyfarfod] yn cynnwys rhestr y prosiectau cymuned a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Medi 2016. Bydd Mr Whipp yn mynd i gyfres o ddigwyddiadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn ystod Mehefin 2017. Mae'r ddogfen yn parhau i fod yn rhywbeth i weithio arni gan fod angen mwy o fewnbwn gan drigolion. Mae angen llinellau amser a chostau hefyd er mwyn llunio cynllun strategol pum mlynedd ar gyfer ardal y gymuned gyfan. Awgrymwyd sefydlu gweithgor yn cynnwys trigolion lleol, ar wahân i'r Cyngor Cymuned. Mae angen adnabod a nodi'r holl brosiectau/cynlluniau/cynigion a'u dwyn ynghyd gan ddefnyddio Neuadd Eleanor fel canolbwynt efallai, gan ystyried Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol mewn dull cynllunio cymdogaethol. Mae grantiau ar gael i hwyluso'r broses hon gan asiantaethau megis Cadwyn Clwyd. Atgoffwyd yr aelodau y bydd arian fferm wynt [£750k o bosibl] ar gael maes o law a gallai rhai o'r cynigion a restrir fod yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

PENDERFYNWYD – [a] Diolch i Steve Whipp am ei waith rhagorol yn datblygu'r papur trafod a [b] newid teitl y ddogfen o Gynllun Datblygu Lleol i Gynllun Cymuned Lleol i osgoi dryswch gyda Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor Sir.

RHAN 2 – PENDERFYNWYD – Gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur cyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

327 MATERION ARIANNOL

327.1 Archwiliad diwedd y flwyddyn ariannol – Cymeradwyo Datganiad Cyfrifyddu 2016-17 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol - Cyflwynwyd datganiadau i'w cymeradwyo ynghyd â'r argymhellion a wnaed gan yr archwilydd mewnol yng nghyswllt [1] ailbrisio asedau [2] swm isel y cronfeydd yn y gronfa gyffredinol [3] diffyg hawlio Treth ar Werth yn 2014/15 a 2015/16 [4] ffigur costau staff [5] yr angen am lythyr derbyn ar gyfer pob cyfraniad mawr a'r [6] angen am weithredu lleddfu o ran adfer mewn trychineb a pharhad busnes. Ychwanegodd y Clerc y byddai'n rhaid anfon esboniad am amrywiaeth arwyddocaol yn y datganiadau cyfrifon am y cyfnodau yn diwedd 31 Mawrth 2016 a 31 Mawrth 2017 at yr archwilydd allanol.

PENDERFYNWYD – [a] nodi'r argymhellion gan yr archwilydd mewnol a gweithredu'n briodol i ymdrin â'r materion a godwyd, fel a ganlyn:

[1] Sicrhau eglurder gan yr archwilydd allanol p'un ai ydynt yn cytuno gyda newid y dull prisio o'r dull ar sail yswiriant i ar sail cost prynu, ac a fydd yn ofynnol ailddatgan gwerthoedd asedau sefydlog y flwyddyn flaenorol.

[2] Cynnal asesiad risg ar swm y gronfa wrth gefn gyffredinol a'i gymeradwyo gan y Cyngor a chynnwys hyn wrth gyfrifo'r praesept. Cytunwyd y byddai'r £1,600 a glustnodwyd ar gyfer costau etholiad yn 2017/18 yn aros yn y gronfa wrth gefn a chynnwys £500 wrth gyfrifo'r praesept blynyddol yn y dyfodol.

[3] Y Clerc i gysylltu â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i holi am y posibilrwydd o hawlio'r TAW am 2014/15 a 2015/16 o gofio'r cofnodion cyfyngedig sydd ar gael yn dilyn marwolaeth y cyn Clerc.

[4] Diwygio'r datganiad blynyddol i ddangos y balansau a ganlyn: Costau staff [cyflog a lwfans swyddfa yn y cartref] = £3,180 [nid £3,756] a chyfanswm y taliadau eraill = £6,691.

[5] Gofyn am lythyr derbyn ar gyfer yr holl gyfraniadau mawr. [Cadarnhaodd y Clerc bod llythyr oddi wrth Neuadd Eleanor yn y ffeil yn aros am set o gyfrifon blynyddol].

[6] Ystyried risgiau adfer wedi trychineb a pharhad busnes a champau gweithredu i leddfu'r risgiau, megis storio diogel rheolaidd oddi ar y safle, yn ystod yr adolygiad blynyddol/asesiad risg dulliau rheoli ariannol a'r rheoliadau ariannol.

[b] Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifyddu 2016-17 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel y'i cyflwynwyd.

327.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau

PENDERFYNWYD - Gwneud taliadau fel a ganlyn:

J D H Business Services Ltd – Archwiliad Mewnol - £142.80

327.3 Planhigion ar gyfer y Gofeb –

PENDERFYNWYD – Pennu cyllideb o £130 a throsglwyddo swm o £100 o'r pennawd Trwsio a Chynnal a Chadw i'r pennawd Gwasanaethau Cymunedol a Chynnal a Chadw. Y ffigur hwn i'w ddefnyddio i dalu am gost coeden/coed Nadolig a chostau eraill.

327.4 Ceisiadau am Gymorth Ariannol –

PENDERFYNWYD - Gohirio'r penderfyniadau tan y cyfarfod nesaf.

327.5 Yswiriant – Bu'r aelodau'n craffu ar ddyfynbrisiau gan Came & Company, Broceriaid Yswiriant Cynghorau Lleol, ac oddi wrth dri chwmni yswiriant – Inspire, Hiscox ac Ecclesiastical. Derbyniwyd pedwerydd dyfynbris gan Zurich.

PENDERFYNWYD – Derbyn dyfynbris Zurich am £423.85.

328 TREFNIADAU AR GYFER ADOLYGIAD BLYNYDDOL:

328.1 Asesiad Risg a Mesurau Rheoli Ariannol, Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol

PENDERFYNWYD – Cynnal yr adolygiadau blynyddol mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

328.2 Cyflog ac Amodau Gwaith y Clerc

PENDERFYNWYD – Trefnu cyfarfod arfarnu rhwng y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a'r Clerc.

329 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL – NOS LUN AM 7 PM –
5 Mehefin, 3 Gorffennaf, 4 Medi, 2 Hydref, 6 Tachwedd, 4 Rhagfyr 2017,
ac 8 Ionawr, 5 Chwefror a 5 Mawrth 2018, lleoliadau i'w cadarnhau.

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y
cyfarfod am 9.45 pm.

John Pugh _____ CADEIRYDD

_____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Pentrecelyn ddydd
Llun, 5 Mehefin 2017 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr John Pugh [Cadeirydd], David Baker, Moira Edwards,
Tim Faire, Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Medwen Roberts. Eirwen Godden,
Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – 8 aelod o'r cyhoedd.

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorwyr Bob Barton a Wini Davies.

330 DATGAN BUDDIANNAU

[a] Y Cynghorwyr John Pugh a Keith Mouldsdale yng nghyswllt materion yn ymwneud
â Phwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor yn eu swyddogaeth fel ymddiriedolwyr.

[b] Y Cynghorydd David Baker ynghylch y cynnig o ran Tŷ'r Festri gan ei fod yn
aelod o Gyngor Eglwys Llanfair.

[c] Y Cynghorydd Moira Edwards yng ngyswllt y datblygiad tai arfaethedig yn
Llanfair gan ei bod yn byw mewn eiddo nesaf at safle'r cais am ganiatâd cynllunio
gan Pure.

331 MATERION CYMUNEDOL

331.1 Cynnig i greu Ystafell De yn Nhŷ'r Festri, Llanfair D C – Cyflwynodd Keith
Wilson, landlord tafarn y Ceffyl Gwyn, grynoded o'r cynnig i agor ystafell de
gymunedol/siop fechan wedi eu seilio ar fodolau Ystafelloedd Te Sugar Plum
[Rhewl] a Phwllglas, yn dilyn trafodaeth gyda Phwyllgor yr Eglwys. Ni fwriedir gweini
 unrhyw alcohol na bwydydd wedi'u ffrio. Byddai'r ystafell de ar agor rhwng 10 o'r
 gloch y bore a 5 o'r gloch y nos, bedwar diwrnod yr wythnos. Roeddynt wedi gwneud
 cais am newid defnydd yr adeilad. Mae'r adeilad yn hygyrch, mae toiled i'r anabl, lifft
 i'r llawr cyntaf a byddai lle i 45-55 o gwsmeriaid. Nid oes gan bwyllgor rheoli'r
 neuadd unrhyw wrthwynebiad i faes parcio'r neuadd gael ei ddefnyddio. Y
 consensws cyffredinol yn y cyfarfod oedd cefnogi'r cais yn llwyr.

331.2 Ysgol newydd arfaethedig yn Llanfair D C Adroddwyd bod cyfarfod
Addysg wedi'i gynnal ynghylch ysgol newydd yn Llanfair. Bydd cynlluniau i'w gweld

yn neuadd y pentref ar 26 Mehefin, 3 - 7 pm. Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 14 Mehefin. Mae'r safle a glustnodwyd ar dir llan, cae gyferbyn â'r tai cyngor. Mae darpariaeth i fysiau symud oddi ar y ffordd, man gollwng teithwyr, cae chwarae peldroed ac ystafell gymunedol. Bydd yr ysgol newydd yn cynnig lle i 126 o ddisgyblion a 18 o blant cyn oed ysgol.

331.3 Astudiaeth Dichonoldeb Mae pwyllgor rheoli'r neuadd wedi cwblhau cais i Cadwyn Clwyd i dalu am gostau astudiaeth dichonoldeb o ran datblygu'r neuadd fel canolfan i'r ardal gyfan, yn ymgorffori'r cynllun cymunedol drafft sy'n cael ei ddatblygu.

331.4 Nwy prif gyflenwad Adroddwyd bod dyfynbris am nwy gan Wales & West Utilities Ltd wedi ei seilio ar 222 eiddo [60% yn manteisio ar y cynnig]. Cost y cynllun fyddai £493,000, gyda'r cyfraniad gan bob eiddo oddeutu £3,180. Mae hyn yn ddibynnol ar y cynllun yn denu digon o ddiddordeb yn y gymuned. Mae'n bosibl y byddai cymorth ar gael, yn cynnwys benthyciadau, i gwsmeriaid i'w cynorthwyo gyda costau cyflenwad nwy a system wresogi newydd. Mae'r Cyngor Cymuned yn cysylltu gyda thrigolion a darparwyr tai yn yr ardal ar hyn o bryd i weld lefel y diddordeb.

331.5 Baw cŵn – yn parhau i fod yn broblem yn y pentref yn Llanfair.

332 COFNODION

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Blynnyddol/cyfarfod cyffredin a gynhaliwyd ar 17 Mai 2017 a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

333 MATERION YN CODI

311.1 Traffig ar yr A525 ym mhentref Llanfair Adroddwyd y bydd y ffordd o'r Gofeb Rhyfel tuag at Eyarth ar gau ar gyfer gwaith cynnal a chadw/trwsio/paentio llinellau gwynion o 26 Mehefin 2017 tan ddiwedd yr wythnos. Mynegwyd pryder fod dau fotobeiciwr wedi eu taro oddi ar eu cerbydau yn ystod y penwythnos.

320 Cyfethol Adroddodd y Clerc bod sedd wag wedi'i hysbysebu yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Os na chyflwynir cais am is-etholiad erbyn 9 Mehefin 2017, yna gall y Cyngor Cymuned hysbysebu'r sedd wag ar gyfer cyfethol yn hytrach nag etholiad. Yn yr achos hynny caiff unigolion â diddordeb ysgrifennu at y Clerc yn mynegi diddordeb. Bydd rhaid i'r aelodau ystyried a phleidleisio ar bob cais.

325.2 Dewisiadau arafu traffig – Graigfechan Adroddwyd bod Mr Marc Musgrave, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, wedi cadarnhau y bydd arwyddion ychwanegol a weithredir gan gyflymder cerbydau yn cael eu gosod, fel y cynlluniwyd, wrth ddynesu at bentref Graigfechan.

326.1 Strydoedd glân Cadarnhaodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi'i hysbysu am y mater a'i bod yn disgwyl am ymateb.

326.2 Goryrru / Carafan yn achosi rhwystr Adroddodd y Clerc yr hysbyswyd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yr ardal leol ac y byddai'n monitro'r sefyllfa. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r garafan yn achosi rhwystr. Mynegodd aelod bryder ynghylch diogelwch plant yn chwarae ger y garafan.

326.3 Elusendai Elizabeth Owen – Mae Grŵp Cynefin wedi cadarnhau bod yr elusendai yn eu perchnogaeth nhw. Mae nifer o eiddo'n wag ar hyn o bryd, ond mae cynlluniau i'w huwchraddio a'u diweddaru. Maent yn ystyried yr opsiynau ond cyn bwrw ymlaen gydag unrhyw welliannau rhaid cael cymeradwyaeth adeilad rhestredig. Gallai hyn gymryd chwe mis. Mynegwyd pryder am yr oedi i ymgeisydd am denaniaeth ond mae wedi cael cynnig llety dros dro mewn lleoliad arall yn y cyfamser. Mae'r gymdeithas dai yn bwriadu edrych ar y sefyllfa o ran y coed ysgaw hefyd. Cynigiwyd gwneud trefniadau i'r Aelodau ymweld â'r tai cyn iddynt gael eu hailosod.

326.4 Diffibrilyddion Adroddwyd bod rhai trigolion o bentref Llanfair wedi mynegi diddordeb mewn codi arian tuag at gost darparu diffibrilydd i'r gymuned. Trafodwyd yr angen i gydlynu gweithgareddau ac awgrymwyd gwahodd Julie Starling, Nyrs Cardiaidd, i ddod i gyfarfod Cyngor Cymuned i sgwrsio am/dangos sut y defnyddir diffibrilydd.

326.5 Y Gofeb Rhyfel Diolchwyd i Mr Alan Edwards, un o drigolion Llanfair, am yr wybodaeth am y Coed Coffa a fydd yn cael ei roi ar wefan y Cyngor maes o law.

334 GOHEBIAETH

334.1 Cyfarfod Blynnyddol Ysbyty Rhuthun yng Nghanolfan Awelon, Rhuthun, nos Wener, 9 Mehefin am 7.30 pm. Nodwyd.

334.2 Cyngor Sir Ddinbych – Hyfforddiant Cod Ymddygiad i Aelodau a Chlercod Y Clerc i wneud trefniadau fel a ganlyn:

20 Mehefin am 6 pm yn Neuadd y Sir, Rhuthun – Digwyddiad i Glercod – Eirwen Godden

11 Gorffennaf am 2 pm yn Neuadd y Sir, Rhuthun – Y Cynghorwyr J Pugh, Moira Edwards a Jayne Mayers

335 CYNLLUNIO

335.1 Cais cynllunio 20/2016/1137 Datblygiad arfaethedig 63 o dai yn Llanfair DC Adroddwyd y byddai Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn cyfarfod ar 14 Mehefin 2017 i ystyried y cais. Gallai aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno anerch y cyfarfod drefnu siarad am dri munud trwy gysylltu gyda Sarah Stubbs, Uwch Swyddog Cynllunio. Nodwyd nad yw'r cynllun Addysg yn cynnwys llwybr troed.

Anfonwyd ymateb pellach gan y Cyngor Cymuned ar 19 Mai 2017 ynghylch ei bryderon a'r rhai a godwyd gan drigolion. Tra bo'r cynlluniau diwygiedig yn fwy derbyniol roedd nifer o faterion yn parhau i fod angen eu datrys cyn rhoi caniatâd cynllunio. Yn gryno, y rhain yw – llwybr i gysylltu gyda'r pentref; gallai diogeledd y llwybr a'r gwagle agored gael eu heffeithio gan y ffens uchel; gallai'r tai ar yr ochr gogledd ddwyreiniol wynebu'r gwagle agored a fyddai'n rhoi golygfa llawer mwy deniadol; yr angen am waith cerrig ar waliau allanol y tai sy'n wynebu'r A525; cadarnhad eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran tanciau mawr storio nwy; trawsblannu'r coed coffa mewn lleoliadau newydd; diwygio'r datganiad dylunio a mynediad yn unol â hynny, yn cynnwys datganiad dull adeiladu; cwblhau'r tai sy'n wynebu'r A525 yn gyntaf a neb i feddiannu unrhyw anedd nes bo'r fynedfa, y llwybr a'r gwagleoedd agored wedi'u cwblhau.

336 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

336.1 Cynnal a chadw'r glaswellt ar ochr y ffordd Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir gan fod y glaswellt ar ochr y ffordd wrth rai mynedfeydd wedi gordyfu sy'n lleihau gwelededd. Tynnwyd sylw penodol at y gwrych wrth Gapel Salem, Llanfair DC.

336.2 Camfeydd Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad ynghylch camfeydd ar goll neu wedi'u difrodi, fel a ganlyn: Glanrafon, Graigfechan 144 543; Glanrafon, Garthgynan 143 544; Graig Isa, Ffordd Bryn Coch 146 536; Garreg Lwyd, Tyddyn Coch a ger cae gwersylla tafarn y Three Pigeons 46 544.

RHAN 2 PENDERFYNWYD – Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau dilynol:

337 MATERION ARIANNOL

337.1 Talu cyfrifon/anfonebau PENDERFYNWYD – Gwneud taliadau fel a ganlyn:

Ad-daliad i'r Cynghorydd Keith Mouldsdales am gostau mynd i ddigwyddiad Ymgynghori Cymunedol cyn cyflwyno cais cynllunio yn Llandudno ar 28 Mawrth 2017 - £48.83 [Ffi'r gynhadledd £16.43 a chostau teithio £32.40].

337.2 Digwyddiad Cyllid ac Atebolrwydd Cymeradwywyd bod y Clerc yn mynd i ddigwyddiad a drefnwyd ar y cyd gan SLCC/Un Llais Cymru ar Gyllid ac Atebolrwydd yn Ewloe ar 12 Gorffennaf 2017 ar gost o £69 + TAW. Mae bwrsari ar gael tuag at 50% o'r gost trwy gyflwyno cais i'r SLCC.

337.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol Cyflwynwyd rhestr yn nodi'r ceisiadau am gymorth ariannol gan y Cyngor Cymuned. Atgoffwyd yr aelodau bod y gyllideb grantiau a chyfraniadau ar gyfer 2017-18 yn £1,600.

PENDERFYNWYD – Dyrannu grantiau fel a ganlyn [cyfanswm o £1,350]:

£150 Capel Ebeneser, Graigfechan [costau cynnal]

£150 Capel Salem, Llanfair DC [costau cynnal]

£150 Eglwys Llanfair [torri glaswellt]

£100 Pwyllgor Chwaraeon Llanfair DC [offer]

£100 Hosbis Tŷ'r Eos [gofal lliniarol a chymorth i deuluoedd a gofalwyr]

£100 Hosbis Sant Cyndeyrn [gwasanaethau hosbis a chanolfan gofal lliniarol]

£200 Ysgol Llanfair [costau teithio]

£200 Ysgol Pentrecelyn [costau teithio]

£200 Y Lleng Brydeinig [apêl pabi coch]

Gohiriwyd penderfyniad ynghylch cyllid ar gyfer diffibrilyddion yn Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn tan yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Penderfynwyd gwrthod y ceisiadau am gymorth grant gan y mudiadau a ganlyn:

Y Groes Goch, Cymdeithas Sioe Amaethyddol Sir Ddinbych a Sir y Fflint, Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen, Marie Curie a Neuadd Eleanor [cost mynediad i'r rhyngwyd].

338 ADOLYGIAD BLYNYDDOL Y RHEOLAU ARIANNOL, ASESIAD RISG A RHEOLAETHAU MEWNOL Cyflwynwyd copïau o'r Rheolau Ariannol, Aseiad Risg a rheolaethau mewnol. Cyflwynodd y Clerc Aseiad Risg diwygiedig ar gyfer 2017-18 i'w drafod a'i gymeradwyo, gan ystyried yr eitemau gwasanaeth, risgiau a champau gweithredu lleddfu a ganlyn – Cofrestr Asedau – Eiddo a Phersonél, Cyfrifon, Cysoniadau Banc, Rheolaethau Mewnol, Praesept, Contractau, Adfer yn dilyn trychineb, diffyg cyngor gan asiantaeth, Parhad Busnes ac Yswiriant. Roedd sylwadau gan yr archwilydd mewnol a'r archwilydd allanol wedi eu hystyried.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r Aseiad Risg diwygiedig ar gyfer 2017-18 fel y'i cyflwynwyd.

339 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL
3 Gorffennaf – Canolfan Genus, Llanrhydd, Rhuthun;
4 Medi, 2 Hydref, 6 Tachwedd, 4 Rhagfyr 2017, 8 Ionawr, 5 Chwefror a 5 Mawrth 2018 – i ddechrau am 7 pm [lleoliadau i'w cadarnhau]

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi gorffen am 8.30 pm.

John Pugh _____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd, nos Lun, 3 Gorffennaf 2017 am 7.00 pm.

PRESENNOL - Y Cynghorwyr John Pugh [Cadeirydd], David Baker, Wini Davies, Moira Edwards, Jayne Mayers [Is-gadeirydd], Keith Moulds ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – 12 o'r cyhoedd.

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorwyr Bob Barton, Tim Faire a Medwen Roberts.

340 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd John Pugh ynghylch materion yn gysylltiedig ag Ysgol Llanfair yn ei rôl fel llywodraethwr ysgol.

341 SEDD WAG AR Y CYNGOR – CYFETHOL

Hysbyswyd bod dau wedi mynegi diddordeb wrth y Clerc, sef Mr Phil Webb a Mr Paul Weston. Roedd y ddau ymgeisydd wedi cael gwahoddiad i gyfarfod yr aelodau i ddweud pam yr hoffent fod yn gynghorydd a'r hyn sydd ganddynt i'w gynnis i'r gymuned. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr ymgeiswyr a phleidleisio trwy gyfrwng pleidlais ar bapur. Etholwyd Mr Paul Weston yn briodol fel yr ymgeisydd llwyddiannus a gofynnwyd iddo lofnodi'r ffurflen datganiad derbyn y swydd. Cyflwynwyd pecyn ymgynefino iddo yn cynnwys Canllaw'r Cynghorydd Da, y Cod Ymddygiad, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol a'r Ffurflen Cofrestr Buddiannau Aelodau. Atgoffodd y Clerc yr aelodau bod hyfforddiant cynefino Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y cod ymddygiad i'w gynnal yn Hwb Dinbych ar 5 Gorffennaf am

2pm ac 11 Gorffennaf yn Neuadd y Sir, Rhuthun, am 2pm a 6pm. Cytunwyd i'r Clerc wneud trefniadau i'r Cynghorwyr Moira Edwards a Paul Weston fynychu cwrs cynefino ar gyfer Cynghorwyr newydd.

342 MATERION CYMUNEDOL

342.1 Nwy prif gyflenwad Adroddwyd bod cwmni Wales and West Utilities wedi darparu manylion y costau, yn ddibynnol ar y niferoedd yn cymryd rhan yn y cynllun, fel a ganlyn:

Dewis 1 – y pentref sy'n bodoli eisoes yn unig wedi'i seilio ar 111 o 159 eiddo - £3,668 ynghyd â chost gwasanaeth o £1,200, yn dod i gyfanswm o £4,868 i bob eiddo.

Dewis 2 – y pentref sy'n bodoli eisoes a'r 63 eiddo newydd wedi'i seilio ar 155 o 222 eiddo - £3,182 ynghyd â chost gwasanaeth o £1,200, yn dod i gyfanswm o £4,382 i bob eiddo. Yr holl ffigurau heb gynnwys Treth ar Werth. Awgrymwyd efallai y byddai'r datblygwr yn fodlon rhoi nwy prif gyflenwad yn lle'r tanc Nwy Petrolïwm Hylifol gan y byddai'n cynyddu gwerth yr eiddo newydd i'w gwerthu.

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd Moira Edwards yn arwain at ddrafftio llythyr arolwg yn gofyn am ymrwymiad mewn egwyddor gan y gymuned leol.

342.2 Diffibrilyddion – Siaradwr gwadd a dangos yr offer gan Julie Starling, Sefydliad Prydeinig y Galon, Uwch Nyrs Arbenigol Clinigol

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn annog ysgolion yn yr ardal i gael Diffibrilydd Allanol Awtomatig fel rhan o'u pecyn cymorth cyntaf. Bwriedir darparu cymorth i bob ysgol mewn clwstwr, gan weithio gyda SADS UK ac Achub Calon y Dyffryn, i gael diffibrilydd o'r fath a sicrhau ei fod ar gael i'r gymuned trwy ei roi mewn cabinet wedi'i wresogi ar du allan adeilad yr ysgol. Trwy ei wneud yn ddiffibrilydd y gall y cyhoedd ei ddefnyddio gobeithir y bydd y gymuned yn cynorthwyo i godi arian ar gyfer y diffibrilydd a'r cabinet. Cost diffibrilydd Medina yw £515 heb dreth ar werth, ond byddai cost adnewyddu'r batris/padiau yn dod i £200 bob tro. Mae'r offer Zoll yn costio £800 ond nid oes costau cynnal a chadw a dyma'r math a gefnogir gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru a gellir eu prynu trwy Tomos Hughes o Achub Calon y Dyffryn. Cost cabinet allanol gyda larwm a gwresogydd ydi £335, cost trydanwr rhwng £150 a £250 yn dibynnu ar y safle ac arwyddion yn £35 yr un + TAW. Bydd Achub Calon y Dyffryn yn defnyddio technoleg 'dŵr clyfar' sy'n wrth-ddwyn a gwrth-fandaliaeth ac yn cofrestru'r dyfeisiadau gyda'r Heddlu.

Roedd consensws y dylai Graigfechan, Pentrecelyn a Llanfair gael diffibrilydd. Cynigiodd y Cynghorydd Jayne Mayers siarad gyda Choleg Llysfasi i weld a fyddai modd i'w diffibrilydd nhw gael ei roi ar du allan adeilad yno. Dywedodd y Cynghorydd Paul Weston ei fod wedi casglu £800 a'i fwriad oedd rhoi'r arian i Ysgol Llanfair. Mae grŵp cerdded lleol wedi casglu £150 hefyd. Byddai sefydlu tudalen 'Just Giving' yn galluogi'r gymuned i gyfrannu a chyfathrebu gyda'i gilydd tra'n codi arian.

342.3 Cynllun Cymuned – Cyflwynwyd Fersiwn 2 wedi'i ddiweddarau gan Mr Steve Whipp a oedd wedi mynd i ddigwyddiad gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin. Roedd llawer o'r syniadau a gyflwynwyd ar y diwrnod eisoes yn y Cynllun Cymuned. Gobeithir y bydd y cynllun yn ganolbwynt gweledigaeth y gymuned ar gyfer yr ardal. Byddai Mr Whipp yn hapus i barhau i roi mewnbyn i'r cynllun ac mae'n ei ystyried yn ddogfen fyw i'w hadolygu o dro i dro.

PENDERFYNWYD [a] llongyfarch Mr Whipp ar ei waith rhagorol a llunio is-grŵp bach i helpu siapiao'r ddogfen. Efallai y bydd yn dymuno cysylltu gyda Phil Webb, Phil Bennett Lloyd a Richard Cotter. [b] anfon copi at y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych.

342.4 Gwasanaeth Band eang Mae 2,400 o eiddo yn Sir Ddinbych nad ydynt yn medru cael band eang cyflym iawn. Mae'r Cyngor Sir yn fodlon cydlynu cyfarfodydd gyda'r cymunedau wedi'u heffeithio waethaf a fyddai â diddordeb mewn gweithio gyda'i gilydd i wella eu darpariaeth band eang, ond byddai angen 'hyrwyddwyr lleol' a fyddai'n fodlon ac yn medru cydlynu'r gwaith sy'n ofynnol i weithredu datrysiad i'r gymuned.

PENDERFYNWYD Enwebu'r Cynghorydd Bob Barton fel hyrwyddwr lleol y Cyngor Cymuned.

342.5 Goryrru Roedd y grŵp gwyllo cyflymder lleol wedi bod yn brysur yn monitro traffig ym mhentref Llanfair.

343 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2017 a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

344 MATERION YN CODI

325.2 Dewisiadau Arafu Traffig – Graigfechan

PENDERFYNWYD Y dylai'r Clerc ysgrifennu at Mr Marc Musgrave i gael diweddariad ar osod yr arwyddion a weithredir gan gyflymder cerbydau a gofyn a oes modd symud y polion yn bellach yn ôl oddi wrth y Smithy ymhellach tuag at Wrecsam.

326.3 Elusendai Elizabeth Owen – Adroddwyd bod y coed ysgaw wedi'u tocio.

345 GOHEBIAETH

345.1 Cyngor Sir Ddinbych

[a] Ymgynghoriad Gwasanaethau Bws 22/06/17 tan 10/08/17. Gwahoddir barn am y cynigion www.denbighshire.gov.uk/travel Sesiynau galw heibio ar 6 Gorffennaf yn Llyfrgell Dinbych, 9.30 - 12.00, Neuadd y Sir, Rhuthun, 13.30 - 15.30 a 7 Gorffennaf yn Llyfrgell Corwen, 9.30 - 12.00.

PENDERFYNWYD Gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych yn gofyn am adfer gwasanaethau bws trwy bentref Graigfechan gan fod rhaid i bobl sy'n dod oddi ar y bws yn yr arosfannau ar hyd yr A525 gerdded gweddill y ffordd i Graigfechan ar hyd lonydd cul.

[b] Gwahoddiad i Wasanaeth Dinesig Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych ar 24 Medi yn Eglwys Sant Tomos, Y Rhyl am 11am. Nodwyd.

[c] Gwahoddiad i'r Cadeirydd a'r Clerc fynd i Gyfarfod Clwstwr gyda'r nod o rannu gwybodaeth a thrafod materion gyda swyddogion y Cyngor Sir nos Iau, 20

Gorffennaf am 6pm yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Cadarnhaodd y Cadeirydd a'r Clerc eu bod yn bwriadu mynd i'r cyfarfod.

346 CYNLLUNIO

346.1 Ymgynghori cyn cyflwyno cais – Ysgol newydd arfaethedig Llanfair DC

Mae'r Cyngor Sir yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio i ddatblygu ysgol newydd ar gyfer 126 o ddisgyblion amser llawn a 18 o ddisgyblion rhan amser ym mhentref Llanfair DC yn lle'r hen adeilad ysgol. Cynhaliwyd digwyddiad yn Neuadd Eleanor ddydd Llun, 26 Mehefin 2017, pan ddangoswydd cynlluniau ac roedd cynrychiolwyr y Cyngor ar gael yno i ateb cwestiynau. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion ydi 16 Gorffennaf 2017. Codwyd y cwestiynau a ganlyn – Pam bod yr adeilad 1 metr yn uwch na'r ffordd? Mae angen cael gwared ar y tanciau nwy. Nid yw cladin alwminiwm yn briodol ar gyfer yr ardal. Pam nad oes to llechi? Gallai'r twmpathau arafu achosi sŵn. Ydi nifer y lleoedd yn yr ysgol yn ddigonol? A fydd yna system taenellu dŵr? Wal fyw i guddio'r biniau?

PENDERFYNWYD Cefnogi'r cais yn gyffredinol.

346.2 Cais 20/2016/1137 – Diweddariad – Datblygu 63 o dai yn Llanfair DC

Rhodddwyd caniatâd cynllunio, gydag amodau, yn cynnwys ymdrin â'r materion mynediad.

346.3 Cais 20/2017/0527 – Tan y Graig, Pentrecelyn – Newid defnydd canolfan gweithgareddau awyr agored i ffurfio annedd, yn cynnwys adeiladu estyniadau ac addasiadu, ac adeiladu garej/gweithdy ar wahân [cynllun wedi'i ddiwygio o'i gymharu â'r un â gymerawywyd yn flaenorol dan gyfeirnod 20/2014/1210]

PENDERFYNWYD Cefnogi'r cais.

346.4 Cais 20/2016/1224 Erw Fair, Llanfair DC Adroddwyd, er bod y cais wedi'i wrthod ac y byddai'r Cyngor Sir yn cyflwyno hysbysiad gorfodaeth i gael gwared ar y garafan, roedd y garafan yn parhau i fod yno. Y Clerc i ofyn am ddiweddariad ynghylch y sefyllfa.

347 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

347.1 Glanhau Strydoedd a Rheoli Gwastraff – Bydd Mr Simon Billington yn dod i'r cyfarfod ar 4 Medi. Nodwyd.

347.2 Materion Cyffredinol PENDERFYNWYD Gofyn i'r Clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir ynghylch [a] yr angen i lanhau'r palmentydd ac ymyl y ffordd o'r gofeb rhyfel ar yr A525 tuag at Bwllglas yn dilyn gwaith gosod wyneb newydd yn ddiweddar [b] bod angen i gontractwyr sy'n torri gwrychoedd fynd yn agos at bob polyn telegraff wrth wneud y gwaith.

[c] mae arwyneb y ffordd o The Smithy, Llanbedr i Graigfechan yn wael, sy'n fater iechyd a diogelwch i feicwyr

[ch] dyddiad cyflwyno'r cyfyngiad pwysau ar bont Eyarth.

RHAN 2 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

348 MATERION ARIANNOL

348.1 Cyflwynwyd – Datganiad Crynodeb o Incwm a Gwariant am y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Mehefin 2017

Cynghorodd y Clerc mai'r balans yn y banc ar 30 Mehefin 2017 oedd £4,874.03 yn y Cyfrif Cymuned a £1,022.58 yn y Cyfrif Busnes. Ar ôl ystyried sieciau heb eu cyflwyno a thaliadau i'w talu roedd hyn yn gadael £3,288.39 ar gael yn y Cyfrif Cymuned ar 3 Gorffennaf. Tynnodd y Clerc sylw at gynnydd yn y costau argraffu, postio a chyfieithu oherwydd cynnal cyfarfodydd misol yn hytrach na bob deufis.

PENDERFYNWYD

[a] derbyn y datganiad ariannol

[b] craffu'n ofalus ar y gyllideb praesept yn ystod y misoedd nesaf i osgoi gorwario

[c] bod y gyllideb ar gyfer 2018/19 yn cynnwys cynnydd i dalu am y costau a grybwyllwyd

[ch] diweddarau'r gorchymyn banc ar gyfer y cyfrifon sy'n bodoli eisoes a'i ddiwygio i gynnwys y llofnodwyr a ganlyn, sef y Cynghorwyr David Baker, Jayne Mayers, Keith Mouldsdale, John Pugh, Medwen Roberts, ynghyd â'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol Eirwen Godden.

348.2 Talu Cyfrifon / Anfonebau

PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

348.2.1 £512.16 Gwasanaeth Cyfieithu Sandra Williams – cofnodion 01/03/17, 02/05/17 a 17/05/17

348.2.2 £82.80 Ffi Cynhadledd ar y cyd SLCC ac Un Llais Cymru 12/07/17

348.2.3 £340.65 Hawliad treuliau'r Clerc, 1 Ebrill – 30 Mehefin 2017

348.2.4 PENDERFYNWYD hysbysu Cyngor Cymuned Llandegla bod Llanfair eisoes wedi penderfynu anfon cynrychiolydd i Gynhadledd ar y cyd SLCC ac Un Llais cymru ar 12 Gorffennaf 2017 ac felly na fyddai'n rhannu cost presenoldeb y Cynghorydd Bob Barton yn y digwyddiad gyda Llandegla, Llanbedr a Llanferres ar yr achlysur hwn.

348.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol Dim

348.4 Newid i'r Ffurflen Flynyddol a phwyntiau'n deillio o'r Adolygiad Blynyddol

Cadarnhawyd bod yr Aelodau wedi cael eu hysbysu trwy e-bost gan y Clerc ar 22 Mehefin 2017 ei bod wedi canfod camgymeriad yn un o'r ffigurau ym mlwch 6 y datganiad cyfrifon. Roedd yr archwilydd mewnol wedi rhoi ffigur anghywir yn yr adroddiad archwiliad mewnol y bu'n rhaid ei newid o £6,691 i £6,535 cyn i'r dogfennau a'r ffurflen flynyddol gael eu postio erbyn y dyddiad dychwelyd, sef 26 Mehefin. Cyflwynwyd copi o'r dudalen a ddiwygiwyd i'r Aelodau ar gyfer eu cofnodion.

Roedd yr archwilydd allanol, BDO, wedi anfon e-bost ar 30 Mehefin ynghylch pedwar pwynt yr oedd angen rhagor o eglurhad arnynt er mwyn cwblhau'r adolygiad blynyddol. Roedd dau ymholiad yn ymwneud â chostau staff yn gofyn am fanylion manwl, cais am gopi o'r gofrestr asedau newydd a nodyn atgoffa ei bod yn ofynnol bod datganiad o'r cyfrifon ar gael ar wefan y Cyngor. Cadarnhaodd y Clerc bod copi o gyfrifon 2015/16 wedi ei roi ar y wefan a byddai'n gweithredu i anfon yr wybodaeth fanwl a oedd yn ofynnol at yr archwilydd allanol erbyn 7 Gorffennaf 2017.

PENDERFYNWYD bod yr aelodau'n cymeradwyo'r gweithredu gan y Clerc.

349 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

**4 Medi [Canolfan Genus, Llanrhydd], 2 Hydref, 6 Tachwedd, 4 Rhagfyr 2017;
8 Ionawr, 5 Chwefror a 5 Mawrth 2018 – cyfarfodydd i ddechrau am 7pm,
lleoliadau i'w cadarnhau.**

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 9.30pm.

John Pugh _____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd, Rhuthun, nos Lun, 7 Awst 2017 am 7 pm.

PRESENNOL – Y Cyngorwyr David Baker, Bob Barton, Moira Edwards, Tim Faire, Medwen Roberts a Paul Weston, ynghyd â'r Clerc, Eirwen Godden.

YMDDIHEURIADAU Y Cyngorwyr Wini Davies, John Pugh [Cadeirydd], Jayne Mayers [Is-gadeirydd] a Keith Mouldsdale [pob un ar wyliau].

350 PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Penodwyd y Cyngorwyr Medwen Roberts yn Gadeirydd y cyfarfod yn sgîl absenoldeb y Cyngorwyr John Pugh a Jayne Mayers.

351 ARCHWILIAD AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2017

Cyflwynwyd gohebiaeth a dderbyniwyd gan BDO dyddiedig 25 Gorffennaf 2017, ateb y Cadeirydd dyddiedig 28 Gorffennaf 2017, ynghyd â chopi o gofrestr asedau 2016-17 y Cyngor Cymuned. Yn ystod yr archwiliad roedd BDO wedi nodi diwygiadau y dylid eu cywiro, gan ddatgan hefyd eu bod yn bwriadu cyflwyno tystysgrif archwilio amodol gan nad yw gwefan y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol [Democratiaeth] [Cymru] 2013, adran 55. Mae hyn oherwydd, ar adeg yr archwiliad, nid oedd y wefan yn cynnwys unrhyw ddatganiad cyfrifon wedi'u harchwilio. Cadarnhaodd y Clerc y gweithredwyr i adfer hyn ar unwaith ar ôl derbyn eu llythyr a bod y cyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer 2014, 2015 a 2016 wedi eu rhoi ar y wefan wedi hynny.

Roedd BDO wedi nodi yn ystod yr archwiliad bod y gwerth wedi'i amcangyfrif ar gyfer asedau sefydlog yn anghywir, ac y dylid newid y ffurflen flynyddol, ei chymeradwyo eto gan y Cyngor a'i dychwelyd erbyn 15 Awst 2017 fel y gellid cyflwyno tystysgrif ar y ffurflen flynyddol er mwyn cwblhau'r archwiliad.

PENDERFYNWYD

[a] newid y ffigur ym mlwch 12 [cyfanswm asedau sefydlog ac asedau tymor hir] yn y datganiad cyfrifon a gynhwyswyd yn y ffurflen flynyddol ar gyfer 2016-17 o £2,900 i £733 a newid ffigur y flwyddyn flaenorol o £62,334 i £421.

[b] diwygio'r gofrestr asedau i ddangos bod gan yr arosfannau bws a'r hysbysfyrdau werth enwol o £1 yr un

[c] ailgymeradwyo'r ffurflen flynyddol, ei hailardystio a'i llofnodi gan y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol a Chadeirydd y Cyngor fel bo'n ofynnol.

352 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
4 Medi [Canolfan Genus, Llanrhydd] am 7pm

Cyhoeddwyd bod y cyfarfod wedi gorffen am 7.30 pm.

CYNGHORYDD MEDWEN ROBERTS, CADEIRYDD Y CYFARFOD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

2016-17 ASSET REGISTER

Description	Location	Date Acquired	Purchase Price	Amount Insured
War Memorial	Llanfair D C Village	Dedicated November 1921	Unknown Best Estimate: Public Subscription	£47,744.08
Street Furniture: Bus Stop x 2	Llanfair D C & Graigfechan	Unknown	Unknown Best Estimate: Bus Stop x 2 = £1*	£ 7,503.01
Noticeboards x 3	Llanfair D C, Graigfechan & Pentrecelyn		Noticeboards x 3 = £1*	
Gates & Fences	Churchyard Wall, Llanfair D C	Unknown	Unknown	£ 7,087.26
Note: Not owned by the Community Council, but Council is responsible for maintenance				
Computer Printer	Home of Clerk	10/09/10	£419.20	
Printer	Home of Clerk	09/07/17	£ 54.00	
Metal Cupboard	Neuadd Eleanor, Llanfair D C	07/07/16	£114.00	
Speed Guns x 2	Home of Cllr Steve Whipp	09/09/16	£ 198.00	

Key

* Estimated value amended as advised by the external auditor, BDO LLP and approved by the Community Council at a meeting held on 7 August 2017

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd, nos Lun, 4 Medi 2017 am 7.00 pm.

PRESENNOL - Y Cyngorwyr John Pugh [Cadeirydd], David Baker, Wini Davies, Jayne Mayers [Is gadeirydd], Keith Mouldsdale, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – Deg aelod o'r cyhoedd a Mr Simon Billington, Rheolwr Prifffyrdd a Gweithrediadau a Strydlun [De] – Cyngor Sir Ddinbych

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU – Y Cyngorwyr Bob Barton, Moira Edwards [ar wyliau], Tim Faire a Medwen Roberts.

350 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cyngorwyr John Pugh a Keith Mouldsdale ynghylch materion yn gysylltiedig â Neuadd Eleanor yn eu swyddogaeth fel ymddiriedolwyr a'r Cyngorydd Paul Weston o ran cais cynllunio 20/2017/0769 Cae Ffolt, Llanfair DC gan fod yr ymgeisydd yn gleient ac yn ffrind.

351 MATERION CYMUNEDOL

351.1 Nwy o'r prif gyflenwad Cyflwynwyd – Adroddiad diweddar a baratowyd gan y Cyngorydd Moira Edwards. Mae llythyr yn cael ei ddsbarthu, ymgynghori unigol gyda thrigolion [o ddrws i ddrws] ynghylch a oes ganddynt diddordeb mewn cael cyflenwad nwy i'w cartref. Ar hyn o bryd gofynnir iddynt "ddangos diddordeb mewn egwyddor, heb ymrwymiad". Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 31 Hydref 2017. Mae angen i 62 fynegi diddordeb cyn dechrau'r broses o gael dyfynbrisiau gan y cwmni cyfleustodau. Adroddwyd hefyd bod y Clerc, yn y cyfamser, wedi ysgrifennu at ddarparwyr tai i holi a fyddent yn fodlon buddsoddi mewn nwy prif gyflenwad i'w heiddo. Disgwylir eu hatebion.

PENDERFYNWYD

[a] rhoi'r llythyr sy'n cael ei ddsbarthu i drigolion ar wefan y Cyngor Cymuned.

[b] gwahodd Miri Meithrin [Llysfasi] Fferm Bryn Mair, Gwesty Gorsaf Eyarth a ffermydd cyfagos i ymuno yn yr ymgyrch.

351.2 Diffibrilyddion Adroddodd y Cyngorydd Jayne Mayers bod Ysgol Llanfair wedi archebu diffibrilydd. Cysylltwyd gyda Choleg Llysfasi i ofyn iddynt adleoli eu diffibrilydd i leoliad y tu allan fel ei fod yn hygyrch i'r cyhoedd. Mynegodd yr angen i weithio ar ffyrdd i godi arian [ocsiwn addewidion, blychau casglu neu loteri leol] i brynu diffibrilyddion ar gyfer ardaloedd eraill yn y gymuned, Graigfechan a Phentrecelyn yn benodol. Mae arwyddion yn bwysig hefyd fel bod pobl yn gwybod lle i ddod o hyd i ddiffibrilydd. Holwyd a oes diffibrilydd yng Nghanolfan Genus.

351.3 Cynllun Cymunedol Cynigiodd Mr Steve Whipp y dylid ffurfio Is-bwyllgor Cynllun Cymunedol i ddatblygu'r Cynllun Cymunedol a gyflwynwyd ar ffurf drafft i gyfarfod y Cyngor Cymuned yng Ngorffennaf 2017. Gweithgor yw hwn nid is-bwyllgor dan arweiniad Mr Steve Whipp sydd wedi medru galw ar aelodau eraill y cyhoedd i gynorthwyo. Lluniwyd cylch gorchwyl i ddatblygu'r cynllun, hyrwyddo dyheadau'r holl drigolion yn ardal y Cyngor Cymuned, sicrhau cysylltu a chadarnhad effeithiol gan y Cyngor a chyhoeddi'r cynllun o dro i dro. Cyfeiriwyd at gais llwyddiannus diweddar Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor am gyllid grant gan Cadwyn Clwyd i gynnal astudiaeth dichonoldeb. Y nod yw canfod beth mae'r trigolion yn ei ddymuno o ran neuadd y pentref a gweddill y gymuned. Bydd y Grŵp Cynllun Cymunedol yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor ar 13 Medi i drafod ffyrdd o weithio gyda'i gilydd ar yr astudiaeth. Mae'r cyfarfod yn agored i bawb. Gobeithir, gan y bydd gorgyffwrdd, y bydd y gweithgor yn medru rhoi adborth ar y canfyddiadau i'r Cyngor Cymuned y gellir eu trosglwyddo wedyn i dîm proffesiynol y neuadd.

351.4 Gwasanaeth band eang Ni dderbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Bob Barton mewn pryd ar gyfer y cyfarfod.

351.5. Cyfleoedd codi arian – loteriau a ganiateir [Deddf Hapchwarae 2005]
Adroddwyd y caiff Cynghorau Lleol gynnal loteri cyn belled ag y bo ganddynt drwydded gweithredu loteri gan y Comisiwn Hapchwarae. Rhaid i'r Comisiwn roi amodau ar y drwydded [a gall ychwanegu amodau eraill] o ran gwario'r enillion gros, dosbarthiad gwobrau a threuliau'r loteri, uchafswm yr enillion, terfynau'r gwobrau a chario trosodd. Mae Un Llais Cymru wedi awgrymu bwrw ymlaen gyda gofal gan nad oes unrhyw achos hysbys lle gwnaed hyn yng Nghymru. Cynghorodd y Clerc, os oes enghreifftiau yn Lloegr, dylid cymharu tebyg wrth ei debyg o ran poblogaeth, daearyddiaeth ac economi gyda'r elfennau hyn yn ardal Cyngor Cymuned Llanfair DC. Bydd y Cynghorydd Paul Weston yn ymchwilio i hyn ac yn edrych ar y Cynghorau sydd wedi gwneud hyn ac yn darparu adborth.

351.6 Niwsans sŵn Cafwyd cwyn gan drigolyn am fiwsig uchel i'w glywed nos Sul, 27 Awst 2017, o 9 o'r gloch y nos tan hanner nos yn dod o'r Three Pigeons, Graigfechan. Cynyddodd y sŵn dros y cyfnod o dair awr ac roedd i'w glywed yn glir o leiaf filltir oddi wrth y safle. Digwyddodd yr un peth eto ar nos Sadwrn, 2 Medi 2017, gyda'r miwsig i'w glywed yn hwyr y nos.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir i holi a oedd y digwyddiadau hyn wedi'u trwyddedu ac a ellid cynnal profion sŵn pan fo digwyddiadau'n cael eu cynnal yn y dyfodol.

352 COFNODION

PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf a 7 Awst 2017 a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

353 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad y cyfarfod / Cyfeirnod	Gweithred	Gan bwy?	Statws

17/05/17 311.3	Pont Eyarth. Cyfyngiad pwysau 18 tunnell yn cael ei brosesu, tendr i godi arwyddion trwy'r sir i'w gyhoeddi'n fuan. Dogfennau tendro ar gyfer gwaith ar y bont i'w paratoi dros fisoedd y gaeaf, dylai'r gwaith ddechrau'r haf nesaf.	Y Clerc	Gwaith yn parhau
03/07/17 342.1	Arolwg prif gyflenwad nwy – Llythyr wedi'i ddrafftio a'i gyfieithu i'w ddsbarthu	Cynghorydd Moira Edwards	Dyddiad cau ar gyfer ymateb 31/10/17
03/07/17 342.2	Diffibrilyddion – cysylltu gyda Choleg Llysfasi ynghylch gosod yr offer ar du allan yr adeilad	Cynghorydd Jayne Mayers	Gwaith yn parhau
03/07/17 342.3	Cynllun Cymunedol - Steve Whipp wedi ffurfio gweithgor – Phil Webb, Phil Bennett Lloyd a Richard Cotter	Y Clerc i gysylltu gyda Steve Whipp	Trefnwyd bod y gweithgor yn cyfarofd ar 13 Medi
03/07/17 325.2	Dewisiadau arafu traffig yng Ngraigfechan – diweddariad gan Marc Musgrave	Y Clerc	Gwaith yn parhau, arolygon traffig diweddar yn dangos lleihad cadarnhaol, parhau i aros am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r arwyddion terfyn cyflymyder ymlaen llaw
03/07/17 346.1	Ysgol Llanfair newydd arfaethedig – ymateb y Cyngor wedi'i anfon i'r Adran Gynllunio	Y Clerc	Gwaith yn parhau, aros am y cais llawn
03/07/17 347.2	Cysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch glanhau'r palmentydd/ymylon yn dilyn gwaith ailwynebu – o'r gofeb tuag at Bwllglas; yr angen i gontractwyr dorri gwrychoedd yn agos at bolion telegraff; wyneb gwael y ffordd o Lanbedr i Graigfechan	Y Clerc	Yr holl faterion wedi eu cyfeirio at yr adran Priffyrdd
07/08/17 351	Cofrestr Asedau 2016/17 a'r Ffurflen Ariannol Flynyddol wedi eu diwygio a'u hanfon i BDO, archwilwyr allanol	Y Clerc	Cwblhawyd

354.1 Cyngor Sir Ddinbych – E-bost dyddiedig 23 Awst 2017 – Heddlu Gogledd Cymru / Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Cronfa Eich Cymuned Ewch Dewis – dyddiad cau 30 Medi 2017
PENDERFYNWYD bod y Clerc yn cael rhagor o fanylion i'w hanfon i'r Cyngorwyr.

354.2 Cyngor Sir Ddinbych – E-bost dyddiedig 23 Awst 2017 – Beth sy'n newydd am y rhaglen grant Pobl a Lleoedd?
<https://bigblogwales.org.uk/2017/08/16/3881/>
Nodwyd.

355 CYNLLUNIO

355.1 Cais 20/2017/0613 – Adeiladu estyniad i annedd - Drws y Nant, Pentrecelyn, Rhuthun Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn cefnogi'r cais yn llawn gan ei fod yn gwella'r annedd gwreiddiol ac yn gwneud cartref teuluol da.

355.2 Cais 20/2017/0148 – Cael gwared ar garafan preswyl a datblygu tir trwy adeiladu un annedd gyda garej ar wahân [cais amlinellol] – Y Garafan, The Watermill, Pwllglas Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn cefnogi'r cais.

355.3 Cais 20/2017/0769 – Newid defnydd llety atodol yn llety gwyliau ac adeiladu estyniad yn y cefn - Cae Ffolt, Llanfair DC Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn cefnogi'r cais.

355.4 Cais 20/2016/1137 – Datblygiad tai yn Llanfair DC – Adroddwyd nad yw'r caniatâd cynllunio wedi ei roi hyn yma, gan nad yw'r cytundeb cyfreithiol wedi'i lofnodi ac mae'n cael ei ystyried gan dîm cyfreithol y Cyngor Sir. Cytunwyd yn y Pwyllgor Cynllunio ym mis Mehefin y byddai amod 3 ynghylch gwahanol gyfnodau'r datblygiad yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ac y bydd Cynllunio yn ymgynghori yn lleol.

355.5 Ymgynghoriad ar Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Cytundeb Cyflawni Drafft ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd 21 Awst – 20 Hydref 2017 [copïau i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Ddinbych neu yn llyfrgelloedd neu siopau un alwad Sir Ddinbych]

Mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu sy'n nodi sut mae'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol [2006-2021] wedi perfformio ac yn tynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n dangos bod angen Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae'r adolygiad yn nodi bod angen paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y cyfnod o 2021 ymlaen. Nodwyd fod yr wybodaeth a gynhwysir yn y cynigion ar gyfer Llanfair wedi mynd yn anghyfredol eisoes.

356 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

356.1 Siaradwr gwadd – Mr Simon Billington, Rheolwr Priffyrdd a Gweithrediadau a Strydlun [De]

Cyflwynodd Mr Billington drosolwg o'r adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, gyda'r tîm presennol wedi'i sefydlu ers pedair blynedd gyda chyfrifoldeb am gynnal a chadw priffyrdd, torri glaswellt a chynnal a chadw tiroedd a glanhau strydoedd. Mae gwagu gwlliau, sgubo'r briffordd a thorri ymyl y ffyrdd yn yr ardaloedd gwledig dan ofal contractwyr allanol yn bennaf. Mae gan bob un o'r chwe ardal yn Sir Ddinbych gydlynnydd – Mr Glyn Hughes sy'n gyfrifol am gynnal a chadw

yn ardal Rhuthun. Cynhelir y gwaith ac ymchwiliadau yn unol ag amserlen gynlluniedig. Ymatebodd Mr Billington i gwestiynau megis amlder glanhau strydoedd, torri gwrychoedd a chynnal a chadw llwybrau troed. Dylid hysbysu canolfan alwadau'r Cyngor Sir ynghylch unrhyw bryderon neu gwynion gynted ag y bo modd, a rhoir cyfeirnod a bydd galwyr yn cael ymateb ymhen 10 diwrnod gwaith. Nid oes gan y Cyngor Sir gyllideb ar gyfer biniau sbwriel cyffredinol ond gall eu gwasanaethu am ddim. Byddai'n rhaid i'r Cyngor Cymuned dalu oddeutu £250 am bob bin sbwriel ychwanegol. Gwnaed cais am restr o'r biniau sy'n cael eu gwagu yn ardal Cyngor Cymuned Llanfair. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Billington am ei gyflwyniad defnyddiol.

356.2 Ymgynghoriad Map Rhwydwaith Integredig Cyngor Sir Ddinbych

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/your-council/consultations/active-travel-integrated-network-maps.aspx>

Adroddwyd bod Sustrans wedi dweud nad oes digon o le i wella'r llwybr troed ar yr A525 a bod y diffyg llwybrau troed o Bwllglas/Efenechtyd yn bryder.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Gweithgor Cynllun Cymunedol edrych ar a gwneud sylwadau ar y ddogfen ymgynghori.

356.3 Y Gofeb Rhyfel

Anfonwyd adroddiad a baratowyd gan Mr Alan Edwards, un o drigolion Llanfair DC, at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Roedd Mr Edwards wedi cynorthwyo'r Clerc i gasglu gwybodaeth hanesyddol/cefnidir i gwblhau'r cais grant manwl i Cadw. Derbyniwyd nifer o gwynion gan drigolion yn y cyfamser am gyflwr presennol y Gofeb Rhyfel ac yn gofyn am gwblhau gwaith trwsio brys cyn cynnal Gwasanaeth Sul y Cofio ym mis Tachwedd.

PENDERFYNWYD

[a] rhoi awdurdod i'r Cadeirydd a'r Is gadeirydd gomisiynu gwasanaethau adeiladwr i wneud gwaith trwsio dros dro [costau oddeutu £400, angen tri dyfynbris] i ailosod y cerrig copa cyn cynnal Gwasanaeth Sul y Cofio ym mis Tachwedd 2017

[b] rhoi hysbysiad trwsio ar yr heneb

[c] ymchwilio i'r posibilrwydd o ychwanegu plac i goffáu'r rhai a fu farw mewn damwain awyren yn ystod yr Ail Ryfel Byd

[ch] bod y Cyngor Cymuned yn parhau i chwilio am grantiau tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol y gofeb.

RHAN 2 PENDERFYNWYD eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

357 MATERION ARIANNOL

357.1 Talu Cyfrifon/Anfonebau

PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

[a] **£72.50** Un Llais Cymru – Tâl aelodaeth [gostyngiad 50%]

[b] **£20.00** Un Llais Cymru – Hyfforddiant cynefino Cynghorydd newydd [gostyngiad 50% oherwydd bwrsari]

[c] **£169.61** Cyngor Sir Ddinbych – costau etholiad

357.2 Codi arian

PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston yn ffurfio gweithgor i edrych ar gyfleoedd codi arian.

357.3 Cais am Gymorth Ariannol

357.3.1 Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor – Mae'r pwyllgor wedi derbyn grant gan Gadwyn Clwyd i gynnal astudiaeth dichonoldeb ond mae angen cyllid cyfatebol hefyd. Mae llawer o'r amcanion yr un fath â rhai'r Cyngor Cymuned a gan y bydd y Gweithgor Cynllun Cymunedol yn edrych ar yr un materion y bwriad yw i bawb weithio gyda'i gilydd tuag at yr un nod. Y nod yw canfod beth yw dyheadau a dymuniadau'r trigolion ar gyfer y dyfodol o ran cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth.

PENDERFYNWYD

[a] Dyfarnu £1,000 i Bwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor fel cyllid cyfatebol tuag at y prosiect astudiaeth dichonoldeb.

[b] Trosglwyddo swm o £1,000 o'r gyllideb Trwsio'r Gofeb Rhyfel i'r gyllideb Grantiau a Chyfraniadau.

357.4 Ffurflen Ariannol Flynyddol

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd llythyr dyddiedig 31 Awst 2017 gan BDO LLP yn cadarnhau bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Nid oedd unrhyw faterion wedi dod i'w sylw yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi adroddiad materion yn codi ar wahân. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Ffurflen Flynyddol yn unol ag arferion priodol ac ni ddaeth unrhyw faterion i'w sylw yn rhoi achos i bryderu na chydymffurfiwyd â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol. Bydd y ffurflen flynyddol a'r hysbysiad cwblhau'r archwiliad yn cael ei arddangos mewn man amlwg am 14 diwrnod gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a chyn 30 Medi 2017.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo a derbyn y Ffurflen Ariannol Flynyddol gan y Cyngor fel y'i cyflwynwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Awst 2017.

358 Cyfeiriadau e-bost Cynghorwyr

Cafwyd trafodaeth ynghylch

[a] A oes angen i Gynghorwyr gael cyfeiriad e-bost ar wahân ar gyfer busnes y Cyngor Cymuned, er enghraifft, cyfrif gmail

[b] a ellid gael cyfrifon sirddinbych.gov.uk

[c] a fedr Cynghorwyr defnyddio plattform Hwb Llywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau.

359 Arfarniad y Clerc

Adroddwyd bod y Cadeirydd a'r Is gadeirydd wedi cyfarfod gyda'r Clerc ar 7 Gorffennaf i adolygu'r cynnydd yn ystod y flwyddyn, yr anawsterau a gafwyd a thrafodwyd sut y gellid goresgyn y rhain. Cyfeiriwyd at lwyth gwaith cynyddol y Clerc nawr bod y Cyngor yn cyfarfod yn fisol. Byddai sefydlu is-bwyllgorau yn ychwanegu at ei llwyth gwaith. Ymhellach, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn galw am fwy o atebolrwydd, ac yn disgwyl i'r holl Gynghorau, p'un ai'n fawr neu'n fach, godi eu safonau a darparu tystiolaeth fanwl i gefnogi hyn.

PENDERFYNWYD y dylai cyllideb Costau Cyflog y Clerc gynnwys swm argyfwng i dalu am yr oriau gwaith ychwanegol a weithiwyd. Hyn i'w drafod yng nghyfarfod mis Hydref pan fydd y praesept drafft ar gyfer 2018/19 yn cael ei ystyried.

360 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2 Hydref [Ysgol Llanfair]

6 Tachwedd [Canolfan Genus, Llanrhydd]

4 Rhagfyr [Ysgol Pentrecelyn]

8 Ionawr [Canolfan Genus, Llanrhydd]

5 Chwefror [cyfarfod wedi'i ganslo]

5 Mawrth [Ysgol Llanfair].

Gan nad oedd rhagor o fusnes cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi dod i ben am 9pm.

John Pugh _____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Llanfair nos Lun 2 Hydref 2017 am 7pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr David Baker, Bob Barton [yn bresennol ar gyfer Rhan 2 yn unig], Moira Edwards, Jayne Mayers [Is-gadeirydd], Keith Mouldsdale ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – Naw aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorwyr Wini Davies, John Pugh [ar wyliau], Tim Faire [salwch], Medwen Roberts [ar wyliau] a Paul Weston [salwch]

360 PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Cymrodd y Cynghorydd Jayne Mayers [Is-gadeirydd] y Gadair am y cyfarfod yn sgîl absenoldeb y Cynghorydd John Pugh.

361 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd David Baker o ran ei ymwneud ag Eglwys Sant Cynfarch a'r Santes Fair, Llanfair D C a'r Cynghorydd Keith Mouldsdale o ran Neuadd Eleanor.

362 MATERION CYMUNEDOL

362.1 Nwy prif gyflenwad

Roedd Grŵp Cynefin wedi cadarnhau bod y gymdeithas dai yn cefnogi'r fenter ac yn ystyried y dewisiadau o ran gosod gwres canolog newydd yn Nhái Elisabeth Owen. Roedd Pure wedi cadarnhau hefyd, ond gyda dau bryder. Yn gyntaf, amseru gosod y bibell prif gyflenwad yn y pentref. Mae'r datblygwr yn disgwyl dechrau'r gwaith ar seilwaith y safle yn fuan yng ngwangwyn 2018. Yn ail byddai'n rhaid i gostau gosod pibell nwy prif gyflenwad a ffioedd cysylltu gymharu'n ffafriol gyda chostau nwy petrolewm hylifol (LPG). Dim ateb gan Gyngor Sir Ddinbych hyd yma.

Dyweddod y Cyngorydd Moira Edwards bod trigolion wedi ymateb yn dda i'r cynnig/arolwg. O'r 141 o dai y cysylltwyd gyda nhw [yn ardal map y bibell nwy arfaethedig], mae 99 o gartrefi wedi mynegi diddordeb hyd yma. Mae 69 eiddo arall, sy'n cynnwys yr Eglwys yng Nghymru, neuadd y pentref, tafarn y Ceffyl Gwyn a'r datblygiad newydd o 63 o dai. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 169. Parc y Llan yw'r ardal olaf i'w holi. Mae Wales and West Utilities yn bendant ynghylch pa eiddo y gellir eu cynnwys gan ddefnyddio Dewis 2. Ni fydd eiddo y tu hwnt i'r ysgol bresennol ar yr A525 na thu hwnt i waelod Bro Gynan yn cael eu cynnwys. Nid yw'r llwybr hwn yn ymestyn y tu hwnt i ben y pentref yn arwain i lawr at groesffordd Eyarth ychwaith. Byddai Dewis 3 i ddod â nwy o Rhuthun wedi cynnwys rhai eiddo ar ochr Eyarth y pentref, ond byddai'n ychwanegu £300,000 at amcanbris Dewis 2, sef £500,000. Gwnaed cais am fap yn dangos y ddau lwybr ochr yn ochr. Bydd y niferoedd sydd wedi mynegi diddordeb yn cael eu cyflwyno i Wales and West Utilities ddiwedd Hydref, gyda chais i ddarparu dyfynbris arall. Mynegodd yr aelodau y gobaith y gallai'r costau leihau oherwydd bod nifer y rhai â diddordeb yn uwch.

362.2 Diffibrilyddion

Rhoddod y Cyngorydd Jayne Mayers drosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran eu gosod mewn gwahanol safleoedd ar draws ardal y Cyngor Cymuned. Pwysleisiodd yr angen i Goleg Cambria Llysfasi symud eu hoffer i'r tu allan i'w hadeilad; dylid cael diffibrilydd yn y tri phrif bentref, Pentrecelyn, Graigfechan ac mae'r un yn Llanfair wedi'i osod yn ei le erbyn hyn. Roedd y Cyngorydd Paul Weston wedi cael dyfynbrisiau am arwyddion dwyieithog. Bwriedir cynnal digwyddiad hyfforddiant ar wasanaethau'r galon ar 18 Tachwedd yn nhafarn y Three Pigeons lle bydd pobl yn cael eu gwahodd i wneud cyfraniad a chymryd rhan mewn raffl i godi arian. Yn y cyfamser rhoddwyd ystyriaeth i wahanol ffyrdd o godi arian i dalu am offer/cyfleusterau ar draws yr ardal – megis loteri bach neu glwb 100 ond mae angen cynllunio'r trefniadau casglu arian, sut y byddai'r arian yn cael ei ddsbarthu a'i wario yn ofalus. Byddai'n ofynnol hefyd i'r Cyngor Cymuned gofrestru gyda'r awdurdod lleol. Gofynnodd y Cyngorydd Mayers am farn pobl. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor gael cynllun pum mlynedd i gynnwys darpariaeth ar gyfer codi arian trwy'r broses praesept.

362.3 Cynllun Cymuned

Cyflwynwyd – Nodiadau cyfarfod y grŵp llywio [Steve Whipp, Richard Cotter, Phil Bennett Lloyd a Phil Webb] a gynhaliwyd ar 13 Medi 2017. Y pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod oedd:

- [a] y grŵp i ddatblygu gwell dealltwriaeth ddemograffig o'r boblogaeth gan ddefnyddio'r data sydd ar gael gan Gyngor Sir Ddinbych, y Llywodraeth a gwefannau
- [b] datblygu cyfres o gwestiynau i'w cynnwys yn yr holiadur Neuadd Eleanor, trwy gyfrwng cyfathrebu a thrafod trwy e-bost
- [c] cysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych i gael deall pa gynlluniau a wnaed, o bosibl, ar gyfer defnydd adeilad presennol Ysgol Llanfair, unwaith y bo'r ysgol newydd wedi'i hadeiladu.

Mae'r grŵp yn ystyried sefydlu canolfan i'w defnyddio gan y rhai sy'n defnyddio neuadd y pentref, yr eglwys, y festri ac adeilad yr ysgol ar ôl yr adleoli. Mae pwyllgor rheoli neuadd y pentref wedi cael cyllid gan Cadwyn Clwyd i gynnal astudiaeth ddichonoldeb. Nodwyd bod angen eglurhad ynghylch statws y grŵp. Nid yw'n is-bwyllgor y Cyngor Cymuned ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD diolch i Mr Steve Whipp ac aelodau'r gweithgor am y gwaith a wnaed hyd yma.

362.4 Band eang

Cyflwynwyd – neges e-bost dyddiedig 11 Medi 2017 oddi wrth Liz Grieve, Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata, Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor Sir wedi bod yn gweithio gyda BT o ran y cynllun lledaenu cyswllt ffibr optig ac i ganfod pa ardaloedd fydd yn derbyn hyn erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon. Roedd hyn wedi profi'n anodd a chysylltwyd gyda'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru ynghylch hyn. Mae'r Cyngor Sir yn anfoddog gyrru ymlaen gyda threfniadau lleol gan y gallai fod yn bosibl y bydd rhai/llawer o ardaloedd yn cael eu cwmpasu heb yr angen am drefniadau arbennig. Yn y cyfamser, mae Cadwyn Clwyd yn ystyried datblygu trefniadau wedi eu teilwra'n benodol ar gyfer nifer fechan o aelwydydd, a disgwylir rhagor o fanylion yn yr hydref.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr e-bost a nodi bod BT ac Openreach yn ddau gwmni ar wahân bellach. Hefyd nodwyd fod gan Graigfechan a Phentrecelyn wasanaeth ffibr cyflym iawn, ond gallai fod yn gryn amser nes ymdrin ag anghenion ardal Llanfair.

Hefyd **PENDERFYNWYD** anfon llythyr at Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych ynghylch cais y Cynghorydd Bob Barton y dylid gwahodd trigolion Llanfair i gyfarfod y mae'r Cynghorydd Sir Martyn Holland yn gobeithio ei drefnu gyda'r Gweinidog.

362.5 Cynrychiolwyr leuenticid

PENDERFYNWYD bod y Clerc yn anfon llythyr i Ysgol Brynhyfryd, Ruthin School, Coleg Cambria Llysfasi a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Clwyd gyda gwahoddiad agored i bobl ifanc ddod i gyfarfodydd y Cyngor Cymuned, gan roi cyfle iddynt gymryd rhan yng ngweithgareddau'r gymuned leol.

362.6 Cynlluniau ar gyfer adeilad yr hen ysgol ar ôl adleoli'r ysgol

Cyflwynwyd – llythyr wedi'i lunio gan grŵp llywio'r Cynllun Cymuned i'w anfon at Gyngor Sir Ddinbych i gael gwybod am unrhyw gynlluniau a wnaed eisoes.

PENDERFYNWYD bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych a'r Eglwys yng Nghymru ar y mater hwn.

363 COFNODION

PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Medi 2017 a'u llofnodi gan yr Is-gadeirydd, yn amodol ar ychwanegu '£250 am bob bin ar gyfer biniau sbwriel ychwanegol' dan gofnod cyfeirnod 356.1.

364 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad/ Cyfeirnod	Gweithred	Gan bwy?	Statws
17/05/17 311.3	Pont Eyarth	Y Clerc	Mae'r arwydd cyfyngiad pwysau yn y lleoliad anghywir, angen bod

			ymhellach oddi wrth y bont i yrwyr ei weld mewn da bryd
03/07/17 325.2	Dewisiadau Arafu Traffig - Graigfechan	Y Clerc a Marc Musgrave	Arwyddion terfyn cyflymder i ragrybuddio gyrwyr yn parhau i aros am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Marciau ar y ffordd yng Nghraigfechan yn wael ac angen eu gwneud yn gliriach
03/07/17 346.1	Ysgol Llanfair newydd arfaethedig	Y Clerc	Aros am y cais cynllunio llawn
04/09/17 351.1	Pibell nwy prif gyflenwad		
	Rhoi llythyr i drigolion ar y wefan	Y Clerc	Cwblhawyd
	Gwahoddiad i Miri Meithrin, llety bach Gorsaf Eyarth a ffermydd cyfagos i ymuno yn yr ymgyrch	Cyng. Moira Edwards	Wedi ei oedi, yn dibynnu ar y llwybr a ddewisir ar gyfer y bibell nwy
351.2	Diffibrilyddion	Y Clerc	Dim diffibrilydd ar gael yng Nghanolfan Genus
351.5	Codi arian – loteriau a ganiateir	Cyng. Paul Weston	Canfod pa gynghorau yn Lloegr sy'n cynnal loteri bach
351.6	Niwsans sŵn	Y Clerc	Wedi hysbysu Cyngor Sir Ddinbych, aros am ymateb. Anfon neges atgoffa arall
354.1	Cronfa Eich Cymuned Eich Dewis	Y Clerc	Rhagor o fanylion wedi'u hanfon at Gynghorwyr
356.1	Trosolwg o Wasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	Y Clerc	Gwnaed cais am restr o finiau a leolir yn ardal y Cyngor Cymuned, aros am ymateb. Anfon neges atgoffa
356.2	Ymgynghoriad Map Rhwydwaith Integredig Cyngor Sir Ddinbych	Y Clerc	Gofyn i'r grŵp Cynllun Cymuned edrych ar a gwneud sylwadau ar y ddogfen
356.3	Gwaith trwsio brys i'r Gofeb Rhyfel	Y Cadeirydd / Is-gadeirydd	Wedi rhoi awdurdod i gomisiynu gwasanaethau adeiladwr i ailosod y cerrig copa
	Hysbysiad Trwsio	Y Clerc	Cwblhawyd
	Plac i gofio am y rhai a fu farw mewn damwain awyren	Y Clerc	Ymchwilio i hyn
	Grantiau tuag at gost y gwaith trwsio terfynol	Y Clerc	Gwaith yn parhau
357.2	Codi arian	Cynghorwyr Jayne	Ffurio grŵp i edrych ar gyfleoedd codi arian

		Mayers, Keith Mouldale a Paul Weston	
358	Cyfeiriadau e-bost Cynghorwyr a defnyddio platfform HWB Llywodraeth Cymru	Y Clerc	Cysylltwyd gydag Amy Selby, Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch cyfeiriadau e-bost sirddinbych.gov.uk, aros am ymateb. Anfon neges atgoffa
359	Costau cyflog y Clerc	Y Clerc	Swm wrth gefn wedi'i ychwanegu at gyllideb braesept ddrafft 2018/19 i dalau am oriau ychwanegol

365 GOHEBIAETH

365.1 Democratiaeth Leol a Chomisiwn Ffiniau Cymru – Llythyr dyddiedig 12 Medi 2017 – Gwahoddiad i ddod i gyflwyniad ar Adolygu Trefniadau Etholiadol Sir Ddinbych yn Rhuthun ar 17 Hydref.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynd i'r cyfarfod gyda'r Comisiwn Ffiniau ar 17 Hydref.

365.2 Un Llais Cymru – cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd Pwyllgor Ardal. Nodwyd bod y Cynghorydd Bob Barton eisoes yn mynychu'r cyfarfodydd yn ei swyddogaeth fel un o swyddogion y Gymdeithas.

365.3 Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych – Cynrychiolydd Cyngor Tref/Cymuned. Neges e-bost dyddiedig 2 Hydref 2017 yn gofyn a oedd unrhyw aelod yn dymuno ymgeisio. Y dyddiad cau yw dydd Llun, 6 Medi. Cyfweiliadau i'w cynnal yn ystod wythnos 15 Tachwedd yn HWB Dinbych. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn chwilio am aelod i fod ar y panel cyfweled a rhaid anfon mynegiad o ddiddordeb erbyn y drydedd wythnos ym mis Hydref.

PENDERFYNWYD bod y Clerc yn anfon yr e-bost yn gofyn am fynegi diddordeb at yr aelodau eto.

366 CYNLLUNIO

366.1 Cais 20/2017/0891 – Lleihau coron un goeden ywen yn ardal gadwraeth Llanfair D C – Eglwys Sant Cynfarch a'r Santes Fair,
PENDERFYNWYD cefnogi'r cais.

366.2 Cyngor Sir Ddinbych – Galw am safleoedd sipsiwn a theithwyr arfaethedig

Cyflwynwyd – Llythyr dyddiedig 8 Medi 2017 oddi wrth Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai

PENDERFYNWYD bod y Clerc yn anfon ateb i ddweud nad yw'r Cyngor Cymuned wedi medru adnabod tir addas.

366.3 Diweddariad ynghylch carafan yn Erw Fair, Llanfair D C

Cyflwynwyd - Neges e-bost dyddiedig 22 Medi 2017 oddi wrth Adam Turner, Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio, Cyngor Sir Ddinbych, yn datgan bod lleoliad

newydd y garafan wedi lleihau'r niwed i amwynder gweledol. Ei farn yw nad yw lleoliad y garafan yn cael unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar amwynder preswyl eiddo cyfagos. Ni fydd gweithredu pellach o ran y tor-amodau honedig.

Dywedodd y Clerc yr anfonwyd llythyr at Mr Paul Mead, Rheolwr Datblygu, i ofyn am eglurhad o ran

[a] lle mae'r ffin ar gyfer yr annedd. Os yw'r garafan y tu allan i ffin yr annedd yna mae'n parhau i fod yn groes i gyfraith cynllunio?

[b] defnydd presennol. Os oes gan y perchennog garafan deithiol ar dir ei annedd, fel y dywed un o'r trigolion lleol, ni ellir dweud bod y garafan statig yn cael ei defnyddio ar gyfer mwynhad yr annedd gan ei bod yn cal ei defnyddio fel estyniad i'r annedd. Yn yr un modd, awgryma Adam Turner bod hyn oherwydd bod golwg y garafan yn awr fel eiddo sy'n gysylltiedig yn swyddogaethol gyda'r annedd. A fydd angen caniatâd cynlluno ar gyfer hyn?

[c] y 'niwsans' i'r gymuned lle bo'r eiddo yn cael ei ddefnyddio i storio 'sgrap', gellid rhoi hen garafanau yn y categori hwn, ac sy'n cael ei ystyried fel niwsans gweledol gan y gymuned.

PENDERFYNWYD aros am ateb gan Mr Paul Mead.

367 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

367.1 Y Gofeb Rhyfel – Diweddariad ar waith trwsio brys. Gwnaeth D P Williams, Building Services, waith i ailosod y cerrig copa sy'n bodoli ar y Gofeb ar 2 Hydref 2017. Y gost fydd £380.00, heb gynnwys Treth ar Werth.

PENDERFYNWYD [a] Bod yr aelodau'n cymeradwyo'r gweithredu

[b] Gofyn i'r Clerc gysylltu gyda [i] saer maen yn Rhuthun ynghylch cost plac i gofio am y rhai a fu farw mewn damwain awyren yn lleol yn ystod yr Ail Ryfel Byd [cais Mr John Harrop yn cyfeirio at hyn] [ii] perthynas i Mr Fuller i gael rhagor o wybodaeth fel y gellir ychwanegu ei enw ar y Gofeb.

367.2 Cynnal a Chadw Priffyrdd – Cwynodd trigolyn am y diffyg cynnal a chadw'n gyffredinol a'r llysdyfiant ar lwybrau cerdded, er gwaethaf pob ymgais i dynnu sylw'r Cyngor Sir at hyn ar sail iechyd a diogelwch. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir ynghylch y diffyg ymateb i gwynion trigolion.

367.3 Cŵn yn baeddu PENDERFYNWYD bod y Clerc yn trefnu cael arwyddion i'w rhoi ar y polion lamp.

367.4 Mesurau Arafu Traffig

PENDERFYNWYD bod y Clerc yn gwahodd Mr Ben Wilcox-Jones, Uwch Beiranydd – Diogelwch Ffyrdd a Chludiant Cynaliadwy, i gyfarfod y Cyngor Cymuned yn y dyfodol fel siaradwr gwadd.

RHAN 2 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur cyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

368 MATERION ARIANNOL

368.1 Datganiad Ariannol Cyflwynwyd – Crynodeb o'r Datganiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2017. Cynghorodd y Clerc mai'r balans yn y banc ar 30 Medi 2017 oedd £7,420.81 yn y Cyfrif Cymuned a £1,022.67 yn y Cyfrif Busnes. Yn dilyn ystyried y taliadau i'w talu, roedd hyn yn gadael £6,726.17 o gronfeydd ar gael yn y Cyfrif Cymuned ar 2 Hydref. Tynnodd y Clerc sylw at yr addasiadau a oedd yn

ofynnol, ac ystyried cyllid a glustnodwyd ar gyfer costau etholiad yn 2016/17 i'w gario trosodd i 2017/18 - £1,600.00.

PENDERFYNWYD derbyn y datganiad ariannol a chymeradwyo'r addasiadau.

368.2 Talu Cyfrifon / Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

[a] £130.14 Gwasanaeth Cyfieithu Sandra Williams – Llythyr Pibell Nwy prif gyflenwad a Chofnodion 05/06/17 [Awgrymodd y Cynghorydd Bob Barton ystyried gofyn i fyfyrwyr ymgymryd â gwaith cyfieithu]

[b] £184.05 Swyddfa Archwilio Cymru – Ffi Archwilio Cyfrifon 2016/17

[c] £180.45 Hawliad treuliau'r Clerc, 1 Gorffennaf – 30 Medi 2017

Adroddodd y Clerc ei bod hi a'r Cynghorydd Keith Mouldsdale wedi cyfarfod gyda Mr Chris Birchall ar 11 Medi 2017 i gael hyfforddiant ar ddefnyddio a gwneud newidiadau i wefan y Cyngor Cymuned. Argymhellodd Mr Birchall gael lletywr newydd yn lle UK2 fel bo'r enw parhau yn parhau mewn un lle. Mae cost yr hyfforddiant a'r tanysgrifiad newydd yn debygol o fod oddeutu £170.00. Cytunodd yr aelodau i fwrw ymlaen gyda gweithredu, fel bo angen.

368.3 Praesept drafft ar gyfer 2018/19 Cyflwynwyd – Praesept drafft ar gyfer 2018/19. **PENDERFYNWYD** y byddai'r Cynghorwyr John Pugh, Jayne Mayers a Paul Weston yn cyfarfod gyda'r Clerc i drafod y praesept drafft ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

368.4 Hyfforddiant Cymeradwyodd yr aelodau

[a] bod y Clerc yn mynd ar gwrs Cyllid Un Llais Cymru yng Nghoedpoeth ar 26 Medi a

[b] bod y Cynghorydd Bob Barton yn mynd ar cwrs Cyllid Un Llais Cymru i'w gynnal ar 7 Tachwedd.

369 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL [Yr holl gyfarfodydd i ddechrau am 7pm]

6 Tachwedd [Canolfan Genus, Llanrhydd], 4 Rhagfyr 2017 [Ysgol Pentrecelyn], 8 Ionawr [Canolfan Genus, Llanrhydd] a 5 Mawrth 2018 [Ysgol Llanfair]

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod datganodd y Cynghorydd Jayne Mayers bod y cyfarfod wedi gorffen am 9.30 pm.

Jayne Mayers _____ CADEIRYDD Y CYFARFOD _____
DYDDIAD

John Pugh _____ CADEIRYDD Y CYNGOR _____
DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd, Rhuthun, nos Lun, 6 Tachwedd 2017 am 7 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Bob Barton [rhan o'r cyfarfod], Wini Davies,

Moira Edwards, Tim Faire, Jayne Mayers [Is Gadeirydd], John Pugh [Cadeirydd], Medwen Roberts, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – Deuddeg aelod o'r cyhoedd, y Cynghorydd Hugh H Evans OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych a Mr Ben Wilcox-Jones, Uwch Beiriannydd – Diogelwch y Ffyrdd a Chludiant Cynaliadwy, Cyngor Sir Ddinbych [siaradwr gwadd].

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorwyr David Baker a Keith Mouldsdale [salwch]

RHAN 1

370 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd John Pugh o ran Neuadd Eleanor ac fel Llywodraethwr Ysgol Llanfair.

371 MATERION CYMUNEDOL

371.1 Nwy prif gyflenwad Adroddwyd mai dyddiad cau yr arolwg yw 31 Hydref 2017. Y canlyniad yw bod 182 eiddo [yn cynnwys y 63 eiddo Pure] o'r 212 yn y categori "mynegi cefnogaeth mewn egwyddor". Gwrthododd 30. Bydd Wales & West Utilities yn rhoi dyfynbris cadarn os cyrhaeddir y lefel derbyn. Bwriedir cynnal arolwg pen desg i gynhyrchu dyfynbrisiau unigol ar gyfer pob eiddo. Unwaith y cyrhaeddir y gyfradd dderbyn gallai gymryd hyd at 27 wythnos i gwblhau'r gwaith. Mae nifer o gynlluniau grant ar gael sy'n cynnig cyllid tuag at welliannau ynni yn y cartref. Diolchwyd i'r Cynghorydd Moira Edwards am ei gwaith caled a'i chyfraniad i'r arolwg.

371.2 Diffibrilyddion Adroddwyd bod sesiwn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd wedi ei drefnu yn nhafarn y Three Pigeons Inn, Graigfechan, ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd, yn dechrau am 1pm. Mae gwahanol fudiadau yn y gymuned wedi addo arian tuag at yr ymdrech codi arian i brynu offer. Cafwyd trafodaeth ar y lleoliad gorau yng nghanol pentref Graigfechan.

371.3 Cynllun Cymunedol Adroddwyd bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn gofyn am adborth ar y cynllun llesiant lleol drafft diweddaraf, gyda chopi wedi'i ddsbarthu i'r Cynghorwyr a'r Gweithgor Cynllun Cymunedol. Mae'r adroddiad drafft yn adlewyrchu'r hyn a gynhyrchwyd yn Llanfair hyd yma, ond mae angen cynnwys dewisiadau eraill fel siop a busnesau micro eraill a lleoliadau eraill yn y cynllun. Mae'r grŵp yn cynhyrchu holiadur i baratoi ar gyfer yr arolwg a gyllidwyd gan Gadwyn Clwyd.

PENDERFYNWYD [a] trafod y dogfennau yn y cyfarfod Cyngor i'w gynnal ar 4 Rhagfyr, [b] anfon copi o'r Cynllun Cymunedol i Gyngor Sir Ddinbych fel bod swyddogion yn ymwybodol o'r dewisiadau yn y gymuned a allai gyd-fynd â Chynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych, a [c] gwneud trefniadau i'r Grŵp Cynllun Cymunedol gyfarfod gyda swyddogion Cyngor Sir Ddinbych.

371.4 Band eang Adroddwyd bod y Cynghorydd Sir Martyn Holland wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yn Llanarmon yn lâl ar 7 Rhagfyr 2017, dan arweiniad Darren Millar AC. Amser a lleoliad i'w gadarnhau. Estynnir gwahoddiad i ddau gynrychiolydd o Gyngor Cymuned Llanfair DC fynd i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd Bob Barton ynghyd â'r Cynghorydd Jayne Mayers neu'r Cynghorydd Paul Weston yn mynd i'r cyfarfod ar ran y Cyngor ar 7 Rhagfyr.

371.5 Cynrychiolwyr leuenctid Adroddwyd bod y Clerc wedi ysgrifennu at Ysgol Brynhyfryd, Ruthin School, Coleg Llysfasi a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Clwyd yn estyn gwahoddiad agored i bobl ifanc ddod i gyfarfodydd y Cyngor Cymuned ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol lleol.

PENDERFYNWYD cymryd camau i gynnwys pobl ifanc yn y broses cynllunio cymunedol a'r arolwg a gyllidir gan Gadwyn Clwyd.

371.6 Cynlluniau ar gyfer adeilad yr hen ysgol ar ôl adleoli'r ysgol

Adroddwyd bod y Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych a'r Eglwys yng Nghymru. Derbyniwyd cadarnhad mai Bwrdd Cyllid Esgobaeth Llanelwy sy'n gyfrifol am adeilad yr ysgol mewn ymddiriedolaeth. Derbyniwyd llythyr gan Karen Evans, Pennaeth Addysg Cyngor Sir Ddinbych, hefyd yn datgan y gallai datblygu safle tir yr eglwys fel ysgol ryddhau'r safle presennol fel safle tai i gynorthwyo i fodloni'r galw am dai. Bydd ymgysylltu gyda'r gymuned ar y dewisiadau posibl ar gyfer y safle presennol yn cael ei gynnal fel yr amlinellwyd yn Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor Sir.

372 COFNODION

PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

373 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
17/05/17 311.3	Pont Eyarth Y Clerc Mae'r arwydd cyfyngiad pwysau yn y lleoliad anghywir, angen bod ymhellach oddi wrth y bont i yrwyr ei weld mewn pryd. Hysbyswyd yr adran Prifffyrdd. Bydd y gwaith pwyntio a ddechreuwyd yn parhau yr haf nesaf. Mae'r gwelliannau i ddraeniad y briffordd rhwng y gefnffordd a'r bont yn parhau, ond bydd angen cau'r ffordd am benwythnos. Mae cerbydau mawr yn parhau i deithio trwy'r pentref. Anfon llythyr i Gyngor Sir Ddinbych eto.
06/11/17	
03/07/17 325.2	Dewisiadau arafu traffig yng Ngraigfechan Y Clerc a Marc Musgrave Arwyddion terfyn cyflymder ymlaen llaw yn parhau i aros am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r marciau ar y ffordd yng Ngraigfechan yn wael ac angen eu gwneud yn gliriach. Aros am ateb. Mae problem gyda char wedi parcio gyferbyn â The Smithy. Hysbysu'r heddlu a gwneud cais i fonitro'r traffig yn gynnar yn y bore cyn 9 o'r gloch.
03/07/17 346.1	Ysgol Llanfair newydd arfaethedig Y Clerc Cais llawn wedi'i dderbyn. Ymateb i'r anfon erbyn 08/11/17.

04/09/17 351.1	Nwy prif gyflenwad Gwahoddiad i Miri Meithrin, Gwesty Gorsaf Eyarth a ffermydd cyfagos i ymuno yn yr ymgyrch. Y Cyngorydd Moira Edwards Wedi ei atal ar hyn o bryd nes ceir gwybod am lle fydd y bibell yn cael ei gosod.
351.5	Codi arian – Loteriau a ganiateir Y Cyngorydd Paul Weston Anodd dod o hyd i enghraifft dda. Ystyried cofrestru gyda Chyngor Sir Ddinbych.
351.6	Niwsans sŵn Y Clerc Hysbyswyd Cyngor Sir Ddinbych. Monitro'n digwydd ond dim rhagor o achosion.
356.1	Trosolwg Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Y Clerc Gofynnwyd am restr o finiau sbwriel yn ardal y Cyngor Cymuned. Aros am ateb. Anfonwyd dau lythyr atgoffa, trydydd i'w anfon.
356.3 & 367.1	Y Gofeb Rhyfel Cadeirydd / Is gadeirydd Rhoddwyd awdurdod i gomisiynu gwasanaeth adeiladwr i gynnal gwaith trwsio brys i ailosod y cerrig copa. Y gwaith wedi'i gwblhau.
02/10/17 367.1	Plac i goffâu'r rhai a fu farw mewn damwain awyren yn unol â chais Mr John Harrop Y Clerc Gofynnwyd am ddyfynbrisiau yn cynnwys glanhau ac ailbaentio'r arysgrifiadau ar y Gofeb Rhyfel.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb. Y Clerc Gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas.
	Grant tuag at gost y gwaith trwsio terfynol. Y Clerc Gwaith yn parhau
04/09/17 358	Cyfeiriadau e-bost Cyngorwyr a defnyddio plattform Hwb Llywodraeth Cymru Y Clerc Derbyniwyd ateb gan Amy Selby, Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch cyfrifon e-bost sirddinbych.gov.uk. Mae'n debygol bod y dewis hwn yn anaddas. Yr ymholiad i'w gyfeirio at Liz Grieve yng Nghyngor Sir Ddinbych
06/11/17	

374 GOHEBIAETH

374.1 Gwahoddiad i Wasanaeth Carolau Cyngor Sir Ddinbych, Eglwys Sant Tomos, Y Rhyl, nos Lun, 4 Rhagfyr 2017 – E-bost dyddiedig 3 Hydref 2017 gan Sue License, Cyngor Sir Ddinbych. Nodwyd.

374.2 Adolygiad y Sector Cyngorau Tref a Chymuned – E-bost dyddiedig 3 Hydref 2017 gan Banel Adolygu Annibynnol Llywodraeth Cymru

AdolygiadCTC.Review@gov.wales

Mae'r Panel yn awyddus i glywed barn ynghylch:

Beth ddylai Cynghorau Tref a Chymuned fod yn gyfrifol amdano?
Sut y dylent weithredu?
Beth sy'n eu rhwystro rhag cyflawni ar ran y gymuned leol?
Sut mae Cynghorau'n sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol yn y ffordd orau?
Disgwylir i'r adolygiad hwn gymryd oddeutu blwyddyn.

Mae Un Llais Cymru wedi trefnu digwyddiad ymgynghori ddydd Mercher, 29 Tachwedd 2017 yng Nghyngor Tref y Waun rhwng 2pm a 4pm.
PENDERFYNWYD [a] y dylai'r Clerc anfon e-bost at yr holl Gynghorwyr i weld pwy sy'n dymuno mynd a [b] gohirio trafodaeth ar y mater tan y cyfarfod ar 4 Rhagfyr.

374.3 Adolygiad Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2018 – Cynigion diwygiedig – Llythyr dyddiedig 16 Hydref 2017 www.bcomm-wales.gov.uk Dyddiad cau ar gyfer sylwadau – 11 Rhagfyr 2017
PENDERFYNWYD gohirio trafodaeth ar y mater tan y cyfarfod ar 4 Rhagfyr.

374.4 Adolygiad Trefniadau Etholaethol yn Sir Ddinbych
Dau lythyr dyddiedig 25 Hydref 2017 www.ldbc.gov.wales Dyddiad cau ar gyfer sylwadau – 23 Ionawr 2018.
Aeth y Cynghorydd Moira Edwards i gyfarfod briffio ar 17 Hydref. Bydd yr Adolygiad hwn, nad yw'n ymwneud ag etholaethau seneddol, yn dechrau yn Ionawr 2018 a bydd yn gorffen yn y Gwanwyn 2021. Bydd yr Adolygiad yn cynnig patrwm wardiau etholaethol ar gyfer ardal y Cyngor cyfan ac nid lle bo anghydraddoldeb etholaethol yn unig. Mae Sir Ddinbych yn ardal Categori 4. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu y dylai Cynghorau Categori 4 gael cymhareb cynghorydd i'r boblogaeth o 1:2,000. Ar hyn o bryd mae gan Sir Ddinbych 76,292 o etholwyr ac aelodaeth o 47, sy'n gyfartaledd o 1 cynghorydd i 1,623 o etholwyr. Bydd yr Adolygiad yn edrych ar newidiadau i Ddinbych Uchaf/Henllan; Llanbedr DC/Llangynhafal a Llandrillo.

PENDERFYNWYD gohirio rhagor o drafodaeth am y mater tan y cyfarfod ar 4 Rhagfyr.

374.5 Swydd wag Llywodraethwr Ysgol – Ysgol Pentrecelyn – E-bost dyddiedig 2 Tachwedd 2017 gan Sarah Wynne, Cadeirydd y Llywodraethwyr.
PENDERFYNWYD cyflwyno enw'r Cynghorydd Medwen Roberts fel ymgeisydd i'w hystyried.

375 CYNLLUNIO – www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

375.1 Cais 20/2017/0819 Datblygu 1.24 hectar o dir trwy adeiladu ysgol gynradd newydd yn cynnwys ardaloedd chwarae allanol, ardal cynefin, ffurfio mynediad newydd i gerbydau, maes parcio gyda man gollwng, tirlunio, storfa biniau, nwy petroliwm hylifol a thanciau chwistrellu – Tir yr eglwys gyferbyn â Bron y Clwyd, Llanfair DC

Adroddwyd bod y Cadeirydd wedi gofyn i'r Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, am gyfarfod gyda chynrychiolwyr Addysg a Thai i drafod y cynnig i gael nwy prif gyflenwad, p'un ai y bydd cais ar wahân ar gyfer llwybr i gysylltu'r datblygiad tai arfaethedig gyda Bron y Clwyd, pryderon am fesurau arafu traffig yn y pentref ac a ydynt yn ddigonol. Cynhaliwyd y cyfarfod ar 19 Hydref 2017, gyda'r Cynghorwyr

John Pugh, Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Moira Edwards yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned, ac roedd y Clerc yn bresennol hefyd.

Mynegodd yr Arweinydd ddiddordeb yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned i ganfod rhagor am ddefnyddio Tueddfryd Optimistiaeth [rhan o reolau 'Llyfr Gwyrdd' y Trysorlys ar gyfer caffael cyhoeddus] y gellid ei ddefnyddio gyda phrosiectau fel yr ysgol newydd wrth asesu datrysiadau ynni adnewyddadwy, er enghraifft. Adroddwyd hefyd y bydd paneli solar yn cael eu gosod.

PENDERFYNWYD cytuno i gefnogi'r cais mewn egwyddor. Er bod cyfeiriad at lwybr i gysylltu'r datblygiad tai arfaethedig trwy Fron y Clwyd i'r ysgol nid yw'n cael ei ddangos yn benodol yn y dogfennau a gyflwynwyd. Roeddynt hefyd am gael sicrwydd ynghylch rheoli traffig, yn cynnwys y mesurau arafu traffig, a ph'un ai ydynt yn ddigonol trwy'r pentref ac i ac o'r ysgol newydd. Bydd y datblygiad yn cael effaith ar drigolion p'un ai ydynt yn byw wrth ffin yr ysgol newydd neu'r llwybr cyswllt a gobeithir y bydd rhagor o drafodaethau gyda'r rhai a fydd yn cael eu heffeithio mewn modd cadarnhaol a sensitif. Mynegodd yr aelodau y byddai'n well ganddynt weld nwy prif gyflenwad yn cael ei ddefnyddio yn lle nwy petroliwm hylifol a gofynnwyd am weld unrhyw amodau'n gysylltiedig â'r cynlluniau.

375.2 Cais 20/2017/0771 Newid defnydd storfa llawr cyntaf uwchben garej sy'n bodoli eisoes i lety atodol – The Barn, Pentre Coch, Rhuthun

PENDERFYNWYD nad oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r cais a nodir nad oes unrhyw newidiadau gweledol.

375.3 Cais 20/2017/0955 Adnewyddu a gosod ffenestri dormer newydd mewn annedd – Bryn Creigiog, Graigfechan, Rhuthun

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cefnogi'r cais yn llawn, mae'n fwy o waith trwsio modern nag addasiad.

375.4 Cais 20/2016/1137 Datblygu tir ar gyfer tai yn Llanfair DC Adroddwyd bod yr Adran Gynllunio wedi ymrwymo i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus unwaith y bo'r manylion yn dangos gwahanol rannau'r datblygiad yn cael eu cyflwyno a bydd adroddiad yn mynd i'r Pwyllgor Cynllunio. Ers llofnodi dogfennau Adran 106 maent yn disgwyl am ymateb gan y Cynllunwyr.

375.5 Diweddariad ar yr Ymgynghoriad ar Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Cytundeb Cyflawni Drafft ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd – dyddiad cau ar gyfer sylwadau – 20 Hydref 2017. Mae'r ddogfen yn cynrychioli disgrifiad eang heb unrhyw fanylion manwl. Mae'r Adolygiad yn cadarnhau na wnaeth y targed adeiladu tai gyrraedd y ffigurau a ragamcanwyd o bell ffordd. Mae gan Llanfair DC dri safle dynodedig – [a] cae'r Ficerdy [bydd ysgol yno yn awr] [b] Bryn Clwyd a [c] thu ôl i'r groesffordd ym Mron y Clwyd [bellach wedi ei gynnwys yn y datblygiad arfaethedig o 63 o dai]. Gofynnwyd cwestiynau am statws safle'r ysgol bresennol mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae Adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gamau cynnar iawn ac ni chynhaliwyd adolygiad o'r dyraniadau tir sy'n bodoli eisoes eto. Bydd ymgynghori ar unrhyw ddyraniadau tir arfaethedig yn digwydd maes o law.

375.6 Carafan yn Erw Fair Adroddwyd bod Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio Cyngor Sir Ddinbych wedi ysgrifennu at y perchennog i ailadrodd bod angen

cydymffurfio gyda'r hysbysiad i symud y garafan o Erw Fair. Er bod y garafan wedi ei symud i safle sy'n nes at yr annedd, ymddengys ei fod yn parhau ar dir amaethyddol. Rhoddwyd 21 diwrnod calendr [o 10 Hydref 2017] i'r perchennog symud y garafan i safle sydd y tu mewn i gwrtil yr annedd.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Swyddog Cydymffurfio hysbysu'r Cyngor Cymuned am y datblygiadau.

376 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

Siaradwr gwadd – Mr Ben Wilcox-Jones, Uwch Beiriannydd – Diogelwch Ffyrdd a Chludiant Cynaliadwy, Cyngor Sir Ddinbych Cyflwynodd Mr Wilcox-Jones drosolwg o'i gyfrifoldeb a dilynwyd hynny gan sesiwn cwestiwn ac ateb.

Esboniodd bod y data ar gyfer terfynau cyflymder/monitro traffig yn cael ei gasglu yn unol â dulliau cofnodi a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae'r cofnodion yn dangos lleihad yn y cyflymderau uchel yn yr ardal ond cydnabu bod goryrru yn fater sy'n parhau i fod angen ymdrin ag ef. Gofynnwyd am gopi. Nid oes unrhyw ddata gwrthdaro neu anafiadau wedi eu cofnodi ar gael. Mae'n ofynnol cael yr heddlu i gymeradwyo terfyn cyflymder 20 milltir yr awr gorfodol. Mae terfyn cyflymder 20 milltir yr awr gwirfoddol yn bodoli wrth Ysgol Llanfair.

Holwyd hefyd am gamerâu cyflymder sefydlog, goleuadau traffig, mesurau arafu traffig yng Ngraigfechan, arwyddion blaenoriaeth, arwyddion rhybudd ymlaen llaw, blychau cyflymder, parcio y tu allan a manau gollwng ar gyfer yr ysgol newydd yn Llanfair a'r diffyg cyfleusterau i gerddwyr. Mae angen cyllid allanol i weithredu rhai os nad y cyfan o'r mesurau hyn. Cyflwynwyd awgrym i Gyngorau Cymuned cyfagos ystyried ariannu ar y cyd, o ffynonellau fferm wynt er enghraifft, ar gyfer cynlluniau wedi'u blaenoriaethu yn y dyfodol.

Dywedodd Mr Wilcox-Jones y byddai'n mynd â'r sylwadau yn ôl i'r Cyngor Sir. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei bresenoldeb a'i gyfraniad i'r cyfarfod.

RHAN 2 PENDERFYNWYD eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

377 MATERION ARIANNOL

377.1 Cais am Gymorth Ariannol – Nyrsus Marie Curie

PENDERFYNWYD gohirio'r penderfyniad tan gyfarfod mis Mawrth.

377.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau

PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

[a] £40.00 Un Llais Cymru – Y Clerc wedi mynd ar gwrs hyfforddiant Cyllid 26/09/17

[b] £155.70 – Gwasanaeth Cyfieithu Sandra Williams – Cofnodion 03/07/17 a 07/08/17

[c] £380.00 – D P Williams, Building Services – Gwaith trwsio brys i'r Gofeb Rhyfel

377.3 Praesept ar gyfer 2018/19

Cyflwynwyd Drafft 2 i'w ystyried. Argymhellwyd cynyddu'r penawdau cost a ganlyn i fodloni'r costau cynyddol a galwadau prosiectau newydd ar y gyllideb – cyflog y cler, hysbysebion swydd, gwaith trwsio a chynnal a chadw, hyfforddiant/cynadleddau/costau teithio aelodau, ffi archwilio allanol, gweithgareddau'r cynllun cymunedol, trwsio'r gofeb rhyfel a dodrefn stryd [costau biniau sbwriel a diffibrilyddion].

PENDERFYNWYD [a] cymeradwyo Drafft 2 fel y'i cyflwynwyd a chyflwyno cais am braesept o £25,403 a [b] bod y Clerc yn trefnu i'r Cyngor Cymuned gael ei gofrestru ar gyfer gweithgareddau loteriau bach gyda'r Cyngor Sir ar gost o £40.

378 SUL Y COFIO 12 TACHWEDD 2017

Adroddwyd bod y dorch wedi ei derbyn ond ni fyddai'r Heddlu ar gael oherwydd galwadau eraill ar y llu ar y diwrnod.

379 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

[Yr holl gyfarfodydd i ddechrau am 7pm]

4 Rhagfyr [Ysgol Pentrecelyn]

8 Ionawr [Canolfan Genus, Llanrhydd LL15 2UP]

Gan nad oedd rhagor o fusnes cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi dod i ben am 9.40 pm.

John Pugh _____ CADEIRYDD _____
DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITYCOUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Pentrecelyn nos Lun 4 Rhagfyr 2017 am 7pm.

PRESENNOL - Y Cynghorwyr David Baker, Wini Davies, Jayne Mayers [Is-gadeirydd], Keith Mouldsdale, John Pugh [Cadeirydd], Medwen Roberts ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 4 aelod o'r cyhoedd a Mr Tomos Hughes, Achub Calon y Dyffryn.

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorwyr Moira Edwards, Tim Faire [salwch] a Paul Weston [dim gofal plant ar gael]

RHAN 1

380 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd David Baker yng nghyswllt yr Eglwys; y Cynghorydd John Pugh yng nghyswllt Neuadd Eleanor [ymddiriedolwr] ac Ysgol Llanfair DC [llywodraethwr]; a'r Cynghorydd Keith Mouldsdale yng nghyswllt Neuadd Eleanor [ymddiriedolwr] a'r Eglwys.

381 MATERION CYMUNEDOL

381.1 Nwy prif gyflenwad - Anfonwyd y manylion at gwmni Wales & West Utilities yn unol â'r dyddiad cau ar gyfer 'mynegi diddordeb mewn egwyddor' i'r cynnig erbyn 31 Hydref 2017. Adroddodd y Clerc bod y cwmni cyfleustodau yn parhau i aros am ganlyniadau ymweliad safle gan fod yr wybodaeth hon yn ofynnol cyn bwrw ymlaen gyda dyfynbrisiau pendant. Rhaid cynnal asesiad o ran lleoliad addas ar gyfer gorsaf lleihau gwasgedd. Bydd y cwmni yn diweddarau'r Cyngor Cymuned ynghylch y cynnydd gyda'r mater hwn.

381.2 Diffibrilyddion

Cyflwynodd Mr Tomos Hughes, Achub Calon y Dyffryn, flwch a diffibrilydd Zoll i'r Cyngor Cymuned ar ran Graig Aid. Roedd Graig Aid wedi rhoi cyfraniad hael iawn o £1,304.90 tuag at gost diffibrilydd ar gyfer Graigfechan. Esboniodd Mr Hughes bod gwarant pum mlynedd ar y diffibrilydd, bod angen newid y batris bob tair blynedd, argymhellir bod dau neu dri o wirfoddolwyr yn gwirio'r offer unwaith yr wythnos a dywedodd bod adnewyddu rhannau a'r hyfforddiant am ddim. Derbyniodd yr aelodau ei gynnig i ymweld â'r pentref i asesu'r lleoliad gorau ar gyfer yr offer. Hefyd adroddwyd bod yr ymateb gan Gapel Ebeneser yn gadarnhaol ac na fyddai unrhyw wrthwynebiad i osod peiriant ar wal ochr y ffordd y capel ac i'r Cyngor gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio er mwyn gwneud hynny. Fodd bynnag, codwyd rhai pwyntiau gan y capel - [a] bod y ffordd yn gul iawn yn y lleoliad hwnnw a bob traffig trwm trwy'r amser a [b] bod yr adeilad yn un rhestredig Gradd II y tu mewn a'r tu allan [o ran ceblau ac ati]. Hefyd adroddwyd bod y gwaith codi arian yn mynd yn dda tuag at brynu diffibrilydd ar gyfer Ysgol Pentrecelyn.

PENDERFYNWYD [a] gofyn i'r Clerc anfon llythyr o ddiolch i Graig Aid a Chapel Ebeneser.

- [b] gosod y diffibrilydd a brynwyd gyda chyfraniad gan Graig Aid yn nhafarn y Three Pigeons nes y gellir dod o hyd i leoliad parhaol addas yng nghanol y pentref.
- [c] bydd y penderfyniad terfynol ynghylch y lleoliad yn dibynnu ar y cyngor a dderbynnir gan Mr Tomos Hughes, Achub Calon y Dyffryn
- [ch] cynnwys y diffibrilydd ar Gofrestr Asedau'r Cyngor a hysbysu'r cwmni yswiriant.
- [d] gosod arwyddion pan fo'r penderfyniad wedi'i wneud ynghylch y lleoliad parhaol.
- [dd] bod y Cyngor Cymuned yn gwneud cyfraniad tuag at y costau trydan.
- [e] cyhoeddi datganiad i'r wasg a rhoi copïau ar wefan a hysbysfyrdau'r Cyngor Cymuned.
- [f] diolch i'r Cynghorwyr Jayne Mayers a Paul Weston am eu hymdrechion yn sicrhau diffibrilyddion ar gyfer gwahanol leoliadau yn y gymuned.

381.3 Cynllun Cymunedol

Gohiriwyd y drafodaeth am y Cynllun Cymunedol drafft a Chynllun Llesiant drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2017. Mae trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal cyfarfod rhywbryd yn y dyfodol gyda swyddogion Cyngor Sir Ddinbych i weld sut y gellir alinio'r Cynllun Cymunedol gyda Chynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych. Nodwyd nad oes yr un Cynghorydd Cymuned yn aelod o'r grŵp llywio.

PENDERFYNWYD [a] bod y Cynghorydd Medwen Roberts yn dod yn aelod o'r grŵp llywio

- [b] ychwanegu cyhoeddi Newyddlen y Gymuned at y Cynllun Cymunedol.
- [c] newid enw'r Cynllun Cymunedol yn Gynllun Cymdogaeth Cyngor Cymuned Llanfair DC.

381.4 Band eang

Adroddwyd y bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal ar 7 Rhagfyr 201y yn yr Hen Ysgoldy, Llanarmon yn Iâl yn dechrau am 11.30am, a disgwylir i Weinidog o

Lywodraeth Cymru fod yn bresennol. Bu peth cynnydd yn y cyfamser gan y bydd cysylltiad ffibr optig ar gael yn Llanfair DC.

381.5 Pecyn Croeso i'r rhai sy'n ymweld â D C

Cyflwynwyd cais gan Gyngor yr Eglwys ynghylch y posibilrwydd o gynhyrchu pecyn croeso i bobl sy'n ymweld â Llanfair a ffurfio gweithgor bach i weithio ar hyn.

PENDERFYNWYD cefnogi'r cais am becyn croeso mewn egwyddor, a'i ychwanegu at y Cynllun Cymdogaeth i'w drafod yn fanylach.

382 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2017 a'u llofnodi fel cofnd cywir, yn amodol ar gywiro gwallau teipio yng nghofnodion rhif 371.2 a 374.4.

383 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, Gan byw a Statws
17/05/17 311.3 06/11/17 04/12/17	Pont Eyarth Clerc – mae'r arwydd cyfyngiad pwysau yn y lleoliad anghywir, mae angen iddo fod ymhellach oddi wrth y bont er mwyn i yrwyr ei weld mewn pryd. Hysbyswyd yr Adran Priffyrdd. Mae'r gwaith pwyntio wedi dechrau a bydd yn parhau yr haf nesaf. Mae'r gwelliannau i ddraeniad y briffordd rhwng y gefnffordd a'r bont yn parhau, ond bydd angen cau'r ffordd am benwythnos. Mae cerbydau mawr yn parhau i deithio trwy'r pentref. Hysbysu Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am hyn.
03/07/17 325.2 06/11/17 04/12/17	Dewisiadau Arafu Traffig Graigfechan Clerc a Marc Musgrave – arwyddion terfyn cyflymder ymlaen llaw yn parhau i aros am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Yr arwyddion ar y ffordd yng Ngrraigfechan yn wael ac angen cael eu gwneud yn gliriach. Aros am ateb. Mae problem gyda char yn parcio gyferbyn â'r Smithy. Hysbyswyd yr Heddlu a gwnaed cais i fonitro'r traffig yn gynnar yn y bore cyn 9 o'r gloch. Y canlyniad yw nad yw'r car yn rhwystro'r traffig.
03/07/17 346.1	Ysgol newydd arfaethedig Ysgol Llanfair DC Clerc – Y cais llawn wedi cyrraedd. Ymateb wedi'i anfon erbyn 08/11/17.
04/09/17 351.1	Nwy prif gyflenwad Gwahoddiad i Firi Meithrin, llety Gorsaf Eyarth a ffermydd cyfagos i fod yn rhan o'r ymgyrch. Cynghorodd y Cynghorydd Moira Edwards bod hyn wedi ei oedi nes ceir gwybod pa lwybr a ddewisir ar gyfer y bibell nwy.
351.5 06/11/17 04/12/17	Codi arian – Loteriau a ganiateir Cynghorydd Paul Weston – anodd dod o hyd i enghrafft dda ond ystyried cofrestru gyda Chyngor Sir Ddinbych – i'w gynnwys yng nghyllideb ddrafft 2018/19. Atgoffwyd yr aelodau bod rhaid i unrhyw godi arian fod ar gyfer prosiectau penodol a dylai gyd-fynd gyda'r Cynllun Cymdogaeth.
356.1	Trosolwg Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

06/11/17	Clerc – Gofynnwyd am restr o'r biniau a leolir yn ardal y Cyngor Cymuned, aros am ateb. Dau lythyr atgoffa wedi eu hanfon, a thrydydd un i'w anfon yn awr.
	Y Gofeb Rhyfel – Plac i goffáu'r rhai fu farw mewn damwain awyren yn unol â chais Mr John Harrop. Clerc – Wedi gofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer glanhau ac ailbaentio'r ysgriften ar y Gofeb.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb. Clerc – Rhagor o wybodaeth i'w darparu gan berthynas.
	Grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol. Clerc – Gwaith yn parhau.
04/09/17 358	Cyfeiriad e-bost Cyngorwyr a defnyddio plattform Hwb Llywodraeth Cymru Clerc – derbyniwyd ateb gan Amy Selby, Cyngor Sir Ddinbych ynghylch cyfrifon sirddinbych.gov.uk / denbighshire.gov.uk. Mae'n debygol bod hyn yn anaddas. Yr ymholiad i'w gyfeirio at Liz Grieve yng Nghyngor Sir Ddinbych. Derbyniwyd cyngor gan Un Llais Cymru yn nodi, er mwyn cael cyfeiriadau e-bost .gov.uk byddai'n rhaid i wefan y Cyngor gael enw parth newydd. Eitem i'w roi ar agenda cyfarfod mis Ionawr.
06/11/17	
04/12/17	
06/11/17 375.6	Carafan yn Erw Fair Clerc – Cyflwynwyd hysbysiad gorfodaeth ddiwedd Hydref. Nid yw'r Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio wedi cael cyfle i ymweld â'r safle eto, ond bydd yn cysylltu eto maes o law.
04/12/17	

384 GOHEBIAETH

Cafodd trafodaeth am y dogfennau ymgynghori a ganlyn ei gohirio o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2017.

384.1 Llywodraeth Cymru

[a] Adolygu'r Sector Cyngorau Tref a Chymuned – E-bost dyddiedig 3 Hydref 2017 gan Banel Adolygiad Annibynnol Llywodraeth Cymru

AdolygiadCTC.Review@gov.wales

[b] Adolygiad Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2018 – www.bcomm-wales.gov.uk Dyddiad cau ar gyfer sylwadau – 11 Rhagfyr 2017

[c] Adolygiad Trefniadau Etholaethol Sir Ddinbych www.ldbc.gov.wales Dyddiad cau ar gyfer sylwadau – 23 Ionawr 2018

PENDERFYNWYD nodi cynnwys y dogfennau ymgynghori [a], [b] ac [c] ac aros am sylwadau Un Llais Cymru cyn anfon ymateb.

384.2 Cylchlythyr Tai Sir Ddinbych Rhifyn Un – Hydref 2017

www.denbighshirehousing.co.uk Mae'r Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol yn hapus i ddod i gyfarfod Cyngor Cymuned. **PENDERFYNWYD** [a] anfon y manylion at y Cyngorwyr a [b] gwahodd Mr Geoff Davies, Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol i ddod i gyfarfod y Cyngor Cymuned yn y dyfodol.

384.3 Hosbis Sant Cyndeyrn E-bost dyddiedig 22 Tachwedd 2017 gan Peter Alexander, Codwr Arian Cymunedol, ynghylch cyfleoedd codi arian lleol.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc gysylltu gyda Mr Peter Alexander ar y ffôn i ganfod sut y gall y Cyngor gynorthwyo.

385 CYNLLUNIO – www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

385.1 Cais 20/2017/0819 Ysgol gynradd newydd – Ailymgyngori a chynlluniau diwygiedig, cyswllt newydd i gerddwyr, cynllun teithio, gwerthusiad archeolegol, arolygon presenoldeb/absenoldeb ymlusgiaid, mesurau lleddfu ecolegol, iawndal a Datganiad Dull Cyfoethogi. Angen ymateb erbyn 11 Rhagfyr 2017. Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi cysylltu gyda thrigolion a fyddai'n cael eu heffeithio gan y llwybr troed cyswllt arfaethedig. **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y dogfennau.

385.2 Cais 20/2017/1049 Gosod mast latis 21 metr gyda 3 antena a 2 ddysgl, ynghyd â 2 gaban offer ar y ddaear, 1 cabinet 1 metr a datblygiad atodol yn cynnwys ffens bren 1.10m pyst a rheiliau – Tir yng Nghefn Coch, Llanrhydd, Rhuthun.

PENDERFYNWYD nad oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad a'i fod felly'n cefnogi'r cais.

385.3 Cais 20/2017/1037 Estyniad i annedd – Bacheirig, Llanfair DC.

PENDERFYNWYD nad oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad a'i fod felly'n cefnogi'r cais.

385.4 Cais 20/2017/1068 Manylion y Cynllun Adeiladau mewn Rhannau yn unol ag amod rhif 3 Caniatâd Cynllunio Cyfeirnod 20/2016/1137 – Tir i'r gorllewin o Ffordd Wrecsam, Llanfair DC.

PENDERFYNWYD anfon ymateb yn mynegi pryder yr aelodau nad oes amserlen a dyddiad pendant ar gyfer dechrau'r gwaith ar y safle, ac a fyddai'r gwaith yn cael ei gyflawni bum niwrnod neu saith diwrnod yr wythnos. Mae'r aelodau hefyd am gael sicrwydd y bydd priffordd yr A525 yn cael ei gadw'n lân yn ystod y cyfnod hwn. Gwerthfawrogid cael hysbysiad/cadarnhad ynghylch yr amserlen gynted ag y bo modd.

385.5 Nodyn Canllawiau Cynlluno Atodol Drafft: Dogfen Ymgynghori Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

www.sirddinbych.gov.uk neu www.clwydianrangeanddeevalley.org.uk

Trefnwyd dwy sesiwn galw heibio ym Mharc Gwledig Loggerheads CH7 5LH ddydd Mercher 06/12/17 [10am-2pm] a dydd Iau 18/01/18 [2-6pm]. Sylwadau i developmentplans@flintshire.gov.uk erbyn 29 Ionawr 2018.

386 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

386.1 Problemau parcio yn y gymuned leol Adroddwyd bod trigolion yn ardal Bron y Clwyd yn Llanfair DC wedi mynegi pryder na fedrant barcio y tu allan i'w cartrefi eu hunain ar achlysuron pan fo cynulliad mawr, er enghraifft, priodas neu angladd, yn y pentref. Nodwyd bod y trigolion yn talu cyfraniad tuag at dorri'r glaswellt yn eu rhent. **PENDERFYNWYD** y bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir i gael eglurhad a yw'r ardal parcio yn un cyhoeddus neu'n breifat i drigolion yn narpariaeth tai Cyngor Sir Ddinbych. Petai'n dod i'r amlwg mai trigolion yn unig sydd â'r hawl i barcio y tu allan i'w cartref y dylid gwneud cais i osod arwyddion clir yn nodi hynny.

RHAN 2

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

387 MATERION ARIANNOL

387.1 Cais am Gymorth Ariannol – Elusen Ysbyty Plant Arch Noa

PENDERFYNWYD hysbysu'r elusen mai polisi'r Cyngor Cymuned yw cefnogi mudiadau lleol yn unig.

387.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

[a] £983.88 – Zoll – AED Plus Lay Responder

[b] £402.00 – Pawle & Co Ltd – Cwpwrdd ar gyfer y diffibrilydd

[c] £84.00 – Tâl Aelodaeth SLCC 2018

[ch] £247.46 Eitemau coeden Nadolig a brynwyd gan y Cynghorydd Keith Mouldsdale:-

[£199.99 – Lights4Fun – Goleuadau newydd ar gyfer y goeden Nadolig

£14.99 – Blwch gwrth-dywydd ar gyfer cysylltiadau trydanol allanol

£22.48 – Fflecs ac addasydd – Screwfix

£10.00 – cyfraniad tuag at gost y trydan]

387.3 Dyfynbrisiau yn gysylltiedig â'r Gofeb Rhyfel

[a] Plac i goffáu'r dynion a fu farw pan fu eu hawyren mewn damwain yng nghyffiniau Llanfair. Adroddwyd y gofynnwyd am ddyfynbrisiau ar gyfer tynnu'r bloc isaf ymaith ac engrafio 96 llythyren, ynghyd â chost glanhau'r gofeb ac ail baentio'r holl lythrennau.

Dyfynbris 1 - Tynnu'r bloc / engrafio yn unig - £620.00 [+ TAW] = £744.00

Dyfynbris 2 – Tynnu'r bloc / engrafio - £816.00 [dim TAW] a glanhau / ail baentio'r llythrennau £520.00 [dim TAW]

Dyfynbris 3 - Glanhau / ail baentio yn unig - £550.00 “Nid yw'r arysgrifen i'r dynion yn yr awyren fu mewn damwain yn addas ar Gofeb. Mae Cofeb Rhyfel wedi ei chysegru i bobl leol a fu farw yn y ddau Ryfel Byd a wedi hynny. Yn aml nid oedd criw yr awyren yn lleol a dylid eu henwi – ni fyddai lle i'w henwau ar y garreg fechan ar y gwaelod. Gallai'r Cyngor ystyried carreg ar wahân, efallai llechen Gymreig, i goffáu ac enw criw yr awyren gyda delwedd o'r awyren roeddynt yn hedfan ynddi, o bosibl. Gellid gosod y garreg hon ger y Gofeb.”

PENDERFYNWYD – [a] ar ôl ystyried yr argymhellion yn nyfynbris 3 roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r goffadwriaeth i'r rhai yn yr awyren fod ar garreg ar wahân wedi'i gosod ger y Gofeb a [b] gofyn am ddyfynbrisiau eraill am hyn pan fo'r enwau wedi'u cadarnhau.

[b] Ychwanegu enw ar y Gofeb – Atgoffwyd yr aelodau fod yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel angen gwybodaeth fel cofnod milwrol, copïau o ddogfennau ffurfiol [tystysgrifau geni/priodas/marwolaeth], yn cynnwys cadarnhad nad yw'r enw wedi'i gofnodi mewn man arall yn lleol. **PENDERFYNWYD** fod y Cyngor Cymuned yn talu costau cael y cofnodion sy'n ofynnol.

387.4 Cais Neuadd Eleanor am symiau cymudol Cyngor Sir Ddinbych

PENDERFYNWYD anfon llythyr at y Cyngor Sir i gadarnhau bod y gwaith gwella'r maes parcio wedi'i gwblhau.

387.5 Praesept ar gyfer 2018/19

Adroddwyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o'r farn nad yw cynghorwyr cymuned/tref yn wirfoddolwyr oherwydd, yn dilyn y broses ddemocrataidd, maent wedi derbyn cyfrifoldebau ffurfiol ac maent oll yn wynebu atebolrwydd i raddau, o ran y Cyngor y maent yn ei gynnal. O ganlyniad mae'r Panel yn ei gwneud yn ofynnol talu cyfraniad o £150 i bob aelod ar gyfer costau a threuliau ac ad-dalu costau gofal fel y nodir ym Mhenderfyniadau 44, 50 a 51 ei Adroddiad. Mae Penderfyniad 51 yn awdurdodi cynghorau cymuned/tref i ddarparu taliad arweinydd dinesig i feiri/cadeiryddion o hyd at £1,500 a lwfans o hyd at uchafswm o £500 i ddirprwy feiri/gadeiryddion. Mae'r taliadau hyn yn ychwanegol at y swm sylfaenol o £150.

PENDERFYNWYD cynnwys swm o £1,500 yng nghyllideb praesept y Cyngor Cymuned ar gyfer 2018/19 i gwmpasu'r lwfansau gorfodol i'r holl Gynghorwyr. Byddai hyn yn gwneud cyfanswm y gyllideb sy'n ofynnol yn £26,903.

388 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL [Pob cyfarfod i ddechrau am 7pm]

Dydd Llun 8 Ionawr [Canolfan Genus, Llanrhydd LL15 2UP]

Dydd Iau 1 Chwefror [Neuadd Eleanor, Llanfair D C – y brif neuadd]

Dydd Iau 15 Mawrth [Neuadd Eleanor, Llanfair D C – y brif neuadd]

Gan nad oedd rhagor o fusnes cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 8.45pm.

John Pugh _____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus,
Llanrhydd LL15 2UP nos Lun, 8 Ionawr 2018 am 7pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr David Baker, Bob Barton [am ran o'r cyfarfod], Wini Davies, Moira Edwards, Jayne Mayers [Is-gadeirydd], Keith Mouldsdale, John Pugh [Cadeirydd], Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorydd Hugh H Evans OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych; y Cynghorwyr [salwch] a Medwen Roberts [salwch].

RHAN 1

389 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd John Pugh o ran Neuadd Eleanor fel ymddiriedolwr ac fel Llywodraethwr Ysgol Llanfair; y Cynghorydd Keith Mouldsdale fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor.

390 MATERION CYMUNEDOL

390.1 Nwy prif gyflenwad Roedd Wales & West Utilities wedi darparu rhagor o ddyfynbrisiau i gynnwys y pentref/y datblygiad tai newydd/yr ysgol newydd, sy'n golygu bod cyfanswm cost y cynllun a'r cyfraniad i bob eiddo wedi lleihau. Mae hyn wedi ei seilio ar – Sgôp = 222, Cyrhaeddiad = 155, a Graddfa Derbyn = 77. Hefyd adroddwyd y byddai pwyllgor buddsoddi Wales & West Utilities yn cyfarfod ganol Ionawr.

Mae Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych wedi dweud y gall wneud ymrwymiad i ymchwilio i ddefnyddio nwy prif gyflenwad os a phan y bydd ar gael. Mae angen rhagor o eglurder o ran yr amserlen i weld a yw'n cyd-fynd â rhaglen adeiladu'r ysgol newydd.

Ni chafwyd ateb gan Tai Sir Ddinbych hyd yma ond mae Grŵp Cynefin wedi cadarnhau ei ddi-ddordeb a'i fwriad i ddefnyddio'r rhwydwaith nwy pan fo yn ei le.

Mae Pure wedi pwysleisio pwysigrwydd cael amserlen Wales & West gan fod hyn yn hanfodol bwysig iddynt. Cadarnhaodd y Clerc ei bod yn aros am ymateb gan Wales & West Utilities ynghylch eu hamserlen arfaethedig.

Roedd yr aelodau o'r farn bod angen ychwanegu neuadd y pentref at y rhestr eiddo eisiau nwy prif gyflenwad ac y gellid lleihau cyfanswm y gost trwy negodi gyda chyflenwyr. Cadarnhawyd y byddai rhwydwaith o bibellau'n cael eu gosod at gartrefi ac eiddo trwy'r pentref. Awgrymwyd gwahodd Wales & West Utilities (neu gyflenwr arall) i gyfarfod yn neuadd y pentref maes o law.

PENDERFYNWYD bod angen cynllun gweithredu ac amserlen, a holi o leiaf tri darparwyd [megis Nwy Prydain, Scottish Power ac eraill] gynted ag y bo modd.

390.2 Diffibrilyddion Gofynnwyd i Tomos Hughes o Achub Calon y Dyffryn gynnal asesiad i ddod o hyd i'r lleoliad gorau yng Ngraigfechan ar gyfer y diffibrilydd. Mae'r Cynghorwyr John Pugh a Jayne Mayers yn bwriadu cynnal ymweliad safle yn y dyfodol agos. Cafwyd blwch er mwyn lleoli diffibrilydd y tu allan yng Ngholeg Llysfasi.

390.3 Cynllun Cymdogaeth Adroddwyd – trefnwyd cyfarfod i aelodau'r grŵp llywio gyfarfod gyda swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a'r Arweinydd ddydd Iau, 11 Ionawr 2018 i drafod sut i gael Cynllun Cymdogaeth y Cyngor a Chynllun Corfforaethol y Cyngor Sir i gyd-fynd â'i gilydd. Dogfen drafod yw'r cynllun ar hyn o bryd. Ystyriwyd y dylid gofyn i Gyngor Sir Ddinbych fabwysiadu'r cynllun a datblygu rhyngwyneb ar y we.

390.4 Band eang Mae darpariaeth bang eang gwell ar ei ffordd i Lanfair ond bydd angen monitro ei effeithiolrwydd.

391 COFNODION

PENDERFYNWYD [a] cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2017 a'u llofnodi fel cofnod cywir [b] bod eitemau ynghylch y grŵp codi arian ac ymgysylltu gyda phobl ifanc yn parhau yn rhan o adran materion yn codi / camau gweithredu y cofnodion a [c] mae'n gyfrifoldeb yr holl Gynghorwyr i annog pobl ifanc ar draws ardal y Cyngor Cymuned i ymgysylltu a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor.

392 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
17/05/17 311.3	Pont Eyarth Mae'r arwydd cyfyngiad pwysau yn y lleoliad anghywir, angen bod ymhellach oddi wrth y bont i yrwyr ei weld mewn pryd. Hysbyswyd yr adran Priffyrdd. Bydd y gwaith pwyntio a ddechreuwyd

06/11/17 04/12/17 08/01/18	yn parhau yr haf nesaf. Mae'r gwelliannau i ddraeniad y briffordd rhwng y gefnffordd a'r bont yn parhau, ond bydd angen cau'r ffordd am benwythnos. Mae cerbydau mawr yn parhau i deithio trwy'r pentref. Mae Uwch Beiriannydd Cyngor Sir Ddinbych wedi datgan bod gorchmynion cyfreithiol i'w cyflwyno'n fuan iawn a bydd cydweithwyr Traffig yn adolygu'r arwyddion yn y dyfodol agos. Nododd aelodau bod yr arwyddion yno ond ddim yn amlwg a bod yr un arall ar ochr Pwllglas yn creu rhwystr.
351.5 08/01/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston] Dywedodd y Cynghorydd Bob Barton y byddai'n fodlon cynorthwyo gyda chodi arian.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Adroddodd y Clerc yr anfonwyd llythyrau i Glybiau Ffermwyr Ifanc Clwyd, Llysfasi, Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Rhuthun ar 12/10/17. Ni chafwyd unrhyw ymateb.
356.1 06/11/17 08/01/18	Trosolwg Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Y Clerc - Gofynnwyd am restr o finiau sbwriel yn ardal y Cyngor Cymuned. Aros am ateb. Anfonwyd tri llythyr atgoffa. Y Clerc i weithredu fel bo angen.
356.3 367.1 387.3 04/12/17 08/01/18	Y Gofeb Rhyfel - Plac i goffâu'r rhai a fu farw mewn damwain awyren yn unol â chais Mr John Harrop. Gofynnwyd am ddyfynbrisiau yn cynnwys glanhau ac ailbaentio'r arysgrifiadau ar y Gofeb Rhyfel. Roedd yr aelodau o'r farn y dylid cynnwys yr enwau. Mae'r Clerc wedi ymchwilio i enwau aelodau'r llw awyr i'w gosod ar garreg ar wahân ger y Gofeb ond mae angen eu dilysu gan Gofnodion Milwrol yr Awyrlu cyn gofyn am ganiatâd a dyfynbrisiau newydd.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Y Clerc - Gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas.
	Grant tuag at gost y gwaith trwsio terfynol. Y Clerc - Gwaith yn parhau.
06/11/17 375.6 04/12/17	Carafan yn Erw Fair Y Clerc – Cyflwynwyd hysbysiad gorfodaeth ar ddiwedd mis Hydref. Nid yw'r Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio wedi cael cyfle i ymweld â'r safle ond bydd yn cysylltu eto maes o law.
384.2 04/12/17 08/01/18	Tai Sir Ddinbych Mae'r Clerc wedi gwahodd Mr Geoff Davies, Swyddog Arweiniol, i gyfarfod yn y dyfodol. Dim ymateb hyd yma. Anfon llythyr atgoffa.
386.1 04/12/17 08/01/18	Problemau parcio yn y gymuned leol Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am eglurhad a yw'r ardal maes parcio yn un cyhoeddus neu'n breifat i drigolion darpariaeth tai Cyngor Sir Ddinbych ym Mron y Clwyd. Dim ymateb hyd yma. Y Clerc i anfon llythyr arall ac anfon copi at yr Arweinydd.
325.2 08/01/18	Dulliau arafu traffig yng Ngrraigfechan Y Clerc i holi a yw Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r arwyddion yn hysbysu am derfyn cyflymder ymlaen llaw.

393 GOHEBIAETH

393.1 E-bost dyddiedig 13 Rhagfyr 2017 gan Un Llais Cymru ynghylch Partïon Gardd Palas Buckingham. **PENDERFYNWYD** cyflwyno enw'r Cynghorydd John Pugh i'w roi yn yr het ar gyfer cynrychioli Un Llais Cymru yn un o'r partïon gardd.

393.2 E-bost dyddiedig 15 Rhagfyr 2017 gan Swyddog Monitro Cyngor Sir Ddinbych ynghylch sedd wag cynrychiolydd Cyngor Dinas, Tref neu Gymuned ar y Pwyllgor Safonau [dyddiad cau 10/01/18] **PENDERFYNWYD** cyflwyno enw'r Cynghorydd Bob Barton i'w ystyried ar gyfer y sedd wag.

393.3 E-bost dyddiedig 18 Rhagfyr 2017 gan Flintshire & Wrexham Online Watch Link Association ynghylch cais gan drigolyn am sticeri 'Dim Galwyr Digroeso'. **PENDERFYNWYD** cyfeirio'r trigolyn at y Cynghorydd Moira Edwards sy'n awyddus i sefydlu Grŵp Gwarchod Cymdogaeth yn ardal Llanfair.

393.4 Llythyr dyddiedig 2 Ionawr 2018 gan Un Llais Cymru – Cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ardal ar 24 Ionawr 2018 yng Nghanolfan Addysg Bro Aled, Llansannan – Nodwyd bod y Cynghorydd Bob Barton yn mynychu Cyfarfodydd Ardal yn arferol.

394 CYNLLUNIO

394.1 Dogfennau Ymgynghori cyn cyflwyno cais Adeiladu uned magu lloiau newydd yn cynnwys dwy sied fagu, swyddfeydd, adeilad storio a chyfleuster cadw tail a gwaith cysylltiedig yng Nghanolfan Genus, Green Park, Llanrhydd, Rhuthun [Cynlluniau i'w gweld yn Llyfrgell Rhuthun o 02-30/01/18].

PENDERFYNWYD gofyn i'r aelodau ystyried a oeddynt yn dymuno ychwanegu'r sylwadau ychwanegol a wnaed yn y cyfarfod. Er bod yr aelodau'n cefnogi'r cais mewn egwyddor, awgrymwyd y dylid annog Genus plc i adeiladu adeilad i safon uwch, yn fwy derbyniol yn weledol ac yn cyd-fynd ag egwyddorion yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn hytrach nag adeiladu adeilad amaethyddol arferol. Roedd yr aelodau am gael sicrwydd hefyd y byddent yn bodloni safonau amgylcheddol.

394.2 Cais Cynllunio 20/2017/0819 Ysgol Newydd Llanfair DC – Adroddwyd bod y cynlluniau wedi cael eu cymeradwyo a bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar dir gyferbyn â Bron y Clwyd, Llanfair, gan ddefnyddio cyllid o raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â buddsoddiad gan Gyngor Sir Ddinbych. Cadarnhawyd bod y llwybr troed i gerddwyr wedi'i gynnwys.

394.3 Papur Ymgynghori ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru [30/11/17-01/03/18] <https://lawcom.gov.uk/project/planning-law-in-wales/> **PENDERFYNWYD** [a] ymateb fel a ganlyn – Mae'r dystiolaeth yn Lloegr [https://www.ourneighbourhoodplanning.org.uk/about/npa_area_list) yn awgrymu'n gryf bod proses Cynllunio Cymdogaeth, sy'n arwain at Orchmynion Datblygu Cymdogaeth, wedi llwyddo i ddenu cyfranogiad sylweddol ac mae'n cynnig dull effeithiol o hyrwyddo mecanweithiau cynllunio lleol, sensitif ar gyfer datblygu a gwella'r gymuned. Ni chyflwynir unrhyw ddadl yn y papur ymgynghori i awgrymu pam ei bod yn amhriodol i Gymru weithredu'r darpariaethau hyn o Ddeddf Lleoliaeth 2011 i alluogi cymunedau i elwa o ddull mwy lleol o ymdrin â datblygu sy'n medru cefnogi proses Gynllunio Lleol mwy effeithiol, gan fanteisio ar dystiolaeth leol a strategol ar sail ymchwil manwl.

[b] bod y Cyngor Cymuned yn gofyn am gefnogaeth Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gefnogi cynnwys darpariaethau ar gyfer Gorchmynion Datblygu Cymdogaeth yn y Mesur Cynllunio [Cymru].

Mynegodd y Cyngorydd Bob Barton awydd i gael arbenigwyr cynllunio o wahanol gynghorau cymuned ynghyd i lunio cynigion i'w hystyried gan y Cyngor Cymuned.

395 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

395.1 Problemau draeniad / gorlifo yn y gyffordd T i Lanfair DC/Llanbedr DC/Pentrecoch. Yn dilyn cwyn gan un o'r trigolion **PENDERFYNWYD** trefnu ymweliad safle rhwng yr Adran Priffyrdd, yr Arweinydd a'r Cyngorydd John Pugh.

395.2 Bolardiau Holodd aelod a oes gan drigolion yr hawl i osod bolardiau gwyn y tu allan i'w heiddo. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau gydag Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych.

RHAN 2

396 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

397 MATERION ARIANNOL

397.1 Cyflwynwyd – Crynodeb o Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2017 Cynghorodd y Clerc mai'r balans yn y banc ar 31 Rhagfyr 2017 oedd £12,623.41 yn y Cyfrif Cymuned a £1,022.79 yn y Cyfrif Busnes. Wrth ystyried sicciau heb eu cyflwyno a thaliadau i'w gwneud, roedd hyn yn gadael £10,295.14 o gronfeydd ar gael yn y Cyfrif Cymuned ar 8 Ionawr. **PENDERFYNWYD** derbyn y datganiad ariannol a chymeradwyo'r addasiadau.

397.2 Cais am Gymorth Ariannol –

PENDERFYNWYD [a] gwrthod cais yr Undeb Gwasanaethau Ambiwlans [b] gohirio cais Urdd Gobaith Cymru [ynghylch Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2020] tan Ebrill 2018.

397.3 Talu Cyfrifon/Anfonebau

PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£480.30 – Gwasanaeth Cyfieithu Sandra Williams

£378.09 – Treuliau'r Clerc

£56.00 – Prynu coeden Nadolig gan y Cyngorydd Keith Mouldsdale

£100.00 – Canolfan Genus – cyfraniad am ddefnyddio'r ystafell bwyllgora.

397.4 Penodi Archwilydd Mewnol

PENDERFYNWYD ailbenodi JDH Business Services Ltd yn Archwilydd Mewnol y Cyngor Cymuned ar gyfer 2017/18.

397.5 Cyllideb Praesept 2018-19 [dyddiad cau ar gyfer cyflwyno - 15/01/18]

PENDERFYNWYD [a] cymeradwyo'r diwygiadau a ganlyn –

cynyddu Lwfansau Aelodau o £1500 i £3500 [nid yw'r lwfansau hyn yn cael eu hawlio gan y Cyngorwyr presennol ond mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn orfodol eu cynnwys]

Cynyddu tâl aelodaeth SLCC o £80 i £100

Gweithgareddau'r Cynllun Cymdogaeth i'w cynyddu o £1077 i £1087
[b] Awdurdodi'r Clerc i gyflwyno cais praesept i Gyngor Sir Ddinbych am £29,010.

398 HYFFORDDIANT – Cyflwynwyd Rhaglen Hyfforddiant Un Llais Cymru Chwefror – Gorffennaf 2018. Cynghorwyd yr aelodau nad oes darpariaeth yn y gyllideb tan Ebrill 2018.

399 ASESIAD RISG – PENDERFYNWYD bod y Cynghorwyr John Pugh a Keith Mouldale yn gwneud trefniadau i gynnal yr asesiad risg blynyddol.

400 CYFEIRIADAU E-BOST – Adroddwyd y byddai cael cyfeiriad e-bost gov.uk yn golygu newid enw parth y Cyngor Cymuned. Roedd y Clerc wedi gofyn am ragor o gyngor ar y mater gan Mr Chris Birchall sydd o'r farn bod y costau'n fwy na'r buddion. Roedd aelod am wybod faint sy'n edrych ar wefan y Cyngor. **PENDERFYNWYD** bod y Cynghorwyr Keith Mouldale a Paul Weston yn ymchwilio i sut i ganfod y nifer sy'n edrych ar y wefan a'r posibilrwydd o ychwanegu enw cynghorydd at yr enw parth cyfredol i greu cyfeiriad e-bost i gynghorydd, er enghraifft, cllrkeithmouldale@llanfaircommunitycouncil.co.uk

401 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Nos Iau, 1 Chwefror [Neuadd Eleanor, Llanfair DC – y brif neuadd]

Nos Iau, 15 Mawrth [Neuadd Eleanor, Llanfair DC – y brif neuadd]

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 9.30pm

John Pugh _____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED **LLANFAIR DYFFRYN CLWYD** COMMUNITY COUNCIL
Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus,
Llanrhydd, LL15 2UP nos Fercher, 31 Ionawr 2018 am 7 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr David Baker, Bob Barton, Wini Davies, Tim Faire, Keith Mouldale, John Pugh [Cadeirydd], Medwen Roberts ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – Tri aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych; Y Cynghorwyr Moira Edwards [ymrwymiad blaenorol], Jayne Mayers [Is-gadeirydd] [gofal plant] a Paul Weston [ymrwymiad blaenorol].

RHAN 1

402 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd John Pugh yng nghyswllt Neuadd Eleanor fel ymddiriedolwr ac fel Llywodraethwr Ysgol Llanfair; y Cynghorydd Keith Mouldale fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor a'r Cynghorydd Medwen Roberts fel Llywodraethwr Ysgol Pentrecelyn.

403 MATERION CYMUNEDOL

403.1 Nwy prif gyflenwad Roedd pwyllgor buddsoddi Wales & West Utilities wedi cyfarfod ganol Ionawr ac yn hapus i fwrw ymlaen gyda'r cynllun. Fodd bynnag, nid yw amserlenni'r gwahanol bartïon yn cyfateb i'w gilydd. Mae WWU angen cyfradd derbyn o 28%, sy'n medru cymryd rhwng 3 wythnos i 3 mis. Bydd yr awdurodd priffyrdd angen 3 mis o rybudd cyn y gall y gwaith ddechrau. Gallai gosod gorsaf leihau a 2,913 metr o bibellau prif gyflenwad gymryd hyd at tua 29 wythnos a thuag at ddiwedd y flwyddyn cyn dechrau'r gwaith. Tra bo datblygwr y tai newydd â diddordeb mawr mewn cysylltu'r safle i'r prif gyflenwad nwy mae dau brif bryder. Y cyntaf yw'r amseru gan fod cynlluniau i ddechrau gweithio ar seilwaith y safle ym mis Mai 2018 a disgwylir i'r tai cyntaf fod wedi'u gwerthu a phobl yn byw ynddynt erbyn diwedd Rhagfyr 2018. Mae'r ail bryder yn ymwneud â'r costau. Mae'r cynllun nwy propan hylifol arfaethedig yn llawer rhatach tra bo costau cysylltu i'r cyflenwad nwy yn sylweddol uwch, fwy na chwe gwaith y gost fesul plot.

Mewn ymdrech i ddod â phrif gyflenwad nwy pris rhesymol i Lanfair yn y cyfamser mae'r Cyngor Cymuned wedi cysylltu gyda nifer o gyflenwyr eraill ers cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Ionawr. Roedd un o'r trigolion lleol a arferai weithio yn y diwydiant wedi darparu rhestr i'r Cyngor Cymuned ei defnyddio. Mae dau gwmni wedi mynegi diddordeb mewn darparu dyfynbris. Fe'u gwnaed yn ymwybodol o'r brys, yr amserlen a'r cymhlethdodau eraill yn gysylltiedig â hyn. Daeth un dyfynbris i law ond mae'r costau dangosol yn uchel. Yn y cyfamser mae'r Cyngor Sir wedi gwneud cais am gyllid cartrefi cynnes – a fedr Llanfair elwa gan ei fod wedi ei dynodi fel ardal tlodi tanwydd? Adroddwyd bod darpariaeth prif gyflenwad nwy yn Llandegla, gyda'r costau wedi eu talu gyda pheth cymorth grant. Hefyd awgrymwyd cysylltu gyda Nwy Prydain gynted ag y bo modd. Cadarnhawyd bod ymholiadau brys yn parhau.

403.2 Diffibrilyddion Adroddwyd [a] bod Tomos Hughes o Calon y Dyffryn wedi ymweld â Graigfechan a'i fod yn ffafrio lleoliad ar du allan byngalo 5 Maes Hyfryd. Gwnaiff Cyngor Sir Ddinbych ofalu am y gwaith trydan a gosod y blwch ar wal yr eiddo hwn. [b] Mae diffibrilydd Llysfasi bellach wedi'i osod mewn blwch dan glo, wedi'i wresogi, ar du allan yr adeilad i'r chwith i'r dderbynfa. [c] Mae Genus plc yn bwriadu gosod diffibrilydd ymhob safle, yn cynnwys Pentre Coch, gynted ag y bo modd [cedwir yr offer mewn blwch allanol wedi'i wresogi a bydd yn hygyrch 24/7]. [ch] Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg a ymddangosodd yn y Denbighshire Free Press ym mis Rhagfyr a rhifyn mis Ionawr Y Bedol. [d] Nid yw'r dyddiadau ar gyfer rhagor o hyfforddiant wedi'u cadarnhau eto. **PENDERFYNWYD** ystyried gwneud taliad ewyllys dda o £30 y flwyddyn i breswilydd 5 Maes Hyfryd, Graigfechan, tuag gostau'r trydan.

404.3 Cynllun Cymdogaeth Cyflwynwyd – nodiadau cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr rhwng aelodau'r grŵp llywio, swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a'r Arweinydd. Pwrpas y cyfarfod oedd trafod sut i sicrhau bod Cynllun Llanfair a Chynllun Corfforaethol y Sir yn cyd-fynd â'i gilydd. Dogfen drafod yw'r cynllun ar hyn o bryd. Roedd y cyfarfod yn un cadarnhaol a rhoddwyd clod i Lanfair am y cynllun, gyda chynrychiolwyr y Cyngor Sir yn dweud yr hoffent ddangos y cynllun fel esiampl i eraill. Gall Cyngor Sir Ddinbych ddarparu cymorth ymarferol trwy ddefnyddio Cadwyn Clwyd, arolwg Llanfair a meini prawf y fferm wynt i ddenu cyllid. Gellid

cynnwys yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol hefyd wrth gyflawni rhai o'r eitemau a nodwyd yng Nghynllun Llanfair.

Cyfarfu'r grŵp llywio ddydd Llun, 29 Ionawr, i drafod yr adborth yn dilyn y cyfarfod gyda Chyngor Sir Ddinbych, ystyried y gweithredoedd yn deillio o hynny, yr amserlen ar gyfer arolwg Cadwyn Clwyd a datblygu llinell amser ar gyfer y Cynllun [a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned] dros y chwe i 12 mis nesaf. Hefyd teimlwyd y dylid buddsoddi trwy ddatblygu cyswllt/rhyngwyneb ar y we gyda'r Cyngor Cymuned a Neuadd y Pentref lle gall pobl gael gwybodaeth/data yn hawdd a manylion sut i gymryd rhan yn arolwg Llanfair. Yn olaf, ystyriwyd bod sicrhau bod y Cynllun yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol Cyngor Sir Ddinbych yn hanfodol wrth uchafu'r cyllid potensial ar gyfer cynlluniau cymunedol yn lleol. Mae ymholiadau'n cael eu gwneud ynghylch costau datblygu cyswllt/rhyngwyneb ar y we a bydd y manylion yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod y Cyngor Cymuned yn y dyfodol i'w hystyried.

403.4 Band eang Adroddodd y Cynghorydd Bob Barton ei fod wedi mynd i'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Llanarmon yn Iâl ar 7 Rhagfyr 2017. Bellach mae rhaglen ar gyfer manau heb fand eang, ac mae BT yn gofyn am fap o'r cyfnewidfeydd.

404 COFNODION PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir, yn amodol ar ddileu'r pennawd "394.4 Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021" ar dudalen 5.

405 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
17/05/17 311.3	Pont Eyarth Mae'r arwydd cyfyngiad pwysau yn y lleoliad anghywir, angen bod ymhellach oddi wrth y bont i yrwyr ei weld mewn pryd. Hysbyswyd yr adran Priffyrdd. Bydd y gwaith pwyntio a ddechreuwyd yn parhau yr haf nesaf. Mae'r gwelliannau i ddraeniad y briffordd rhwng y gefnffordd a'r bont yn parhau, ond bydd angen cau'r ffordd am benwythnos. Mae cerbydau mawr yn parhau i deithio trwy'r pentref.
06/11/17 04/12/17	Mae Uwch Beiriannydd Cyngor Sir Ddinbych wedi datgan bod gorchmynion cyfreithiol i'w cyflwyno'n fuan iawn a bydd cydweithwyr Traffig yn adolygu'r arwyddion yn y dyfodol agos. Nododd aelodau bod yr arwyddion yno ond ddim yn amlwg a bod yr un arall ar ochr Pwllglas yn creu rhwystr.
08/01/18	Adroddwyd – Hysbyswyd yr Adran Priffyrdd.
351.5 08/01/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdaile a Paul Weston] Dywedodd y Cynghorydd Bob Barton y byddai'n fodlon cynorthwyo gyda chodi arian. Trefnir i'r grŵp gyfarfod pan fo prosiectau wedi'u nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Adroddodd y Clerc yr anfonwyd llythyrau i Glybiau Ffermwyr Ifanc Clwyd, Llysfasi, Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Rhuthun ar 12/10/17. Ni chafwyd unrhyw ymateb. Mae Cynghorwyr yn gyfrifol am ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn yr ardal.
356.1	Trosolwg Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

06/11/17 08/01/18 31/01/18	<p>Y Clerc - Gofynnwyd am restr o finiau sbwriel yn ardal y Cyngor Cymuned.</p> <p>Mae dau fin sbwriel dwbl yn yr ardal – y tu allan i'r eglwys yn Llanfair a ger Coleg Llysfasi. Gall Cyngor Sir Ddinbych ddarparu biniau sengl am £250 yr un ynghyd â £50 am eu gosod, a biniau dwbl yn £375 yr un ynghyd â £50 i'w gosod. Gohiriwyd y drafodaeth/penderfyniad tan Ebrill 2018.</p>
356.3 367.1 387.3 04/12/17 08/01/18 31/01/18	<p>Y Gofeb Rhyfel - Plac i goffâu'r rhai a fu farw mewn damwain awyren yn unol â chais Mr John Harrop. Gofynnwyd am ddyfynbrisiau yn cynnwys glanhau ac ailbaentio'r arysgrifiadau ar y Gofeb Rhyfel. Roedd yr aelodau o'r farn y dylid cynnwys yr enwau.</p> <p>Mae'r Clerc wedi ymchwilio i enwau aelodau'r llu awyr i'w gosod ar garreg ar wahân ger y Gofeb ond mae angen eu dilysu gan Gofnodion Milwrol yr Awyrlu cyn gofyn am ganiatâd a dyfynbrisiau newydd. Efallai y bydd yr aelodau'n dymuno ystyried gosod carreg goffa yn nhir yr eglwys fel dewis arall. Y Clerc i wneud ymholiadau gydag awdurdodau'r eglwys.</p>
	Ychwanegu enw ar y Gofeb
	Y Clerc - Gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas.
	Grant tuag at gost y gwaith trwsio terfynol.
	Y Clerc - Gwaith yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
06/11/17 375.6 04/12/17 31/01/18	<p>Carafan yn Erw Fair</p> <p>Y Clerc – Cyflwynwyd hysbysiad gorfodaeth ar ddiwedd mis Hydref. Nid yw'r Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio wedi cael cyfle i ymweld â'r safle ond bydd yn cysylltu eto maes o law.</p> <p>Adroddwyd bod ymweliadau safle yn ardal Llanfair i'w cynnal ddydd Mawrth, 6 Chwefror 2018. Ymddengys bod y garafan yn parhau wedi'i lleoli y tu cefn i'r annedd [ar dir amaethyddol] ond bydd y Swyddog yn ysgrifennu i gadarnhau hyn.</p>
384.2 04/12/17 08/01/18 31/01/18	<p>Tai Sir Ddinbych</p> <p>Mae'r Clerc wedi gwahodd Mr Geoff Davies, Swyddog Arweiniol, i gyfarfod yn y dyfodol. Dim ymateb hyd yma. Anfon llythyr atgoffa. Derbyniwyd cydnabyddiaeth, presenoldeb mewn cyfarfod i'w gadarnhau.</p>
386.1 04/12/17 08/01/18 31/01/18	<p>Problemau parcio yn y gymuned leol</p> <p>Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am eglurhad a yw'r ardal maes parcio yn un cyhoeddus neu'n breifat i drigolion darpariaeth tai Cyngor Sir Ddinbych ym Mron y Clwyd. Dim ymateb hyd yma. Y Clerc i anfon llythyr arall ac anfon copi at yr Arweinydd. Derbyniwyd cydnabyddiaeth, aros am ymateb.</p>
325.2 08/01/18 31/01/18	<p>Dulliau arafu traffig yng Ngrraigfechan</p> <p>Y Clerc i holi a yw Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r arwyddion yn hysbysu am derfyn cyflymder ymlaen llaw.</p> <p>Dim ymateb hyd yma.</p>
393.2 08/01/18	<p>Sedd wag ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych</p> <p>Cyflwynwyd enw'r Cynghorydd Bob Barton i'w ystyried ond nid oedd yn llwyddiannus y tro hwn.</p>
394.3 31/01/18	<p>Papur Ymgynghori ar Ddeddfwriaeth Cynllunio yng Nghymru [30/11/17-01/03/18] Roedd y Cynghorydd Bob Barton wedi paratoi adroddiad ar gyfer Cyngor Tref Bae Colwyn yn tynnu sylw at bedair</p>

	prif faes yn y ddogfen ymgynghori. Cytunwyd i ddsbarthu copi o'r adroddiad i Gynghorwyr Llanfair i gael eu sylwadau.
395.1 08/01/18	Problemau draenio/llifogydd ym Mhentre Coch Trefnu ymweliad safle rhwng Priffyrdd, yr Arweinydd a'r Cynghorydd John Pugh. Anfonwyd e-bost at yr Arweinydd.
395.2 08/01/18 31.01/18	Bolardiau gwynion yng Nghraigfechan Y Clerc i wneud ymholiadau a yw hyn yn cael ei ganiatáu. Dim ymateb hyd yma. Y Clerc i anfon nodyn atgoffa.
399 08/01/18	Asesiad Risg Y Cynghorwyr John Pugh a Keith Mouldsdale i drefnu hyn maes o law.

406 GOHEBIAETH

406.1 E-bost dyddiedig 16/01/18 gan Un Llais Cymru ynghylch Adolygu'r Sector Cynghorau Lleol gyda chais i ymateb i bedwar cwestiwn gan y Panel a sefydlwyd i gynnal adolygiad cynhwysfawr ynghylch y sector –

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/GCP5RZC>

Beth ddylai cynghorau tref a chymuned fod yn gyfrifol amdanynt?

Sut y dylent weithredu?

Beth sy'n eu rhwystro rhag cyflawni ar ran y gymuned leol?

Sut mae cynghorau'n sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol orau?

Adroddodd y Cynghorydd Bob Barton, yn dilyn cyfarfod Un Llais Cymru yn ddiweddar, bod ymatebion yn cael eu casglu a byddant yn cael eu dosbarthu i Gynghorau Tref a Chymuned maes o law.

406.2 E-bost Un Llais Cymru dyddiedig 17/01/18 ynghylch nodiadau briffio gan NALC ar y **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol** newydd. Bydd y Rheoliad yn dod i rym ym mis Mai 2018 ond nid yw'n hysbys faint fydd y Mesur yn cael ei ddiwygio yn ystod ei daith trwy'r Senedd. Rhaid i bob Cyngor sy'n cadw data personol benodi Swyddog Diogelu Data sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am ddeddfwriaeth diogelu data. Barn NALC yw na all y mwyafrif o Glercod a Swyddogion Ariannol Cyfrifol gael eu dynodi'r Swyddog Diogelu Data. Hyn oherwydd na allant fodloni'r holl ofynion megis dim gwrthdaro buddiadau rhwng y ddau rôl ac efallai nad oes ganddynt yr arbenigedd. Mae Cynghorau Cymuned yn rheolwyr data oherwydd eu bod yn casglu ac yn defnyddio data personol sy'n cynnwys, er enghraifft, wybodaeth am staff cyfredol a blaenorol, trigolion lleol, cyflenwyr a darparwyr gwasanaethau, ymholwyr, cwynwyr, cynghorwyr. Rhaid cadw a phrosesu gwybodaeth mewn modd penodol gyda hysbysiad preifatrwydd cynhwysfawr yn ei le [gellid arddangos hwn ar wefan y Cyngor, er enghraifft]. Mae hwn yn fater cymhleth a bydd angen arweiniad ar Gynghorau bach. Disgwylir diweddariad unwaith y bo'r darlun yn gliriach.

PENDERFYNWYD y dylai'r Clerc ysgrifennu at Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) gyda chais iddynt weithio gyda'i gilydd i ddatblygu templed/canllaw cam wrth gam glir i'w ddefnyddio gan Gynghorau llai.

406.3 E-bost dyddiedig 18/01/18 gan Gyngor Sir Ddinbych – **Cinio Elusennol y Cadeirydd** ar 1 Mawrth 2018. Nodwyd.

406.4 E-bost dyddiedig 25/01/18 gan y Cynghorydd Moira Edwards a gafodd ei ddarllen ar lafar yn y cyfarfod yn mynegi pryder ynghylch newid dyddiadau/diwrnod y

cyfarfodydd, yn gofyn am ohirio'r eitem agenda Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol/Adolygu'r Rheolau Sefydlog tan gyfarfod ym mis Mawrth. Adroddwyd bod y Cynghorwyr Moira Edwards a Paul Weston wedi dweud ers hynny y byddai'r ddau ohonynt yn hapus i gyfarfodydd gael eu cynnal ar yr ail ddydd Llun yn y mis.

PENDERFYNWYD ymdrin â'r mater yn ddiweddar dan Ran 2 y cyfarfod fel y trefnwyd.

406.5 Llythyr dyddiedig 25/01/18 gan Fenter Iaith Conwy ynghylch **cyfarfodydd Strategaeth Datblygu Hiraethog** yn Llangernyw ar 13/02/18 a Chlawddnewydd ar 20/02/18, y ddau am 6pm, i drafod cyfleoedd i wireddu prosiectau o fudd i'r ardal a'i phobl. Mae'r pwyslais presennol ar wella'r cysylltiad band eang yn ardal Hiraethog, sy'n cynnwys ardal ward Llanfair DC. Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu hefyd yn cynnwys 15 o weithredoedd tymor hir dros 20 mlynedd. Mynegodd y Cynghorydd Bob Barton ei fod yn dymuno mynd i un o'r cyfarfodydd.

406.6 E-bost Un Llais Cymru dyddiedig 31/01/18 ynghylch ymgynghoriad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y **Cod Ymarfer Archwilio** – dyddiad cau 26/03/18. Manylion llawn a sut i ymateb yn www.audit.wales **PENDERFYNWYD** dosbarthu'r wybodaeth i'r holl Gynghorwyr gan y gallai'r adolygiad fod o fantais i rai Cynghorau bach.

407 CYNLLUNIO

407.1 Cais 20/2017/1219 Dymchwel yr adeilad sy'n bodoli ac adeiladu adeilad labordy deulawr – Genus Breeding Ltd, Llanrhydd, Rhuthun. Anfonwyd y manylion at yr aelodau a **PHENDERFYNWYD** er eu bod yn cefnogi'r cais mewn egwyddor, awgrymu y dylid annog Genus plc i adeilad adeilad i safon uwch nag adeilad amaethyddol safonol arferol, a fyddai'n fwy derbyniol yn weledol ac yn cyd-fynd ag egwyddorion Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Roedd yr aelodau am gael sicrhwyd eu bod yn bodloni safonau amgylcheddol hefyd.

407.2 Apêl i'r Arolygiaeth Cynllunio [Cyfeirnod Swyddfa Gymreig R6830/A/3192325] <http://acp.planninginspectorate.gov.uk/> - yn erbyn yr Awdurdod Lleol am wrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer cael gwared ar garafan preswyl a datblygu tir trwy adeiladu un annedd gyda garej ar wahân yn Y Felin Ddŵr, Pwllglas, Rhuthun. Mynegodd y Cynghorydd Bob Barton ddiddordeb mewn mynd i wrandawriad petai gwrandawriad yn cael ei drefnu. **PENDERFYNWYD** bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Arolygydd yn unol â hynny.

407.3 Cymorth Cynlluno Cymru – Hyfforddiant Cynllunio am ddim [dau le am ddim i bob Cyngor] Cynhelir y gweithdy ddydd Iau, 22 Chwefror 2018, 2.30 - 5.45pm yng Ngwesty a Sba Castell Rhuthun, yn canolbwyntio ar geisiadau cynllunio. Bydd swyddogion Cynllunio o'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn bresennol i ateb cwestiynau. Bydd mynd i'r gweithdy yn cynorthwyo Cynghorau i ddeall yn well sut yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio a sut y gellir dylanwadu ar benderfyniadau. **PENDERFYNWYD** dosbarthu'r manylion i Gynghorwyr absennol a bwcio dau le, un lle i'w gymryd gan y Cynghorydd Bob Barton.

408 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

408.1 Adroddodd y Cadeirydd bod y tollffordd wedi cael wyneb newydd.

RHAN 2

409 PENDERFYNWYD eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

410 MATERION ARIANNOL

410.1 Cais am Gymorth Ariannol – Ysgol Pentrecelyn
PENDERFYNWYD gohirio'r penderfyniad tan gyfarfod mis Mawrth.

410.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau
Ni chyflwynwyd unrhyw anfonebau.

410.3 Diweddariad ar y gofynion Archwilio Mewnol Cyflwynwyd – dwy ddogfen gan JDH Business Services Ltd ynghylch adolygiad blynyddol effeithiolrwydd archwilio mewnol a chynllun archwilio mewnol 2017/18. Roedd y dogfennau'n tynnu sylw at bwysigrwydd yr hyn mae'n rhaid i Gyngor Cymuned ei wneud i fodloni'r safonau ynghyd â'r dystiolaeth berthnasol fel a nodwyd ar y rhestr wirio cofnodion a gwybodaeth sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r archwiliad. **PENDERFYNWYD** derbyn y dogfennau a nodi pwysigrwydd eu cynnwys.

411 CYFEIRIADAU E-BOST – Adroddwyd bod UK2 [cynhaliwyr y wefan] wedi cadarnhau, gan fod gan y Cyngor Cymuned gyfeiriadau e-bost anghyfyngedig, gellir ychwanegu enwau Cynghorwyr at yr enw parth presennol i greu cyfeiriad e-bost unigryw i Gynghorydd, er enghraifft, cllrkeithmouldsale@llanfaircommunitycouncil.co.uk ac yna eu hanfon i'w cyfeiriad eu hunain. Mae'n bosibl gwneud hyn heb unrhyw gostau ychwanegol. Gofynnodd rhai aelodau a oedd gwir angen gwneud hyn. **PENDERFYNWYD** bod y Clerc i wneud ymholiadau i ganfod a yw'n orfodol cyhoeddi cyfeiriadau e-bost Cynghorwyr ar y wefan yn ogystal â'u henw, eu cyfeiriad a'u rhif ffôn.

411 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

411.1 Adolygu'r Rheolau Sefydlog

PENDERFYNWYD [a] gwneud addasiadau fel a ganlyn:
paragraff 1.1 i nodi "mewn lleoliadau addas, hygyrch, yn ardal y cyngor cymuned"
paragraff 1.2 i nodi "yr ail ddydd Llun"
paragraff 1.3 i nodi "yr ail ddydd Llun sydd ar gael"
Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod paragraff 26.2 yn datgan bod penderfyniad i ychwanegu, amrywio neu ddileu Rheol Sefydlog, wedi ei gynnig a'i eilio, gael ei ohirio heb drafodaeth tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

[b] cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned nos Lun, 19 Mawrth, lleoliad i'w gadarnhau.

Gan nad oedd rhagor o fusnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod am 8.45pm.

John Pugh _____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Pentrecelyn nos Lun, 19 Mawrth 2018 am 7pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Bob Barton, Wini Davies, Moira Edwards, Jayne Mayers [Is gadeirydd] [am ran o'r cyfarfod], Keith Mouldsdales, John Pugh [Cadeirydd], Medwen Roberts, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 3 aelod o'r cyhoedd ynghyd â siaradwr gwadd, Mr Geoff Davies, Swyddog Arweiniol – Cyfleusterau Tai Cymunedol, Asedau a Thai, Cyngor Sir Ddinbych.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych; y Cynghorwyr David Baker a Tim Faire [ymrwymiaidau gwaith].

RHAN 1

412 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd John Pugh o ran Neuadd Eleanor fel ymddiriedolwr ac fel Llywodraethwr Ysgol Llanfair; y Cynghorydd Keith Mouldsdales fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor a'r Cynghorydd Medwen Roberts fel Llywodraethwr Ysgol Pentrecelyn.

413 MATERION CYMUNEDOL

413.1 Nwy Prif Gyflenwad Adroddodd y Cadeirydd bod cwmni Wales & West Utilities wedi ysgrifennu ar 12 Mawrth 2018 gyda dyfynbris am gyfraniad tuag at ddarparu cyflenwad nwy ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. Roedd y dyfynbris o £3,182 + TAW yn ddilys am 90 diwrnod ac yn ddibynnol ar unigolion yn derbyn y dyfynbris yn ystod y cyfnod dilys. Mae'r costau wedi cynyddu ers yr amcanbris gwreiddiol ac mae'r niferoedd yn wahanol. Byddai'r cwmni yn ychwanegu at y cyfraniad tuag at ddarparu cyflenwad nwy ar sail cost bwydo'r cyflenwad i eiddo unigol, sy'n golygu y bydd pobl yn cael dyfynbrisiau amrywiol. Fodd bynnag, mae peth cyllid grant ar gael gan Wales & West Utilities i gartrefi sy'n gymwys. Mynegwyd pryder nad oedd yr holl bentrefwyr wedi derbyn llythyr dyfynbris. Cadarnhaodd y Cadeirydd y cysylltwyd gyda darparwyr cyfleustodau eraill am ddyfynbris darparu cyflenwad nwy ond ni chafwyd unrhyw ffigurau pendant. Mae cyrraedd y nifer derbyniadau sy'n ofynnol er mwyn i'r cynllun fwrw ymlaen yn her enfawr, yn ogystal â chysylltu gyda a dod i gytundeb gyda'r holl bartion â diddordeb – y Cyngor Sir [yr ysgol newydd a'r tai cymdeithasol sy'n bodoli eisoes – tua 25 eiddo], Grŵp Cynefin [8 eiddo tai cymdeithasol] a Pure [datblygiad tai newydd yn cynnwys 63 o gartrefi]. Os oes awydd gwirioneddol i wireddu'r cynllun mae Wales & West Utilities yn hapus i gefnogi a hyrwyddo digwyddiad cymunedol. Yn y gorffennol mae'r cwmni wedi cynnwys Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad lleol, yr awdurdod lleol, cymdeithasau tai, cynghorwyr a dinasyddion. **PENDERFYNWYD** hysbysu Mr Darren Millar AC am y cynnig a gofyn a fyddai'n barod i roi ei gefnogaeth er mwyn symud y mater ymlaen.

413.2 Diffibrilyddion Dywedodd y Cynghorydd Jayne Mayers bod yr hyfforddiant a gafodd ei ganslo oherwydd y tywydd gwael diweddar wedi'i aildrefnu ar gyfer 27 Ebrill yn Ysgol Pentrecelyn. Bydd Genus yn gosod ei offer ei hun.

414.3 Cynllun Cymdogaeth Cyflwynwyd adroddiad a baratowyd gan Mr Steve Whipp ynghyd â dyfynbris gan Mr T Bennett-Lloyd ar gyfer datblygu cyswllt/rhyngwyneb rhyngwyd rhwng y Cyngor Cymuned a Neuadd y Pentref. Nodwyd bod y Cyngor Cymuned eisoes wedi enwi categori ar gyfer y cynllun ar ei wefan. Rhoddodd Mr Phil Webb ddiweddariad ar y cynnydd o ran yr arolwg cymunedol a gyllidwyd gan Cadwyn Clwyd – mae ffurflenni arolwg dwyieithog yn cael eu dosbarthu ar draws ardal y Cyngor Cymuned, bwriedir cynnal diwrnod agored yn neuadd y pentref rhwng 1 a 6 o'r gloch ddydd Iau, 19 Ebrill a dydd Sadwrn, 21 Ebrill, 10 o'r gloch tan hanner dydd i weld y canlyniadau a chael trafodaeth agored. Disgwylir yr adroddiad terfynol chwe wythnos yn ddiweddarach. Apeliodd am wirfoddolwyr i ddosbarthu'r ffurflenni arolwg. **PENDERFYNWYD** gohirio'r penderfyniad ar y dyfynbris ar gyfer datblygu cyswllt/rhyngwyneb rhyngwydd ond, yn y cyfamser, gwneud cais i'r cynllun gael ei roi ar wefan neuadd y pentref.

413.4 Diweddariad band eang – Llythyr dyddiedig 19 Chwefror 2018 gan Mr Darren Millar AC yn mynegi pryder nad yw Openreach wedi medru cwblhau'r briff i ddarparu gwasanaethau band eang ffibr ledled Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2017. Serch hynny, rhoddwyd estyniad o ddeufis i Openreach i'w galluogi i gysylltu 2,500 o eiddo ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau proses gaffael gwerth £80m i alluogi 88,000 eiddo arall i dderbyn gwasanaethau gwell, gyda rhybudd ynghylch "heriau peirianyddol a thechnegol nas rhagfynegwyd", a allai ei gwneud yn amhosibl darparu cysylltiad i ambell eiddo.

PENDERFYNWYD y dylai'r Clerc gysylltu gyda Cadwyn Clwyd am ddiweddariad ar eu prosiect band eang a'u hysbysu mai'r Cynghorydd Bob Barton yw Hyrwyddwr Band Eang y Cyngor Cymuned.

414 COFNODION PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

415 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
311.3 17/05/17 06/11/17 04/12/17 08/01/18	Eyarth Bridge Mae'r arwydd cyfyngiad pwysau yn y lleoliad anghywir. Gofynnwyd i'r Adran Traffig adolygu hyn – er bod yr arwyddion yno nid yw'n amlwg a bod yr un arall ar ochr Pwllglas yn creu rhwystr. Hysbyswyd yr Adran Priffyrdd am y pryderon.
351.5 08/01/18 31/01/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston] Dywedodd y Cynghorydd Bob Barton y byddai'n fodlon cynorthwyo gyda chodi arian. Trefnir i'r grŵp gyfarfod pan fo prosiectau wedi'u nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Adroddodd y Clerc yr anfonwyd llythrau i Glybiau Ffermwyr Ifanc Clwyd, Llysfasi, Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Rhuthun ar 12/10/17. Ni chafwyd unrhyw ymateb. Mae Cynghorwyr yn gyfrifol am ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn yr ardal.
356.1 06/11/17 08/01/18	Trosolwg Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol – Biniau Sbwriel

31/01/18	Mae dau fin sbwriel dwbl yn yr ardal – y tu allan i'r eglwys yn Llanfair a ger Coleg Lllysfasi. Gall Cyngor Sir Ddinbych ddarparu biniau sengl am £250 yr un ynghyd â £50 am eu gosod, a biniau dwbl yn £375 yr un ynghyd â £50 i'w gosod. Gohiriwyd y drafodaeth/penderfyniad tan Ebrill 2018.
356.3 367.1 387.3 04/12/17 08/01/18 31/01/18	Y Gofeb Rhyfel - Plac i goffâu'r rhai a fu farw mewn damwain awyren yn unol â chais Mr John Harrop. Gofynnwyd am ddyfynbrisiau yn cynnwys glanhau ac ailbaentio'r arysgrifiadau ar y Gofeb Rhyfel. The Mae'r Clerc wedi ymchwilio i enwau aelodau'r llu awyr i'w gosod ar garreg ar wahân ger y Gofeb ond mae angen eu dilysu gan Gofnodion Milwrol yr Awyrlu cyn gofyn am ganiatâd a dyfynbrisiau newydd. Ystyried gosod carreg goffa yn nhir yr eglwys fel dewis arall. Y Clerc i wneud ymholiadau gydag awdurdodau'r eglwys.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Y Clerc - Gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas.
	Grant tuag at gost y gwaith trwsio terfynol. Y Clerc - Gwaith yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
375.6 06/11/17 04/12/17 31/01/18	Carafan yn Erw Fair Ymwelodd y Swyddog Cynllunio a Gorfodaeth â'r safle ar 07/02/18 ac arsylwi bod y garafan yn parhau yn ei lleoliad y tu allan i'r cwrtil preswyl. Ailadroddwyd y cais i symud y garafan o fewn y cwrtil. Cafodd sicrwydd y byddai'r gweithredu angenrheidiol yn digwydd cyn pen 6 wythnos. Monitro i barhau.
386.1 04/12/17 08/01/18 31/01/18	Problemau parcio yn y gymuned leol Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am eglurhad a yw'r ardal maes parcio yn un cyhoeddus neu'n breifat i drigolion darpariaeth tai Cyngor Sir Ddinbych ym Mron y Clwyd. Dim ymateb hyd yma. Aros am ymateb.
325.2 08/01/18 31/01/18	Dulliau arafu traffig yng Ngraigfechan Y Clerc i holi a yw Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r arwyddion yn hysbysu am derfyn cyflymder ymlaen llaw. Disgwylir cymeradwyaeth rhywbryd yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19.
394.3 31/01/18	Papur Ymgynghori ar Ddeddfwriaeth Cynllunio yng Nghymru [30/11/17-01/03/18] Roedd y Cynghorydd Bob Barton wedi paratoi adroddiad ar gyfer Cyngor Tref Bae Colwyn yn tynnu sylw at bedair prif faes yn y ddogfen ymgynghori. Cytunwyd i ddsbarthu copi o'r adroddiad i Gynghorwyr Llanfair i gael eu sylwadau.
395.1 08/01/18 19/03/18	Problemau draenio/llifogydd ym Mhentre Coch Trefnu ymweliad safle rhwng Priffyrdd, yr Arweinydd a'r Cynghorydd John Pugh. Nid yw'r broblem llifogydd wedi'i datrys. Y Clerc i anfon e-bost atgoffa at yr Arweinydd.
395.2 08/01/18 31.01/18	Bolardiau gwynion yng Nghraigfechan Y Clerc i wneud ymholiadau a yw hyn yn cael ei ganiatáu. Dim ymateb hyd yma. Y Clerc i anfon nodyn atgoffa.
399 08/01/18 19/03/18	Asesiad Risg Y Cynghorwyr John Pugh a Keith Mouldsdale i drefnu hyn maes o law. Y Clerc i wneud ymholiadau ynghylch perchnogaeth y wal ym Mro Gynan y tu cefn i'r eglwys.

416 GOHEBIAETH

416.1 Llythyr Llywodraeth Cymru dyddiedig 01/03/18 ynghylch Cyllid 2018 i gefnogi sefydlu Trefniadau ar y Cyd [Themâu craidd – ymgysylltu gyda'r gymuned, cynyddu cyfranogiad dinasyddion ac ymwneud mewn democratiaeth leol, yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer clystyru]. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau – 20/04/18. Mae'r cynllun yn darparu cyfle i annog y Cynghorau hynny â diddordeb yn y meysydd hyn ond a oedd wedi wynebu rhwystrau wrth ddatblygu eu syniadau ymhellach yn flaenorol. Nodwyd.

416.2 Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol [GDPR]. Cyflwynwyd copi o becyn cymorth NALC i'w ddefnyddio gan Gynghorau Tref a Chymuned, sy'n cynnwys rhestr wirio cynllun gweithredu, holiadur arolwg data a thempled ar gyfer hysbysiadau preifatrwydd a ffurflenni caniatâd. Bydd angen i Gynghorau benodi Swyddog Diogelu Data. Bydd y Rheoliadau GDPR yn dod i rym ym mis Mai 2018. Mae hwn yn fater cymhleth ac ystyrir y bydd angen rhagor o arweiniad a hyfforddiant ar gynghorau llai yn enwedig. Mae Un Llais Cymru yn y broses o gynnwys GDPR yn un o'i sesiynau hyfforddiant, ac anfonir y manylion at y Cynghorau gynted ag y bo'r rhaglen yn barod. **PENDERFYNWYD** Dylai'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ganfod beth sydd wedi ei gyflwyno i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, pa gymorth y gall yr awdurdod lleol ei ddarparu a gofyn bod GDPR yn eitem agenda ar gyfer cyfarfod clwstwr nesaf y Clercod a Chadeiryddion Cynghorau Tref a Chymuned.

416.3 Swyddfa Archwilio Cymru – E-bost dyddiedig 08/03/18 ynghylch arolwg – i ystyried perthynas ac ymwneud Cynghorau Cymuned gyda'r awdurdod lleol; gwasanaethau neu amwynderau a ddarperir gan y Cyngor Cymuned; ac unrhyw asedau a drosglwyddwyd gan yr awdurdod lleol i'r Cyngor Cymuned. Dyddiad cau yr arolwg - 08/04/18. **PENDERFYNWYD** rhoi awdurdod i'r Clerc i gwblhau'r arolwg ar ran y Cyngor Cymuned.

417 CYNLLUNIO

417.1 Cais 20/2017/1219 Dymchwel adeilad sy'n bodoli eisoes ac adeiladu adeilad labordy deulawr – Genus Breeding Ltd, Llanrhydd, Rhuthun – ailymgynghori ynghylch cynlluniau diwygiedig a/neu wybodaeth ychwanegol. **PENDERFYNWYD** bod yr aelodau'n cefnogi'r diwygiadau ac wrth eu boddau bod y cynlluniau wedi'u huwchraddio.

417.2 Cais 19/2018/0618 Addasiadau ac estyniad i annedd, ac adeiladu garej/gweithdy ar wahân – Tŷ Canol, Ffordd Tŷ Terfyn, Llanfair DC [angen sylwadau erbyn 26/03/18]. **PENDERFYNWYD** nad oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiadau a'u bod yn dymuno cefnogi'r cais.

417.3 Diweddariad ar apêl i'r Arolygiaeth Gynllunio [Cyfeirnod y Swyddfa Gymreig R6830/A/3192325] <http://acp.planninginspectorate.gov.uk/> - yn erbyn yr Awdurdod Lleol yn gwrthod caniatáu caniatâd cynllunio ar gyfer Gwaredu Carafan Breswyl a datblygu tir trwy adeiladu un annedd gyda garej ar wahân yn The Watermill, Pwllglas, Rhuthun. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi penderfynu na fydd gwrandawriad yn cael ei drefnu. Nodwyd.

418 TAI

Siaradwr gwadd Mr Geoff Davies, Swyddog Arweiniol – Cyfleusterau Tai Cymunedol, Asedau a Thai, Cyngor Sir Ddinbych.

Sefydlodd Cyngor Sir Ddinbych sefydliad ar wahân ddwy flynedd yn ôl i ofalu am y stoc tai o 3,500 o unedau nad yw'n derbyn unrhyw arian y Dreth Gyngor, ac sy'n dibynnu ar incwm rhent yn unig. Mae'r incwm hwn yn cael ei ailfuddsoddi yn y tai, yn cynnwys adeiladu o'r newydd yn y Rhyl, Prestatyn a Dinbych. Mae Tai Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill. Mae un rhestr aros ar draws y gwahanol ardaloedd gwiethredu. Gofynnwyd cwestiynau am gynlluniau Sir Ddinbych o ran y ddarpariaeth nwy prif gyflenwad arfaethedig i Lanfair DC a'r hyn sy'n cael ei wneud ynghylch eiddo gwag. Mae 700 o eiddo gwag ar draws Sir Ddinbych ar hyn o bryd. Dywedodd Mr Davies y byddai'n cysylltu gyda Grŵp Cynefin ynghylch eu cynlluniau ar gyfer yr elusendai gwag yn Nhau Elizabeth Owen. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Davies am ddod i'r cyfarfod ac ateb y cwestiynau gan yr aelodau.

419 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

419.1 Pentrecelyn - Hysbysiad Cyngor Sir Ddinbych am gyfyngiad cyflymder 30 milltir yr awr parhaol B5429 o bwynt 300 metr i'r gogledd ddwyrain o'r gyffordd gyda'r A525 am bellter o 440 metr i gyfeiriad gogledd ddwyreiniol. Dyddiad cau ar gyfer ymatebion – 20 Ebrill 2018. **PENDERFYNWYD** [a] Bod yr aelodau'n croesawu ac yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno terfyn cyflymder 30mya rhwng Coleg Llysfasi a Phentrecelyn [b] gofyn i'r Cyngor Sir ystyried terfyn cyflymder 30mya ar hyd y lôn o'r A525 heibio Fferm Bryn Coch ac eiddo eraill i Bentrecelyn.

419.2 Palmant ger Neuadd y Pentref

PENDERFYNWYD gofyn i'r Cyngor Sir weithredu'n adferol i lanhau/tacluso'r palmant gan fod rhai i gerddwyr gamu ar y briffordd i osgoi mwd/cerrig.

RHAN 2

420 PENDERFYNWYD eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur cyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

421 MATERION ARIANNOL

421.1 Hysbysodd y Clerc bod HSBC yn bwriadu trosglwyddo cyfrifon, cynhyrchion a gwasanaethau i ran newydd y banc, HSBC UK [HSBC UK Bank plc. Bydd HSBC yn mynd i wrandawriad yn yr Uchel Lys ar 21/22 Mai 2018 i gael cymeradwyaeth ac os cymeradwyir y trosglwyddo, y dyddiad trosglwyddo arfaethedig disgwylidig yw 1 Gorffennaf 2018. Nodwyd.

421.2 Cais am gymorth ariannol PENDERFYNWYD dyrannu granitau fel a ganlyn:

£50 Ysgol Llanfair

£50 Ysgol Pentrecelyn

£50 Apêl Ambiwlans Awyr Plant Cymru

421.3 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£125.88 - Sandra Williams – Gwasanaeth Cyfieithu

£112.00 - Treuliau'r Clerc

421.4 Diweddariad am yr Archwiliad Disgwylir dyddiad ar gyfer archwiliad mewnol 2017/18 gan JDH Business Services Ltd.

422 CYFEIRIADAU E-BOST – Adroddwyd bod y Clerc wedi ysgrifennu at Un Llais Cymru i gael eglurhad. Mae'r Cyngor Cymuned eisoes yn bodloni'r gofynion statudol trwy gyhoeddi enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn. Nid yw'r rheoliadau'n datgan bod rhaid cynnwys cyfeiriad e-bost. Nodwyd.

423 HYFFORDDIANT / CYNADLEDDAU

PENDERFYNWYD Rhoddwyd cymeradwyaeth [a] i'r Clerc a'r Cynghorydd Bob Barton fynd i gynhadledd ar y cyd SLCC/Un Llais Cymru yn Llandrindod ar 16 Mai 2018 a [b] bod y Clerc yn mynd i Seminar Hyfforddiant Rhanbarthol SLCC yn Llandudno ar 5 Medi 2018.

424 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

424.1 Adolygu'r Rheolau Sefydlog

PENDERFYNWYD yn unol â'r diwygiadau a wnaed i'r Rheolau Sefydlog, cymeradwyo'r rhaglen cyfarfodydd a ganlyn [lleoliadau i'w cadarnhau]:

2018 - 16 Ebrill, 21 Mai, 11 Mehefin, 9 Gorffennaf, 10 Medi, 8 Hydref, 12 Tachwedd,
10 Rhagfyr

2019 - 14 Ionawr, 11 Chwefror, 11 Mawrth

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 9pm.

John Pugh _____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD